GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)



Adroddiad a chyfrifon blynyddol
2021/22



Cynnwys

ADRODDIAD CYFLAWNIAD 5

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr 6

Rhagair Cryno y Prif Weithredwr 7

Ffeithiau allweddol 9

Pwy ydym ni 11

Yr hyn a wnawn – ein swyddogaethau 12

Sut rydym yn ei gyflawni, ein diwylliant, ein gwerthoedd a'n hymarweddiad 13

Crynodeb cyflawniad 18

Cyflawniad yn ôl fframwaith cyflawni GIG Cymru 2021/22 a'r chwe maes 22

DADANSODDIAD CYFLAWNIAD 25

Effaith COVID-19 27

Datblygu ein IMTP 28

Cyflawni ein cynllun blynyddol 30

Meysydd heriol a Chyflawni mewn Partneriaeth 36

Uchafbwyntiau Comisiynu Addysg a Hyfforddiant 38

Ein gweithlu 45

Cyflawniad Ariannol 48

Y Gymraeg 50

Cynaliadwyedd 51

Atodiad 1.1 Tueddiadau o ran Comisiynu Addysg a Hyfforddiant 53

Atodiad 1.2 Tueddiadau o ran Comisiynu Gweithwyr Iechyd Proffesiynol 56

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD A CHYFRIFON 59

Adroddiad llywodraethu corfforaethol 60

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol 85

Adroddiad y Cyfarwyddwr 86

Adroddiad Taliadau a Staff 2021/22 88

Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru 100

Datganiadau Ariannol a Nodiadau 2021/22 104



Adroddiad perfformiad

2021/22

Croeso gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr





Mae'n bleser gennym gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2021/2022. Mae crynodeb y Prif Weithredwr yn rhoi cipolwg ar sut mae'r sefydliad wedi datblygu ac wedi perfformio yn ystod cyfnod heriol iawn i'r wlad.

Mae pedair blynedd wedi mynd heibio ers i ni gael ein sefydlu a hoffem gydnabod ymroddiad, proffesiynoldeb ac egni ein staff sy'n rhan o dîm AaGIC. Fel y gwelwch, rydym wedi parhau i feithrin a datblygu ein partneriaethau gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ar draws y GIG, gofal cymdeithasol, addysg, rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol ac, yn bwysicaf oll, ein hyfforddeion a'n myfyrwyr.

Mae'r ffocws bob amser ar wella gofal a gwella canlyniadau drwy addysg, hyfforddiant a datblygu'r gweithlu, wedi'i ategu gan uchelgais Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae gennym gasgliad ymroddedig ac uchelgeisiol o aelodau annibynnol sydd ag amrywiaeth eang o brofiad. Mae ein rôl arweinyddiaeth systemau mewn arweinyddiaeth dosturiol ac ar y cyd yn cynyddu momentwm, ac mae datblygiad ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi'r hyn y byddwn yn ei gyflawni ar draws ein swyddogaethau eraill, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu a gwybodaeth, gyrfaoedd ac ehangu mynediad, trawsnewid y gweithlu, ac addysg a hyfforddiant. Mae trawsnewid addysg a'n ffocws ar gyfleoedd digidol mewn partneriaeth â Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn hanfodol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth, gan ehangu mynediad a'r cyfle i hyfforddi, gweithio a byw yng Nghymru, gan wasanaethu poblogaeth Cymru. Mae'r cyllidebau comisiynu addysgol yn cefnogi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, ac mae ein gwaith ar fynd i'r afael ag amrywiaeth a chynhwysiant yn aeddfedu gyda ffocws penodol ar gyrhaeddiad gwahaniaethol ar gyfer ein hyfforddeion a'n myfyrwyr.

Credwn fod y cyfnod hwn wedi ein galluogi i adeiladu a chydgyfnerthu'r sefydliad a'n rhoi mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd wrth symud ymlaen.

Dr Chris Jones
Cadeirydd
13 Mehefin 2022

Alex Howells
Prif Swyddog Gweithredol
13 Mehefin 2022

Rhagair gan y Prif Weithredwr



Eleni, roedd yn rhaid i ni ymateb i ofynion brys y pandemig gan barhau i ganolbwyntio ar raglenni gwaith strategol a fydd yn sicrhau manteision tymor hir i'r gweithlu iechyd a gofal a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021. Yn unol â sefydliadau eraill GIG Cymru, ac o ganlyniad i bwysau'r pandemig, ni chafodd y Cynlluniau eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd nodau ac amcanion y Cynllun Blynyddol eu hadolygu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, gan addasu lle bo angen i gefnogi ymateb y GIG i'r pandemig. Yn gyffredinol, gwnaeth AaGIC gynnydd da o ran cyflawni 59 o amcanion strategol ar draws ein chwe nod strategol.

Fel partner gweithredol yn yr ymateb i COVID-19, ein blaenoriaeth yn 2021/22 oedd cefnogi'r GIG a'r system gofal ehangach fel rhan o gynllun Ymateb ac Adfer y System, gan adnewyddu ein gwaith blaenorol i gefnogi'r egwyddor ymarfer darbodus, gan gynnwys cymarebau staffio, cymysgedd o sgiliau a chanllawiau dirprwyo. Gwnaethom hefyd weithio'n agos gyda phartneriaid i gefnogi ein hyfforddeion a'n myfyrwyr drwy ddiogelu addysg a hyfforddiant cymaint ag y bo modd. Roeddem yn gallu elwa o'r cynnydd a wnaed yn y don gyntaf o ran symud i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), recriwtio, hyfforddi, cynnydd a rheoli ansawdd ar-lein. Er bod rhai hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth wedi cael eu tarfu, mae'n llai nag yn 2020/21. Nid oes risgiau COVID-19 wedi'u cofnodi ar gyfer y flwyddyn academaidd hon gydag addysg nyrsio ac addysg broffesiynol arall ym maes iechyd.

Mae ansawdd wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud, ac felly roeddem yn falch o wneud cynnydd da o ran datblygu fframwaith ansawdd amlbroffesiwn AaGIC. Mae'r canllawiau gweithredol i gefnogi'r fframwaith ac un set o safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant wrthi'n cael eu cwblhau.

Rydym hefyd wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol ar flaenoriaethau strategol allweddol diolch i broffesiynoldeb ac ymroddiad ein staff. Mae llawer o'r rhain yn greiddiol i weithredu'r Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac maent yn cynnwys:

- Datblygu Cynllun Addysg, Comisiynu a Hyfforddiant 2022/23, sef y cyfrwng ar gyfer cytuno ar nifer y staff rydym yn eu hyfforddi yng Nghymru.

- Patrwm newydd o ddarpariaeth addysg israddedig gweithwyr iechyd proffesiynol yn y dyfodol ym Mhrifysgolion Cymru wedi'i sicrhau drwy ymarfer caffael sylweddol (Cam 1 yr Adolygiad Strategol o Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol).
- Mae adolygiad o'n rhaglenni addysg ôl-gofrestru ac addysg gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi dechrau. (Cam 2 yr Adolygiad Strategol o Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol).
- Datblygu'r Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar y cyd ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Cefnogaeth ar gyfer yr atebion ar gyfer y gweithlu sydd eu hangen ar gyfer llawer o raglenni cenedlaethol, gan gynnwys delweddu, endosgopi a gofal brys ac mewn argyfwng.
- Lansio nifer o raglenni datblygu arweinyddiaeth.
- Lansio Tregyrfa, sef llwyfan digidol sydd wedi'i greu i alluogi defnyddwyr i archwilio gwahanol yrfaoedd ym maes iechyd a gofal.
- Caffael system rheoli dysgu digidol newydd - Y Ty Dysgu.
- Parhau i weithredu safonau addysg a hyfforddiant newydd ar gyfer fferyllwyr.

Mae AaGIC yn parhau i aeddfedu o ran ei ddatblygiad ariannol, ac mae wedi dangos cymhwysedd mewn cynllunio ariannol ac o ran llywodraethu ariannol. Mae ein gwaith monitro ariannol yn parhau i gyrraedd safon uchel, a drwy weithio'n agos â chyd-weithwyr cyllid yn Llywodraeth Cymru, rydym wedi rheoli ein sefyllfa ariannol mewn ffordd dryloyw, ac wedi cyrraedd yr holl dargedau ariannol am y bedwaredd flwyddyn.

Unwaith eto eleni, rydym wedi gallu cynnal trefniadau llywodraethu cadarn, a gefnogir gan adroddiadau archwilio mewnol ac allanol a gallu'r sefydliad i gyflawni ei ymrwymiadau allweddol ar gyfer 2021/22.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud rhai ychwanegiadau allweddol i'n Tîm Gweithredol, ac mae'r rhain eisoes wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r sefydliad ymhellach. Er bod gweithio o bell ac ar-lein wedi helpu AaGIC i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, rydym yn falch ein bod wedi gallu rhoi ein model gweithio'n ystwyth ar waith erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym wedi parhau i adeiladu ar ein cynnydd o ran gwreiddio'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn, ac i sicrhau bod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein sefydliad ac ar draws ein swyddogaethau.



Alex Howells
Prif Weithredwr
13 Mehefin 2022

Prif Ffeithiau

AaGIC – Awdurdod Iechyd Arbennig

Cylch Gwaith Cymru Gyfan

£268.180m cyllideb flynyddol 88% ar addysg a hyfforddiant

Dros 500 o staff a gyflogir yn uniongyrchol

2,916 o hyfforddwyr a goruchwylwyr meddygol a deintyddol

Yn hyrwyddo:



350+
o yrfaoedd yng Nghymru



27
o lyfrgelloedd iechyd



E-Lyfrgell Iechyd GIG Cymru wedi'i rheoli gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru

2,300+
o gylchlythyrau e-gyfnodolion

22+
o gronfeydd data, e-ddysgu a chanllawiau

Ar unrhyw adeg, rydym yn cefnogi addysg, hyfforddiant a DPP:



tua. 4,010
o feddygon gradd hyfforddi a staff a meddygon arbenigwyr cyswllt ar draws:

58
rhaglen hyfforddiant meddygol arbennig

11
cynllun hyfforddi meddygon teulu ardal

19
cynllun hyfforddi deintyddol



2,778
fferyllydd

1,650
technegydd fferylliaeth

161+
o fferyllwyr cyn-cofrestru a thechnegwyr fferylliaeth dan hyfforddiant

80
fferyllydd diploma



1,000+
nyrs gymunedol dan hyfforddiant




1,732
deintydd

3,598
gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol

161
deintydd dan hyfforddiant

10
therapydd deintyddol dan hyfforddiant



800+
optometrydd gan gynnwys tua 100 sy'n astudio yng Nghymru

50
optegydd lensys cyffwrdd

278
optegydd sy'n cyflenwi



tua. 700
uwch-ymarferwr sy'n gyflogeion y GIG



tua. 400+
o fyfyrwyr Bydwreigiaeth



2,800
o fyfyrwyr Proffesiynau perthynol i iechyd



5,500+
o fyfyrwyr Nyrsio



300+
o Wyddonwyr gofal iechyd sy'n fyfyrwyr

tua. 70
o Wyddonwyr gofal iechyd dan hyfforddiant



tua. 830
o ragnodwyr annibynnol dan hyfforddiant

Pwy ydym ni?

Mae AaGIC yn sefydliad unigryw yn GIG Cymru. Cafodd ei sefydlu fel Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n chwarae rôl arweiniol yn addysgu, hyfforddi, datblygu a siapio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru. Rydym yma i wneud gwahaniaeth go iawn i gleifion, i wella profiadau hyfforddeion a myfyrwyr, ac i wella lles a photensial gweithlu'r GIG. Rydym yn sicrhau bod gennym y staff cywir, sy'n meddu ar y sgiliau cywir, i ddarparu gofal iechyd o'r radd flaenaf i bobl Cymru nawr ac yn y dyfodol.

Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw **"Trawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru iachach"** a ddatblygwyd drwy ymgysylltu â staff, rhanddeiliaid a phartneriaid.

Ein pwrpas yw datblygu gweithlu sy'n darparu gofal rhagorol i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth ac iechyd rhagorol yn y boblogaeth. Fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae gennym gyfraniad unigryw i'w wneud i GIG Cymru drwy:

- fynd i'r afael â materion strategol ac arbenigol sy'n ymwneud â'r gweithlu.
- gwneud Cymru yn lle gwych i hyfforddi a gweithio i'n staff iechyd a gofal.
- gwneud y mwyaf o gyfraniad pob proffesiwn a galwedigaeth drwy ein swyddogaethau statudol.

Mae ein rôl addysgu a hyfforddi yn gwneud cyfraniad sylfaenol i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum ffordd o weithio. Credwn fod hyn yn rhan o'n pwrpas craidd, gan greu'r amodau ar gyfer gweithlu cynaliadwy i'r dyfodol ac ehangu mynediad at yrfaoedd a chyfleoedd ym maes iechyd. Yn ogystal â hynny, ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid i siapio cyfleoedd addysg a hyfforddiant, gan eu gwneud yn fwy hygyrch dim ots beth yw eich cefndir na ble rydych yn byw.

Rydym hefyd yn deall yn glir mai ein pwrpas yw gwella diogelwch ac ansawdd y gofal i gleifion, gwella profiadau hyfforddeion, myfyrwyr a staff, a sbarduno buddiannau i'r system yn ei chyfanrwydd.

Beth rydym yn ei wneud – ein swyddogaethau

Mae'r sefydliad yn cyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau, fel yr amlinellir isod. Gyda'i gilydd maen nhw'n ein helpu i wireddu a chyflawni ein gweledigaeth a'n pwrpas.

Swyddogaethau

Datblygu Arweinyddiaeth

Datblygu a thrawsnewid y gweithlu

Gyrfaoedd ac ehangu mynediad

Gweithlu – cynllunio strategaeth Deallusrwydd

Addysg a Hyfforddiant – cynllunio, comisiynu a darparu

- **Datblygu Arweinyddiaeth:** rydym yn gyfrifol am bennu'r strategaeth, yr egwyddorion a'r fframweithiau ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ledled Cymru, yn seiliedig ar arweinyddiaeth dosturiol ac ar y cyd, ynghyd â chomisiynu a darparu gweithgareddau datblygu arweinyddiaeth ar gyfer grwpiau allweddol. Rydym yn arwain ar gynllunio olyniaeth a rheoli talent ar gyfer darpar Gyfarwyddwyr a Phrif Weithredwyr.
- **Strategaeth, Cynllunio a Deallusrwydd y Gweithlu:** yn ogystal â darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer datblygu capasiti cynllunio'r gweithlu ar draws y GIG, mae gennym rôl arweiniol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithlu strategol a darparu gwybodaeth a gwybodaeth ddadansoddol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ffurf y gweithlu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- **Datblygu a Thrawsnewid y Gweithlu:** rydym yn cefnogi trawsnewid a gwella'r gweithlu i ymateb i heriau gwasanaeth sylweddol, gan gynnwys datblygu sgiliau, dylunio rolau, dulliau gweithredu darbodus, DPP a datblygu llwybrau gyrfa.
- **Cynllunio, Comisiynu a Darparu Addysg a Hyfforddiant** rydym yn cynllunio, yn comisiynu, yn darparu ac yn rheoli ansawdd addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig ar gyfer ystod eang o broffesiynau iechyd ac yn arwain ar fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru.
- **Gyrfaoedd ac Ehangu Mynediad:** rydym yn hyrwyddo gyrfaoedd ym maes iechyd a'r agenda ehangu mynediad i sicrhau bod cyfleoedd i weithio yn y system iechyd a gofal ar gael i bawb. Rydym yn anelu at gynnwys pobl yn ein cymunedau sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad gwerthfawr ac sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd.
- **Cynnal Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol (OCDO)** Ym mis Gorffennaf 2021, cafodd swyddogaethau AaGIC eu hymestyn gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i gynnwys cynnal OCDO ar gyfer Iechyd a Gofal. Yn unol â chais Llywodraeth Cymru, cafodd y Gorchymyn ei atal dros dro ddiwedd 2021, a chafodd ei roi ar waith eto ym mis Mawrth 2022.

Sut rydym yn gwneud hyn

Ein Diwylliant, ein Gwerthoedd a'n Hymddygiad

A ninnau'n sefydliad sy'n canolbwyntio ar y gweithlu, mae ein diwylliant a'n ffordd o wneud busnes yn bwysig iawn i ni. Ein huchelgais o hyd yw bod yn gyflogwyr rhagorol ac yn lle ardderchog i weithio ynddo, gan gydnabod bod ein gweithlu nid yn unig wedi'u rhannu ar draws Cymru ond wedi cofleidio trefniadau gweithio gartref yn llwyddiannus yn sgil y pandemig. Rydym yn parhau i ddatblygu ein harferion pobl, cynhwysiant a datblygu sefydliadol i'n galluogi i wireddu ein huchelgeisiau. Mae'n hollbwysig bod gennym weithlu cynaliadwy, ymroddedig sy'n llawn cymhelliant ac yn gymwys, yn hyderus ac yn meddu ar y capasiti priodol i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau. Rydym yn awyddus i gefnogi datblygiad ein staff presennol yn ogystal â bod yn atyniadol i staff newydd wrth i'n sefydliad barhau i aeddfedu.

I gyd-fynd â'n nod o fod yn gyflogwr o esiampl, rydym am i'n gweithlu ni fod yn hapus, yn iach ac yn ymroddedig, ac rydym yn hyrwyddo lles, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a dwyieithrwydd yn AaGIC, yn unol â'r Strategaeth Gweithlu ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol. Ynghyd â'n staff, rydym wedi datblygu gwerthoedd ein sefydliad:

Dyma ein gwerthoedd:



Parchu pawb:
ym mhob cyswllt sydd gennym ag eraill



Gyda'n Gilydd fel Tîm: byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr, ledled GIG Cymru a chyda sefydliadau partner



Syniadau sy'n Gwella: harneisio creadigrwydd ac arloesi, arfarnu a gwella'n barhaus

Mae ein Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad ar ein gwefan yn Error! Hyperlink reference not valid..

Rydym yn parhau i wreiddio'r gwerthoedd a'r ymddygiadau yn ein polisïau, ein harferion a'n prosesau, ac yn manteisio ar bob cyfle i fod yn esiampl o'r gwaith cenedlaethol rydym yn ei arwain mewn cysylltiad ag arweinyddiaeth dosturiol a chydweithredol.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol gan gynnwys â staff yn hollbwysig ac mae wedi bod yn brif flaenoriaeth ers sefydlu'r sefydliad. Mae ein strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu yn disgrifio sut rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu'n effeithiol â staff i greu amgylchedd gwaith cynhwysol a pharchus. Mae'r dull hwn wedi datblygu yn ystod y pandemig i adlewyrchu trefniadau gweithio gartref staff yn sgil y pandemig.

Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar wahaniaethu a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant drwy gyfleoedd cyfartal ac ym mhopeth a wnawn. Rydym wedi parhau i wreiddio ein hagenda amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant sy'n cael ei llywio gan arweinyddiaeth gref, cyd-gynhyrchu, cydweithredu ac ymgysylltiad uniongyrchol â'r rhai y mae ein penderfyniadau'n effeithio arnynt.

Ym mis Hydref 2020, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf, sy'n nodi ein cyfeiriad ar gyfer y pedair blynedd nesaf, gan egluro sut byddwn yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Partneriaeth y Sector Cyhoeddus a'n cyfraniad at y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae AaGIC wedi bod yn ymgysylltu'n llawn â'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru. Mae

ein Cyfarwyddwr Meddygol yn aelod o Bwyllgor Llywio Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol y Prif Weinidog, sydd wedi arwain y gwaith hwn.

Mae ein Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant blaenorol wedi cael ei drosi'n rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar rannu a datblygu arferion gorau ar draws y sefydliad. Mae ein Rhwydwaith Cynhwysiant yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch yn y sefydliad ac mae'n cynnal nifer o ddigwyddiadau rhithiol ac wyneb yn wyneb sy'n codi proffil amrywiaeth ac yn ei ddathlu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi ein hail Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb ar gyfer 2020-2021, a'n Hadroddiadau ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gyfer 2020 a 2021.

Mae rhagor o fanylion am ein gwaith hyrwyddo cydraddoldeb ar gael ar dudalennau 17-18 ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cyfansoddiad ein gweithlu

Mae ein gweithlu yn cynnwys mwy na 500 o staff sy'n dod o amrywiaeth o gefndiroedd gan gynnwys gwasanaethau rheng flaen y GIG, amrywiaeth o leoliadau addysg, yn ogystal â gwasanaethau eraill y sector cyhoeddus neu sectorau proffesiynol, fel cyllid a TG. Mae manylion llawn am gyfansoddiad ein gweithlu ar gael ar dudalennau 3-4 Adroddiad Taliadau a Staff 2020-21.

Pan sefydlwyd AaGIC, casglwyd ynghyd staff o dri sefydliad blaenorol:

- Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygu;
- Deoniaeth Cymru;
- Canolfan Addysg Broffesiynol Cymru – Fferylliaeth.

Mae AaGIC yn dal yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu sefydliadol. Yn ogystal â'r staff sydd wedi trosglwyddo i'r sefydliad o sefydliadau rhagflaenol, rydym wedi recriwtio nifer sylweddol o staff newydd dros y pedair blynedd ddiwethaf – pobl â chefndir yn y GIG a rhai heb gefndir yn y GIG.

Er mwyn parhau i feithrin y diwylliant rydym ei eisiau, rydym wedi cynnal arolygon rheolaidd o staff a lles ac roeddem yn falch o gael sgôr ymgysylltu o 81% yn arolwg diwethaf staff Cymru gyfan.

Denu, recriwtio a dethol

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i hysbysebu ein swyddi gwag ac yn defnyddio proses recriwtio yn seiliedig ar werthoedd ar draws pob maes, wedi'u cefnogi gan hyfforddiant priodol i reolwyr, gan gynnwys ar ragfarn ddiarwybod.

Rydym yn gwybod bod tua 80% o'n gweithlu yn y dyfodol gyda ni heddiw yn barod. A ninnau'n sefydliad â phrif bwrpas o ddatblygu'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol i GIG Cymru, mae'n hollbwysig bod ein staff ein hunain yn meddu ar brofiad ardderchog yn y maes hwn.

Mae ein gweithdrefn polisi, Arfarniad Perfformiad ac Adolygiad Datblygu (PADR), yn rhan allweddol o hyn. Yn ystod yr adolygiad mae gan staff y cyfle i drafod eu cynnydd yn erbyn eu hamcanion y cytunwyd arnynt â'u rheolwr llinell, i ddatblygu amcanion parhaus, ac i greu a chytuno ar gynllun datblygu personol er mwyn galluogi datblygiad personol a phroffesiynol parhaus. Rydym yn dal yn gweithio'n galed gyda'n rheolwyr i sicrhau bod yr adolygiadau'n cael eu cwblhau a'u cofnodi er mwyn cyrraedd y targed disgwyliedig, 85%. Ein perfformiad ar hyn o bryd yw 70.1% sy'n gynnydd o 7% dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rhaid i'n holl staff gwblhau hyfforddiant statudol a gorfodol Cymru gyfan yn unol ag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd GIG Cymru. Rydym wedi gweithio'n galed gyda rheolwyr i sicrhau ein bod yn cyrraedd cyfradd darged perfformiad haen un o 85% ac yn cyrraedd y targed hwn am y tro cyntaf eleni pan gyrhaeddwyd ein cyfradd perfformiad o 85% ar hyn o bryd.

Cyfathrebu'n effeithiol â phobl, rhanddeiliaid, partneriaid a'r cyhoedd

Rydym yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth eang ac amrywiol o bartneriaid a rhanddeiliaid mewn amryw o sectorau i werthuso, ailgynllunio a gweddnewid sut mae angen inni weithio er mwyn bodloni anghenion byd sy'n newid yn gyson. Mae rhagor o fanylion ar gael ar dudalennau 19-20 ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae ein Fforwm Partneriaeth Leol yn cyfarfod bob dau fis; mae rhagor o fanylion ar gael yn ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 11.

Gwybodaeth a dadansoddi data

O ran adroddiadau corfforaethol a busnes, rydym yn cynnal y system Cofnod Staff Electronig ac yn cydweithio i sicrhau cywirdeb wrth adrodd ar swyddi gwag, ac adnoddau eraill mewn cysylltiad â'r gweithlu. Mae'r Tîm Dadansoddi a Data'r Gweithlu (WDAT), sef rheolwyr data y Cofnod Staff Electronig yn AaGIC, yn rhoi cymorth i'r sefydliad cyfan gyda materion sy'n ymwneud â'r Cofnod ac yn darparu adroddiadau, dadansoddiadau a hyfforddiant ar draws AaGIC.

Mae WADT yn rhoi cymorth gyda'r gwaith o adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol AaGIC ar draws y sefydliad ac mae'n cyfuno nifer o ffynonellau data i fodelu'r gweithlu. Yn allanol, mae WDAT yn cynhyrchu adroddiadau ar y gweithlu cenedlaethol ac yn ymateb i geisiadau cenedlaethol am wybodaeth a dadansoddiadau ynghylch y gweithlu.

Systemau Ddigidol a Gwybodaeth

Mae'r Tîm Digidol yn dylunio, yn datblygu, yn rhedeg ac yn rhoi cymorth â'r rhaglenni a'r systemau technoleg ddigidol sy'n cefnogi AaGIC, gan sicrhau bod y rhain yn addas i'r diben ac yn gallu galluogi'r sefydliad. Mae 'digidol' yn llawer mwy na'r dechnoleg yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau newid cadarnhaol yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu, drwy ddefnyddio pŵer gwybodaeth a thechnoleg i wella'r ffordd mae swyddogaethau AaGIC a'r gweithlu yn cael eu cyflawni. Ar ben hynny, mae'r Tîm Digidol yn arwain y gwaith o wella sgiliau digidol ar draws GIG Cymru i sicrhau bod y gweithlu'n barod ar gyfer dyfodol digidol ac yn ystyried ac yn cynllunio ar gyfer sut bydd technoleg yn newid siâp y gweithlu a hyfforddiant ac addysg.

Iechyd, diogelwch a lles staff

Mae lles ein staff yn bwysicach na dim ac rydym yn ymdrechu i wneud yn siŵr bod ein hamgylcheddau ac arferion gweithio yn ein cartrefi ac yn ein swyddi yn ein helpu i gyflawni'r nod hwn.

Mae hwn wedi bod yn faes sydd wedi cael sylw penodol dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i'r heriau o ran lles y mae'r pandemig wedi'u hachosi'n gyffredinol, a heriau penodol gweithio gartref.

Yn Tŷ Dysgu, ein pencadlys, mae'r tîm cyfleusterau wedi addasu'r gweithlu mewnol yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd ar ymateb i'r pandemig er mwyn gwneud yn siŵr bod ein staff mor ddiogel â phosib. Roedd hyn yn cynnwys cyfnodau lle'r ystyriwyd bod angen cau Tŷ Dysgu ar wahân i anghenion busnes hanfodol neu lle'r oedd yn cefnogi lles staff. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r sefydliad, wedi parhau i adolygu polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch, gan gynnwys canllawiau ynghylch COVID-19.

Mae gennym rwydwaith lles cryf ar draws y sefydliad ac oherwydd mai ni yw arweinydd y system o ran lles staff yn GIG Cymru, rydym yn gallu profi a hyrwyddo amrywiaeth eang o fentrau ac adnoddau yn AaGIC cyn eu cyflwyno ymhellach.

Cynllunio

Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021. Yn unol â sefydliadau eraill GIG Cymru, ac o ganlyniad i bwysau'r pandemig, ni chafodd y Cynlluniau eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru. Serch hynny, cafwyd adborth anffurfiol cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru cyn ei gyflwyno. Cafodd nodau ac amcanion y Cynllun Blynyddol eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod gan AaGIC ddull gweithredu ystwyth i gefnogi ymateb gweithlu'r GIG i'r pandemig. Rydym wedi parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau cynllunio a rheoli prosiectau ar draws ein timau.

Mae rhagor o fanylion am ein gwaith Cynllunio ar gael ar dudalen 23 ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Llais myfyrwyr a hyfforddeion

Mae llais myfyrwyr a hyfforddeion yn hollbwysig i'n rôl addysgu a hyfforddi, ac i gyfrannu'n llwyddiannus at yr agenda gofal iechyd yng Nghymru. Mae gennym nifer o ddulliau ar waith i wneud yn siŵr ein bod yn clywed yr hyn sy'n cael ei ddweud, ac mae'r rhain wedi'u nodi isod.

O safbwynt strategol, mae 'melin drafod hyfforddeion', sef grŵp o 12-15 o hyfforddeion meddygol a deintyddol yn dylanwadu ar yr agenda addysg a hyfforddiant drwy gynrychioli amrywiaeth o arbenigeddau o bob rhan o Gymru. Cynhaliwyd cynhadledd ar-lein i ymgysylltu â hyfforddeion ar 13 Ebrill 2021 gyda chynrychiolwyr dan hyfforddiant o amrywiaeth o arbenigeddau a graddau ledled Cymru.

Cesglir adborth hyfforddeion drwy arolwg hyfforddeion cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac arolygon diwedd lleoliad.

Mae Fforwm Myfyrwyr Iechyd Cymru yn grŵp arloesol o dros 100 o fyfyrwyr gofal iechyd o bob cwrs gofal iechyd sy'n frwd dros ddylanwadu ar brofiad dysgu myfyrwyr gofal iechyd yng Nghymru.

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen gyda chynrychiolaeth fforwm myfyrwyr i ailsefydlu'r fforwm ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-22 yn dilyn yr amhariad pandemig, ac mae dau ddigwyddiad fforwm myfyrwyr llwyddiannus wedi bod hyd yma:

- Cyfarfod gosod y cyd-destun yn egluro rôl AaGIC a rôl y fforwm yn y dyfodol lle cytunwyd ar y rhaglen ar gyfer y flwyddyn.
- Cynhadledd lles myfyrwyr gyda siaradwyr o'r Uned Cymorth Proffesiynol, y gweithlu, cyn-fyfyrwyr ac aelodau o Fwrdd AaGIC.

Roeddem wedi gwneud penderfyniad ymwybodol oherwydd y pandemig i roi stop ar ein sioeau teithiol yn 2021-22, a oedd fel arfer yn cael eu cynnal mewn Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd. Maen nhw wedi'u hanelu'n bennaf at fyfyrwyr a hyfforddeion. Bydd y rhain yn ailddechrau yn 2022-23.

Llywodraethu

A ninnau'n gorff statudol, mae gan AaGIC Fwrdd sy'n cynnwys Cadeirydd, Prif Weithredwr, chwe aelod annibynnol a phedwar cyfarwyddwr gweithredol. Mae rhagor o wybodaeth am y Bwrdd, ein dau gyfarwyddwr nad ydynt yn gyfarwyddwyr gweithredol, eu rolau a'u cyfrifoldebau ar gael ar dudalennau 2 i 10 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Datgan buddiannau: mae manylion am gyfarwyddiaethau cwmnïau a buddiannau arwyddocaol eraill aelodau o'r Bwrdd, a allai wrthdaro â'n cyfrifoldebau, yn cael eu cynnal a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae cofrestr buddiannau ar gael yn adran cyfarfodydd y Bwrdd ein gwefan yn https://aagic.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/. Gellir cael copi caled gan Ysgrifennydd y Bwrdd ar gais.

Risgiau a llywodraethu sefydliadol

Fel sefydliad, rydym yn glynu wrth Bolisi Rheoli Risg AaGIC. Rydym yn cynnal system rheoli risg sy'n galluogi ac yn grymuso staff i nodi, asesu a rheoli risgiau i AaGIC. Mae risgiau strategol a corfforaethol yn cael eu monitro gan y Bwrdd a'u rheoli gan y Tîm Gweithredol, ac mae risgiau gweithredol yn cael eu rheoli gan dimau ar y lefel fwyaf priodol.

Cyfarfodydd comisiynu addysg a hyfforddiant blynyddol

Bob blwyddyn rydym yn cynnal cyfarfodydd ag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd i adolygu'r ddarpariaeth addysg feddygol i raddedigion i wneud yn siŵr ei bod yn cydymffurfio â safonau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Yn unol â'r gofynion iechyd y cyhoedd mewn ymateb i'r pandemig, cafodd rhai o'r cyfarfodydd hyn eu cynnal ar-lein. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle gwerthfawr i gyfathrebu â chyfarwyddwyr gweithredol a thimau addysg mewn sefydliadau unigol. Eleni, maes a oedd yn destun sylw allweddol oedd dyfarnu a gweithredu contractau ar gyfer Cam Un yr Adolygiad Strategol o Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol. Mae rhagor o fanylion am lywodraethu, sicrwydd a rheoli risg ar gael yn yr adroddiad llywodraethu corfforaethol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae ein rôl addysgu a hyfforddi yn ein rhoi mewn sefyllfa ardderchog i gyfrannu at y gwaith o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r pum ffordd o weithio yn cyd-fynd â'n hamcanion ac yn rhan annatod o'n pwrpas craidd, a roedden nhw wedi'u hadlewyrchu yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22 hefyd.

Fel sefydliad, nid oes gennym gyfrifoldeb iechyd poblogaethau. Ond mae ein rôl allweddol yn cynllunio senarios a rhagfynegi'r gweithlu yn dylanwadu ar gomisiynu addysg a hyfforddiant yn y dyfodol, yn ogystal â chynlluniau i ehangu mynediad at yrfaoedd yn y GIG. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at atal problemau o ran amddifadedd cymdeithasol, tlodi, iechyd hirdymor a rhai economaidd-gymdeithasol.

Rydym yn chwarae rôl hanfodol yn datblygu ein staff presennol, yn ogystal â datblygu cyfleoedd deniadol a hygyrch i weithlu'r dyfodol drwy ehangu mynediad at bob math o swyddi ar draws pob oedran, cefndir a diddordeb, gan gyfrannu at welliant hirdymor ar draws ein cylch gwaith.

Mae pum ffordd o weithio'r Ddeddf yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd gynhwysol yr ydym yn cydweithio â'n holl randdeiliaid, gan gynnwys

grwpiau sydd ar ymylon ein cymdeithas ac yn cael eu tangynrychioli, ac yn y ffordd yr ydym yn cyflawni ein busnes, gan adlewyrchu ein diwylliant a'n gwerthoedd craidd. Mae ein cydnabyddiaeth o'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, y Siarter Afiechyd Marwol a'r Grŵp Cydweithredol dros Atal Trais yn dystiolaeth o hyn.

Cyd-destun cyfreithiol a pholisi i GIG Cymru

Yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae nifer o ysgogwyr polisi lefel uchel a deddfwriaethol yn sail i'n hamcanion a'n gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd i hyrwyddo llesiant y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu ofalwyr y mae angen cymorth arnynt, ac i roi mesurau ar waith sy'n cefnogi dull ataliol ac yn lleihau'r angen i uwchgyfeirio gofal.

Cymru Iachach
Mae Cymru Iachach – y cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol – yn cofleidio'r egwyddorion gofal iechyd darbodus ac yn amlinellu cynllun uchelgeisiol ar gyfer chwyldroi'r system gyfan, ac yn darparu cyd-destun hanfodol ar gyfer holl gynlluniau'r GIG o hyn ymlaen. Yn ogystal â'r Strategaeth Gweithlu y cyfeiriwyd ato uchod, mae'n herio AaGIC a sefydliadau eraill y GIG i ddatblygu cynlluniau a chamau gweithredu cynaliadwy i ddarparu gofal yn nes at y cartref, a hynny drwy gryfhau gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, a chanolbwyntio ar atal.

Deddf Lefelau Staff Nyrsio 2016
Mae'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio yn mynnu bod sefydliadau'n dangos eu bod yn darparu lefelau diogel o ofal nyrsio mewn wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt. Fodd bynnag, mae elfennau o'r ddeddf sy'n berthnasol i feysydd clinigol eraill.

Dyletswydd Ansawdd
Dylid nodi bod y ddyletswydd ansawdd yn dod i rym cyfreithiol ym mis Ebrill 2023 yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Bydd y gofynion cyfreithiol newydd hyn yn cael eu cofnodi drwy brosesau a fydd yn cael eu cyflwyno yn 2023/24. Yn y cyfamser, rydym yn rhagweld y bydd yn cael ei roi ar waith yn anstatudol yn ystod hydref 2022. Bydd y broses adrodd ar gyfer 2022/23 yn ddull hybrid a fydd yn caniatáu i ddangosyddion adrodd ansawdd gael eu profi ac i gysyniadau mesur a naratif gael eu datblygu fel rhan o'r cam gweithredu. Yn y cyfamser, mae gofynion adrodd ansawdd wedi'u gwreiddio yn adran perfformiad ac adran lywodraethu'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Crynodeb o'r perfformiad

Cafodd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22 ei ddatblygu i gyflawni chwe Nod Strategol y sefydliad ac mae manylion rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf isod.

Cafodd ein Nodau Strategol eu profi ar bartneriaid drwy gydol ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid, a'u cysoni â'r swyddogaethau a nodir yn y ddeddfwriaeth. Dyma chwe Nod Strategol AaGIC ar gyfer 2021-22:

1	Arwain y broses o gynllunio a datblygu gweithlu cymwys, cynaliadwy a hyblyg, a sicrhau ei lesiant, er mwyn helpu i gyflawni 'Cymru Iachach'
2	Gwella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant i'r holl staff gofal iechyd gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y dyfodol
3	Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar newid diwylliannol yn GIG Cymru drwy ddatblygu capasiti arwain tosturiol a chydweithredol
4	Datblygu'r gweithlu i gefnogi'r gwaith o ddarparu diogelwch ac ansawdd
5	Bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio ynddo
6	Cael ei gydnabod fel partner, dylanwadwr ac arweinydd rhagorol

Canlyniadau perfformiad ac uchafbwyntiau 2020-21

Roeddem wedi llwyddo i gyflawni'r rhan fwyaf o'r prosiectau (66%) a'r ymrwymiadau yn y Cynlluniau Blynyddol. Aseswyd mai un amcan oedd heb ei gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn a disgwylir iddo gael ei gwblhau y flwyddyn nesaf.

Amlinellir rhai o'r prif uchafbwyntiau isod. Yn dilyn proses gaffael helaeth, dyfarnodd AaGIC werth dros £1bn o gontractau addysg gofal iechyd proffesiynol i Sefydliadau Addysg Uwch i'w darparu dros y deng mlynedd nesaf. Mae'r contractau ar gyfer darparu addysg cyn-cofrestru broffesiynol ym maes gofal iechyd modern i ddiwallu anghenion gwasanaethau a chleifion y GIG yng Nghymru yn y dyfodol. Bu AaGIC yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ac yn ymchwilio i arferion gorau rhyngwladol gan arwain at gynnwys nifer o themâu allweddol ym manylebau'r contract. Mae'r rhain yn cynnwys agwedd fwy lleol at addysg broffesiynol ym maes gofal iechyd drwy ddarparu mwy o addysg yn agosach at ardaloedd byrddau iechyd ac mewn rhai disgyblaethau cynnig rhaglenni addysg rhan-amser Roedd ymgorffori technolegau i wella addysgu, cymorth i fyfyrwyr a pharatoi lleoliadau hefyd yn cael ei gynnwys fel thema allweddol ynghyd â phwyslais ar recriwtio myfyrwyr o ardaloedd difreintiedig. Mae pwysigrwydd y Gymraeg hefyd wedi'i adlewyrchu yn y contractau sy'n galluogi myfyrwyr i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Roedd cynnydd da wedi parhau yn ystod 2021-22 ar draws 32 cam gweithredu'r strategaeth gweithlu deng mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020. Mae lles y gweithlu, ansawdd, cynhwysiant a'r Gymraeg oll wrth wraidd uchelgais y strategaethau i gael 'gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sy'n frwdfrydig, yn ymgysylltu ac yn werthfawr, a chanddo'r gallu, yr hyder a'r cymhwysedd i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Amlinellir dwy enghraifft o gynnydd isod:

- Rydym wedi dechrau gweithio i greu gweithlu sy'n barod ar gyfer y byd digidol. Mae AaGIC yn cynyddu sgiliau digidol ein gweithlu, gan eu galluogi i weithio a dysgu gan ddefnyddio technoleg briodol. Gyda phartneriaid, rydym wedi cynyddu argaeledd a chatalog datrysiadau dysgu rhithiol, gan gynnwys e-ddysgu, efelychiadau ac ystafell ddosbarth rithiol. Ar ben hynny, rydym wedi meithrin ac yn parhau i feithrin perthnasoedd â phartneriaid allweddol, gan gynnwys TEC Cymru, Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a Chymunedau Digidol

Cymru, a pharhau â'n perthynas waith agos ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

- Er mwyn cefnogi denu a recriwtio, fe wnaethom lansio Tregyrfa. Pentref rhithiol wedi'i greu ar-lein i alluogi defnyddwyr i archwilio gwahanol yrfaoedd ym maes iechyd a gofal a lansiwyd ym mis Tachwedd. Ar hyn o bryd mae'r llwyfan dwyieithog yn targedu dysgwyr a phobl ifanc 14 i 16 oed, ond bydd yn ehangu i apelio at bob oed wrth iddo ddatblygu. Gall ymwelwyr â Thregyrfa lywio drwy'r pentref rhithiol a mynd i wahanol adeiladau. Yn y rhain, maen nhw'n gallu cael gwybodaeth am wahanol rolau iechyd a gofal, cael gafael ar adnoddau, gwylio fideos a darllen blogiau i gael syniad o sut beth yw gweithio yn y GIG a gwasanaethau iechyd a gofal ehangach yng Nghymru. Mae'r llwyfan rhad ac am ddim ar gael i ddysgwyr, athrawon, rhieni neu warcheidwaid, a chynghorwyr gyrfa. Lansiwyd Tregyrfa yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd. Roedd safle Cymraeg Tregyrfa yn cyfrif am 27.7% o gyfanswm y nifer a oedd wedi ymweld â'r ddwy safle yn ystod yr wythnos gyntaf.

Er bod rhai digwyddiadau arweinyddiaeth ac olyniaeth mewnol wedi cael eu gohirio er mwyn adlewyrchu'r pwysau ar wasanaethau roedd sefydliadau'n eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig, cafodd yr holl amcanion a'r elfennau allweddol i'w cyflawni eu datblygu gan dîm Arweinyddiaeth a Dilyniant AaGIC yn ystod 2021/22. Mae rhai o'r uchafbwyntiau'n cael eu crynhoi isod:

- Cafodd fframwaith llywodraethu strategol ei greu i oruchwylio a chyfarwyddo'r rhaglen waith Talent ac Olyniaeth. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Bwrdd Rheoli Talent cenedlaethol wedi'i gadeirio i ddechrau gan Dr Andrew Goodall, (sydd bellach yn cael ei gadeirio gan Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru) ac mae'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a Chadeiryddion GIG Cymru. Mae'r Bwrdd hwn yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Gweithredol Talent ac Olyniaeth sy'n cynnwys arweinwyr gweithredol ac uwch sy'n cynrychioli ystod eang o broffesiynau. Mae'r Bwrdd Talent wedi blaenoriaethu nifer o ffrydiau gwaith i'w datblygu gan gynnwys gwella cynhwysiant ac amrywiaeth ar draws rolau arweinyddiaeth uwch, sefydlu piblinellau talent lle nad oes gan rolau unrhyw gynlluniau olyniaeth, neu rai cyfyngedig, gan ymgorffori systemau rheoli talent digidol sy'n golygu bod modd gweld talent ar draws GIG Cymru, ac adolygu a diweddaru Strategaeth Olyniaeth 2017 i gryfhau'r broses o gaffael a defnyddio Darpar Weithredwyr sy'n 'barod nawr' o'n cronfeydd talent cenedlaethol.
- Cafodd Fframwaith Rheoli Talent ei sefydlu a'i gyflwyno'n llwyddiannus, gan ganolbwyntio ar swyddogaethau 'canfod, cefnogi a defnyddio' darpar weithredwyr. Sefydlwyd cronfa dalent fywiog o tua 130 o ddarpar arweinwyr gweithredol. Cafodd llawer ohonynt gefnogaeth i ddatblygu a chaffael rolau newydd drwy gyfleoedd a oedd yn cynnwys mentora gweithredol, rhaglen datblygu arweinyddiaeth weithredol uchelgeisiol a ddyluniwyd ar y cyd â The Kings Fund, ac amrywiaeth o ddosbarthiadau meistr wedi'u targedu a gweminarau. Mae'r Proffil Llwyddiant Gweithredol a lansiwyd yn 2021 yn sail i'r fframwaith hwn, a bydd yn hollbwysig i ddyluniad y Canolfannau Datblygu Gweithredol Arfaethedig, sy'n elfen allweddol o'r broses o adnabod talent gweithredol sydd newydd gael ei sefydlu. Mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer 2022, gyda'r nod o greu cronfa dalent 'parod nawr' a chronfa dalent 'potensial uchel'.
- Mae defnyddio porth arweinyddiaeth ddigidol Gwella AaGIC, sy'n darparu adnoddau a deunyddiau digidol dwyieithog ar Arweinyddiaeth Dosturiol, wedi parhau i dyfu gyda sefydliadau GIG Cymru a llawer o brifysgolion sy'n defnyddio Gwella i gefnogi datblygiad arweinyddiaeth. Mae tudalen Gwella wedi cael ei hymweld 411,000 gwaith, mae ganddynt tua 3,000 o ddefnyddwyr cofrestredig, ac oddeutu 180 o rwydweithiau arweinyddiaeth gweithredol, cymunedau ymarfer a chyn-ddefnyddwyr. Lansiwyd 'Gwella on Air' y llynedd, sef cyfres o bodlediadau arweinyddiaeth dosturiol, ac mae sawl podlediad arweinyddiaeth dosturiol ar gael ar hyn o bryd a mwy wedi'u trefnu ar gyfer chwarter cyntaf 2022/23.
- Mae Graddedigion GIG Cymru sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen i Raddedigion wedi cyrraedd diwedd eu lleoliadau cyntaf. Mae pob un wedi cwblhau tri

modiwl o'u gradd Meistr 2 flynedd yn llwyddiannus ac maent wedi cael eu canmol gan Brifysgol De Cymru, a ddywedodd fod 'y garfan bresennol o hyfforddeion rheoli graddedigion yn glod i'r Rhaglen i Raddedigion ac i GIG Cymru'. Roedd methodoleg debyg yn sail i Raglen Lleoliadau Gwaith gyntaf AaGIC a lansiwyd yn ystod haf 2021. Cafodd y rhaglen ei chyd-ddylunio gyda myfyrwyr a gafodd eu gwahodd wedyn i gymryd rhan yn Rhaglen Lleoliadau Gwaith Haf AaGIC i brofi a gwerthuso'r cynnig. Yn sgil llwyddiant yr Interniaeth hon, roedd AaGIC wedi cynnig interniaeth flwyddyn o hyd i un o'r cyfranogwyr a chymorth gan y Tîm Gweithredol i Raglen Lleoliadau Gwaith Haf 2022.

- Enillodd Tîm Arweinyddiaeth ac Olyniaeth AaGIC y Wobr Aur yn Nhîm Technolegau Dysgu cenedlaethol y Flwyddyn 2021, gyda'r beirniaid yn dweud ei fod yn "dîm teilwng a lwyddodd i greu a darparu llawer iawn o gynnwys defnyddiol iawn yn rhai o'r cyfnodau anoddaf yn sgil Covid-19. Cafodd integreiddiad technoleg gwych ei ddarparu dros gyfnod byr o amser ac roedd yn adnodd gwerthfawr".

Mae AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol gyda'r bwriad o ddatblygu gweledigaeth ar gyfer gweithlu amlddisgyblaethol cryf a chynaliadwy sy'n cynnig gofal tosturiol i bobl yng Nghymru. Bydd y weledigaeth yn cefnogi Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22 Llywodraeth Cymru a datblygiadau sector yn y dyfodol. Ar 1 Chwefror 2022 lansiodd AaGIC a Gofal Cymdeithasol broses ymgynghori wyth wythnos ar y cynllun drafft a chafodd dros 200 o ymatebion. Mae'r cynllun drafft yn cael ei adolygu a'i fireinio ar hyn o bryd i ystyried yr adborth o'r broses ymgynghori. Y nod yw cyhoeddi fersiwn terfynol y cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol ym mis Mehefin 2022.

Mae meysydd ffocws y cynllun drafft yn cynnwys gwella recriwtio drwy ddarparu cyfleoedd gyrfa deniadol ac arloesol, cadw staff drwy alluogi mynediad at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, ac ehangu mynediad drwy lwybrau gyrfa anhraddodiadol fel prentisiaethau.

Cafodd ail Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol AaGIC 2020/21 ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth ar gyfer cael ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gan y sefydliad hyd yn hyn o ran cyflawni ei ymrwymiad i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys ein Deoniaeth Feddygol yn arwain y ffordd ar ddatblygu strategaethau i liniaru effaith cyrhaeddiad gwahaniaethol, gan sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i wreiddio yn y ffordd rydym yn comisiynu ein gwasanaethau a rheoli Grŵp Meddygon Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Cymru mewn partneriaeth ag Alltudion ar Waith. Cyflwynodd Cymdeithas Prydain ar gyfer Meddygon o Dras Indiaidd wobr i'n Cyfarwyddwr Meddygol, yr Athro Pushpinder Mangat, am ei wasanaethau i addysg a hyfforddiant meddygol a hybu achos hyfforddeion tramor.

Cafodd Cynllun Addysg a Hyfforddiant cenedlaethol AaGIC ar gyfer 2022/23 ei gymeradwyo gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2021. Mae'r cynllun yn fuddsoddiad o dros £260m, sy'n arwain at ragor o gynnydd a mwy o fuddsoddiad nag erioed o'r blaen mewn hyfforddiant proffesiynol ym maes gofal iechyd yng Nghymru. Bydd hyn yn rhan hanfodol o'r biblinell hyfforddiant a gweithlu yng Nghymru. Roedd ein hargymhellion yn y cynllun yn seiliedig ar gynlluniau byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, gwybodaeth ehangach am y gweithlu, heriau a blaenoriaethau'r gwasanaeth cenedlaethol, anghenion proffesiynau a galwedigaethau unigol, a chapasiti o fewn y system i gefnogi myfyrwyr a hyfforddeion. Bydd buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant yn dod â budd gwerthfawr mewn cyfnod byr o amser ar ôl graddio. Mae'r cynllun yn cynnwys y buddsoddiad mwyaf a bydd hefyd yn cynyddu nifer y lleoedd hyfforddi 15%, gan gynnwys yn y meysydd canlynol: Nyrsio a Parafeddygaeth, Gofal Acíwt, Anestheteg a Gofal Dwys, Gofal Canser ac Iechyd Meddwl. Mae copi o'r cynllun ar gael ar ein gwefan.

Cafodd fframwaith newydd ar gyfer nyrsys sy'n gweithio mewn fframwaith meddygon teulu ei lansio gan AaGIC i ddarparu cysondeb, strwythur, arweiniad a chyfarwyddyd i nyrsys practis cyffredinol cofrestredig a'u cyflogwyr. Mae'r fframwaith yn rhoi cyngor am rolau, sgiliau a chymwyseddau sy'n galluogi'r safonau uchaf o ymarfer nyrsio ar bob lefel o gymysgedd sgiliau mewn tîm ymarfer

cyffredinol. Mae hefyd yn ceisio arwain a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a recriwtio nyrsys cofrestredig sy'n gweithio ym maes ymarfer cyffredinol a gofal sylfaenol yng Nghymru. Cafodd y fframwaith ei ddatblygu drwy gydweithrediad ar draws holl Fyrddau Iechyd GIG Cymru, drwy grŵp proffesiynol Cymru gyfan o Nyrsys Arweiniol Gofal Sylfaenol, gan ddefnyddio canllawiau lleol a fframweithiau a safonau presennol.

Mae rhagor o fanylion am ein perfformiad wrth weithredu ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22 drwy'r chwe nod strategol yn yr adran dadansoddi perfformiad yn ein hadroddiad perfformiad diwedd blwyddyn (Perfformiad Ch4) 2021-22, sydd ar gael ym mhapurau Bwrdd mis Mai yma: https://aagic.gig.cymru/amdanom-ni/cyfarfodydd-bwrdd-agendau-a-rheolau-sefydlog/.

Perfformiad yn erbyn fframwaith cyflawni GIG Cymru 2021/22 a'r chwe maes.

Fel y nodwyd uchod, rydym yn sefydliad unigryw'r GIG yng Nghymru ac ychydig iawn o fesurau fframwaith cyflawni GIG Cymru sy'n berthnasol i ni. Mae'r rhai sydd yn berthnasol i'w gweld isod.

GOFAL DIOGEL:

Mesur cyflawni 10

Canran y gydymffurfiaeth ar gyfer staff a benodir i rolau newydd lle mae angen gwirio rhestrau gwaharddiadau plant.

Canlyniad: nid oedd gennym unrhyw swyddi lle roedd hyn yn ofyniad.

Mesur cyflawni 11

Canran y gydymffurfiaeth ar gyfer staff a benodir i rolau newydd lle mae angen gwirio rhestrau gwaharddiadau oedolion.

Canlyniad: nid oedd gennym unrhyw swyddi lle roedd hyn yn ofyniad.

GOFAL EFFEITHIOL:

Mesur cyflawni 29

Canran cydymffurfiad elfen hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth lefel 1 (Cymru) y fframwaith sgiliau a hyfforddiant craidd

Targed – 85%

Canlyniad:
**AaGIC – yr holl staff: 71.1%
GIG Cymru: 72.7% (Rhag 21)

EIN STAFF A'N HADNODDAU

Mesur cyflawni 52

Canran y staff yn ôl sefydliad sydd wedi cael arfarniad PADR/meddygol yn ystod y 12 mis blaenorol (ac eithrio meddygon a deintyddion dan hyfforddiant)

Targed – 85% ESR a'r system arfarnu ac ailddilysu meddygol (MARS).

Canlyniad:
**AaGIC – yr holl staff: 53.3%
*AaGIC – staff craidd: 70.1%
GIG Cymru: 59.7% (Ion-Rhag 21)

Mesur cyflawni 51

Sgôr ymgysylltu cyffredinol staff – dull sgôr graddfa.

Targed – Gwelliant

Canlyniad:
**Arolwg Staff y GIG AaGIC 2020: 81%
Arolwg lleol AaGIC: 79% (HNA)
Arolwg Staff GIG Cymru: 75%

Mesur cyflawni 53

Canran y gydymffurfiaeth ar gyfer yr holl gymwyseddau lefel un a gwblhawyd o fewn y fframwaith sgiliau a hyfforddiant craidd fesul sefydliad.

Targed 85%

Canlyniad:
**Holl Staff AaGIC 66.7%
*Staff Craidd AaGIC 85%
GIG Cymru: 80.1% (Ion-Rhag 21)

Mesur cyflawni 55

Canran cyfradd absenoldeb oherwydd salwch staff (12 mis treigl)

Canlyniad:
**AaGIC: 2.28%.
GIG Cymru: 6.5% (Ion-Rhag 21)

* Staff craidd AaGIC = Staff sy'n gweithio mwy na 0.3 FTE

** Holl staff AaGIC = staff craidd + staff sy'n gweithio 0.3 FTE neu lai


Mae'r holl ddata sy'n ymwneud ag AaGIC (ac eithrio lle mae'n ymwneud â'r Arolwg Staff) yn seiliedig ar fanylion mis Mawrth 22 neu lle mae'n seiliedig ar gyfnod treigl o 12 mis, mae'n ymwneud ag Ebrill 21 – Mawrth 22. Dyfynnir canlyniadau data'r Arolwg Staff ar gyfer 2020 gan mai dyma'r ffigurau diweddaraf.



Dadansoddiad Blynyddol o Berfformiad

Fframwaith Perfformiad

Mae trefniadau cynllunio, perfformiad a rheoli rhaglenni cadarn ar waith i alluogi AaGIC i gyflawni ein Nodau Strategol ac i fesur ein cynnydd a'r ffordd rydym yn cyflawni ein gweithgareddau busnes fel y dangosir isod:



Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, y chwe Nod Strategol a'r amcanion strategol a nodwyd yn ganolog i arferion cynllunio, perfformiad a rheoli rhaglenni, pob un yn chwarae ei ran i roi sicrwydd i'n Bwrdd ynghylch ein gallu i gyflawni fel sefydliad.

Yn ystod 2021-22 rydym wedi parhau i adeiladu ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yma i wella ein dull cynllunio a'n harferion yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys ein cynllunio strategol, gweithredol a busnes. Rydym wedi datblygu dulliau o gefnogi timau i greu cynlluniau cyflawni adrannol yn ogystal ag achosion busnes mewnol a strategol, gan sicrhau bod achosion cryf yn cael eu datblygu sy'n nodi'n glir y gwerth a'r manteision y bydd y buddsoddiad yn eu cyflawni. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gadarnhau yn 2022 drwy sefydlu model partneriaethau busnes cynllunio.

Yn ystod 2021, fe wnaethom ddatblygu ein dull systematig o reoli rhaglenni drwy ein Fframwaith Rheoli Prosiectau, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021.

Ym mis Ionawr 2020, cymeradwyodd y Bwrdd ein Fframwaith Perfformiad sy'n disgrifio system y sefydliad ar gyfer gwneud gwelliannau parhaus er mwyn cyflawni ein Nodau a'n Hamcanion Strategol, ac er mwyn cyflawni ein gweithgareddau 'Busnes Fel Arfer' yn effeithiol. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant tosturiol ac ar y cyd sy'n seiliedig ar reoli perfformiad yn effeithiol a ffocws ar wella. O ystyried natur benodol ein rôl fel sefydliad strategol a'r gofynion sydd arnom ni gan reoleiddwyr y DU, rydym yn cymryd agwedd gymesur ac, i raddau helaeth, rydym yn mesur ac yn monitro set wahanol o ddangosyddion perfformiad i weddill GIG Cymru. Mae ein cylch adrodd hefyd yn wahanol, gyda mwy o ffocws ar gylchoedd academaidd, amserlenni blynyddol a chwarterol yn hytrach na churo dyddiol, wythnosol a misol sefydliadau eraill y GIG. Rydym yn rhoi'r gwaith paratoi ar waith i sicrhau bod ein dangosfwrdd perfformiad a'n hadroddiad perfformiad integredig yn adlewyrchu Mesurau Blaenoriaeth y Gweinidog.

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i wreiddio ein proses adolygu gwasanaeth lle mae'r Tîm Gweithredol yn cynnal cyfarfodydd adolygu gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn gydag uwch arweinwyr a'u timau i adolygu cynnydd prosiectau neu raglenni gwaith allweddol. Yn 2022, bydd ein trefniadau monitro perfformiad yn elwa o'r adroddiadau safonol yn ein system

cynllunio digidol. Ar ben hynny, bydd ein dull gweithredu yn cyd-fynd â chyfarfodydd y Tîm Gweithredol ddwywaith y flwyddyn a'r cyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni gyda Llywodraeth Cymru.

Effaith COVID-19

Fel partner gweithredol yn yr ymateb i COVID-19, ein blaenoriaeth yn 2021/22 oedd cefnogi'r GIG a'r system gofal ehangach, ond hefyd cefnogi ein hyfforddeion a'n myfyrwyr i barhau â'u haddysg, cyflymu ein gwaith i gefnogi llesiant a chynnal ein parhad busnes ein hunain.

Roeddem wedi cefnogi'r cynllun Adfer ac Ymateb i'r System, gan adnewyddu ein gwaith blaenorol i gefnogi'r egwyddor ddarbodus o ran ymarfer, gan gynnwys cymarebau staffio, cymysgedd sgiliau a chanllawiau dirprwyo. Mae enghreifftiau o hyn i'w gweld yn ein gwaith ar heintiau, atal a rheoli a phrotocolau heb eu rheoleiddio ar frechu. Roeddem wedi parhau â'r pecyn cymorth cartrefi gofal, gan gynnwys hwyluswyr addysg, ac wedi datblygu compendiwm o offer integredig ar gyfer y gweithlu ac astudiaethau achos. Yn ystod y don Omicron, fe wnaethom hefyd annog ein staff i wirfoddoli i gefnogi'r ymateb, gan gynnwys y rhaglen frechu.

Cefnogi'r System	**Diogelu Addysg a Hyfforddiant**
Llesiant	**Parhad Busnes AaGIC**


O ddechrau'r don gyntaf, fe wnaethom symud yn gyflym i DPP, recriwtio, hyfforddi, datblygu a rheoli ansawdd dros y we. Mae ein harweinyddiaeth a'n dylanwad o ran diogelu Addysg a Hyfforddiant wedi cael ei gydnabod ar lefel y DU gyfan. Er bod tystiolaeth o darfu parhaus ar rai hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth, mae hyn yn llai nag yn 2020/21, ac nid oes risgiau COVID-19 wedi'u hadrodd yn ystod y flwyddyn academaidd hon gydag Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol eraill.

Roeddem wedi cyflymu ein rhaglen arweinyddiaeth ac ymateb i lesiant drwy'r pandemig. Roeddem wedi rhoi fframwaith iechyd a lles ar waith i gefnogi llesiant corfforol a meddyliol ac wedi cyflymu ein gwaith i wreiddio arweinyddiaeth dosturiol ac ar y cyd. Fe wnaethom fuddsoddi yn ein Huned Cymorth Proffesiynol i sicrhau cefnogaeth ar gyfer lles myfyrwyr a hyfforddeion unigol, gan gynnwys buddsoddi mewn therapïau seicolegol.

Mae gennym Gynllun Parhad Busnes sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn unol â'n dull gweithredu ar gyfer Parhad Busnes AaGIC, a chafodd y trefniadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu ar ôl cyfnod cyntaf y pandemig. Fe wnaethom gynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd yn ystod haf 2021 i baratoi ar gyfer y gaeaf anodd a oedd o'n blaenau. Yn ystod ton Omicron fe wnaethom ailysgogi ein Tîm Rheoli Argyfwng dros dro, ac rydym yn falch mai ychydig iawn o absenoldebau COVID-19 rydym wedi'u gweld ymysg ein staff ein hunain.

Datblygu ein Cynllun Tymor Canolig Integredig

Mae'r Bwrdd wedi adnewyddu ein Fframwaith Strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf drwy bwyso a mesur ein gweledigaeth, ein pwrpas a'r cyd-destun strategol. Cytunodd y Bwrdd fod ein 6 Nod Strategol yn dal yn addas i'r diben, a'u bod yn ffurfio Fframwaith Strategol ein Cynllun fel y dangosir yn y diagram isod.



Eleni, rydym yn falch ein bod wedi gallu cael sgyrsiau â holl sefydliadau'r GIG am ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 sy'n cael ei ddatblygu. Drwy sefydlu ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, rydym hefyd wedi ymgysylltu â dros 40 o sefydliadau gwahanol ynghylch ein Cynllun Tymor Canolig Integredig drafft, yn ogystal â sesiwn benodol i drafod ein cynlluniau ag Arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd wedi trafod datblygiad ein cynlluniau yn rheolaidd gyda staff cynllunio Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd, meithrin perthnasoedd a rhannu gwybodaeth am risgiau allweddol ac wedi ymgorffori'r adborth yn ein Cynllun fel rhan o'r broses hon. Rydym wedi ymgynghori â'n staff ar ddatblygu'r Cynllun drwy ymgysylltu parhaus yng nghyfarfodydd misol ein Huwch Dîm Arwain a'n Fforwm Partneriaeth Lleol. Rydym hefyd wedi trafod ein Cynllun gyda'n holl staff drwy ein mecanweithiau ymgysylltu ehangach.

Fel corff strategol, mae'n hanfodol ein bod yn canolbwyntio ar gynllunio yn y tymor hwy yn ogystal ag atebion tymor byr i gefnogi'r pwysau presennol ac ailosod ar ôl COVID. Mae hyn wedi bod yn heriol dros y ddwy flynedd diwethaf ond, yn y cynllun hwn, ein nod yw cydbwyso'r camau gweithredu cynaliadwy tymor byr a'r tymor canolig. Bydd y rhain yn cefnogi gweithredu'r Strategaeth Gweithlu sy'n rhan mor bwysig o'n cyd-destun strategol, yn ogystal â darparu hyblygrwydd i ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg o'r rhaglen adfer.

Mae ein cynllun yn adlewyrchu natur aml-ddimensiwn ein gwaith – gan gynnwys amcanion sy'n benodol i broffesiwn, amcanion aml-broffesiynol ac amcanion sy'n berthnasol i raglenni cenedlaethol. Rydym yn gwerthfawrogi ein hymgais strategol a byddwn yn ymateb yn ôl yr angen i faterion sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys adolygu ein cynlluniau yn dilyn adroddiad diweddar Ockenden ar wasanaethau mamolaeth, a datblygu gofal integredig. Mae ein proses gynllunio a'n trefniadau rheoli perfformiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod y rhain wedi'u cysylltu'n glir a bod rhanddeiliaid yn gallu gweld ein gwaith drwy'r lensys gwahanol hyn.

Mae elfen fawr o'n cynllun eisoes wedi'i chytuno ar ffurf y cynllun comisiynu addysg a hyfforddiant. Caiff hwn ei gynhyrchu'n flynyddol, wedi'i gysylltu â chylchoedd academaidd. Mae hon yn sylfaen hollbwysig ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae'n mynnu ein bod yn deall ein proffiliau ariannol o leiaf dros gyfnod o 5 mlynedd o ystyried hyd y rhaglenni rydym yn eu comisiynu.

Cyflawni ein Cynllun Blynyddol

Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22, fe wnaethom gytuno i ddatblygu 46 o Amcanion Strategol (59 gan gynnwys is amcanion o dan Nod Strategol 4) ar draws ein 6 Nod Strategol. Yn ogystal â chyflawni ein hamcanion strategol a'n gweithgareddau busnes fel arfer, gwnaethom gefnogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid y GIG mewn ymateb i COVID-19 drwy ailosod ac adfer. Mae'r graffiau isod yn crynhoi ein perfformiad yn 2021/22, gan ddangos bod 66% o'n hamcanion strategol wedi cwblhau eu cerrig milltir yn llwyddiannus.

Mae ein perfformiad ar gyfer 2021/22 yn erbyn ein hamcanion strategol a'n gweithgareddau busnes fel arfer yn cael ei grynhoi yn ôl nod strategol yn y tabl isod.

Trosolwg O Berfformiad 2021/22 Yn Ôl Amcan Strategol

Nod Strategol 1: Arwain y broses o gynllunio a datblygu gweithlu cymwys, cynaliadwy a hyblyg, a sicrhau ei lesiant, er mwyn helpu i gyflawni 'Cymru Iachach'

- Yn ystod 2021/22, gwnaethom gynyddu'r gwaith o ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus amlbroffesiwn a sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus rhithiol yn cael ei ddarparu'n gyflym fel rhan o'n hymateb i Covid.
- Mae caffael un system darparu addysg, Y Tŷ Dysgu, wedi bod yn ddarn sylweddol o waith i'r sefydliad dros y saith mis diwethaf. Er gwaethaf rhai anfanteision mewn prosesau caffael, llwyddwyd i sicrhau cymeradwyaeth y Bwrdd i fwrw ymlaen â'r gwaith o gaffael y system newydd erbyn diwedd mis Mawrth.
- Gwnaethom ddatblygu a gwerthuso offer, adnoddau a mynediad at gymorth a gyfrannodd at wella lles ac ymgysylltiad ein gweithlu gofal iechyd yn gyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys Fframwaith Iechyd a Lles cyntaf GIG Cymru.
- Fe wnaethom lansio'r rhwydwaith gyrfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd ym mis Gorffennaf 2021. Mae hwn yn rhwydwaith dwyieithog, sy'n cynnwys partneriaid o faes iechyd a gofal cymdeithasol, a phartneriaid ehangach gan gynnwys addysg, yr Adran Pensiynau Gwaith a Gyrfa Cymru a bydd yn hollbwysig wrth i ni weithio i ddatblygu gwasanaeth gwybodaeth gyrfaoedd cenedlaethol ym maes Iechyd a Gofal. Lansiwyd Tregyrfa yn ffurfiol ar 20 Hydref 2021 gyda digwyddiad hynod lwyddiannus wedi'i anelu at ysgolion. Erbyn diwedd Mawrth 22, cafwyd 16,257 o ymweliadau â'r dudalen a 41,165 o ddigwyddiadau unigol (gall y rhain fod yn unrhyw beth fel darllen blog neu lwytho ffeil i lawr).
- Mae rhagor o waith wedi cael ei wneud i archwilio'r llwybrau rhan-amser presennol i gofrestru ar draws nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gyda ffocws allweddol ar y gallu i ddilyn y llwybrau hyn tra'n parhau i gael eu cyflogi mewn gwasanaethau gofal iechyd.
- Gwnaethom wella ansawdd data a modelu'r gweithlu ar gyfer GIG Cymru drwy sefydlu set ddata sylfaenol ar gyfer proffilio a modelu'r gweithlu. Cafodd ei chynhyrchu i gefnogi'r Cynllun Gweithlu Strategol Iechyd Meddwl ac i gefnogi'r Cynllun Gweithlu Strategol Nyrsio.
- Yn ystod 2021-22 rydym wedi datblygu ac wedi darparu amrywiaeth eang o adnoddau cynllunio gweithlu, gyda llawer wedi'u haddasu ar gyfer darpariaeth ddigidol ac maent ar gael ar wefan AaGIC. Mae hyn yn cynnwys pecynnau cymorth cynllunio gweithlu ar gyfer gofal eilaidd a gofal sylfaenol a matrics gallu cynllunio'r gweithlu. Mae'r cyntaf mewn cyfres o Ddosbarthiadau Meistr ar y we ar gynllunio'r gweithlu wedi cael ei gynnal ar Arweinyddiaeth Dosturiol wrth Gynllunio'r Gweithlu gyda dros 120 yn bresennol ar draws GIG Cymru.
- Fe wnaethom lansio Fferyllfa lwyddiannus iawn gan ddefnyddio hysbysebion digidol wedi'u targedu a chyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo manteision dod i Gymru i ymgymryd â'n Rhaglen Fferylliaeth dan Hyfforddiant, gan arwain at y gyfradd llenwi uchaf yn y DU ar gyfer derbyniadau 2022/23.

Nod Strategol 2: Gwella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant i'r holl staff gofal iechyd gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y dyfodol

- Cafodd Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2022-23 ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a sicrhawyd cyllid.
- Fe wnaethom gwblhau'r ymarfer caffael gwerth miliynau o bunnoedd ar gyfer cam 1 yr Adolygiad Strategol. Bydd y contractau newydd yn arwain at dros 30,000 o raddedigion o 2025. Byddant yn ymgorffori Arweinyddiaeth Dosturiol, Llythrennedd Digidol a gwell dealltwriaeth o Ddiwylliant Cymru a sgyrsiau Cymraeg sylfaenol yng ngweithlu'r dyfodol cyn cofrestru. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Sefydliadau Addysg Uwch i gynyddu nifer y swyddi a ariennir ar draws prifysgolion Cymru ym mis Medi 2022.
- Yn ystod 2021/22, gwnaethom barhau i ganolbwyntio'n gryf ar reoli ansawdd addysg. Ar sail boddhad myfyrwyr, mae tri chwrs Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol wedi cael eu nodi ar ddiwedd 2021/22 fel rhai sydd angen gwella'r trefniadau craffu ar berfformiad. Ar ddiwedd 2021/22 roedd chwe maes o dan drefniadau monitro gwell ar gyfer hyfforddiant meddygol. Roedd yr Uned Cymorth Proffesiynol yn cefnogi 449 o hyfforddeion, cynnydd o 33% o'i gymharu â'r un pwynt yn y flwyddyn flaenorol. Hefyd, roedd 31% (138 o hyfforddeion) yn cael cymorth seicolegol ychwanegol.
- Roeddem wedi gwreiddio ein pecyn cymorth cartrefi gofal ymhellach i sicrhau ansawdd a chapasiti lleoliadau clinigol ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno'r Hwyluswyr Addysg cyntaf mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru.
- Cafodd ymarfer cwmpasu Tîm Aml-ddisgyblaethol ei gwblhau sy'n seiliedig ar sut bydd AaGIC yn darparu addysg a hyfforddiant yn y dyfodol. Y nod yw manteisio i'r eithaf ar ein defnydd o dechnolegau digidol a pharhau i ddarparu addysgu wyneb yn wyneb lle mae'n bwysig cyflawni'r canlyniadau dysgu.
- Yn ystod 2021/22 cafwyd nifer o ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant fferylliaeth. Cyflwynwyd Achos Amlinellol Strategol ar gyfer Rhaglen IETP Fferylliaeth i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf. Sicrhawyd y darparwr ar gyfer y rhaglen sylfaen fferylliaeth ar ôl cofrestru ar gyfer carfan 2022/23 gyda mwy o 51 ar y garfan a dyma'r tro cyntaf i ni neilltuo 18 lle ar gyfer fferyllwyr cymunedol. Roedd cyfradd lenwi o 100% ar gyfer y rhaglen sylfaen aml-sector fferylliaeth ar gyfer mis Awst 2022 o'i chymharu â'r gyfradd lenwi gyfartalog o 55% ledled y DU.
- Fe wnaethon ni barhau i ymateb yn ystwyth i ddarparu hyfforddiant drwy gydol COVID-19. Gwnaethom sicrhau bod canllawiau ar ddarparu hyfforddiant a'r pandemig asesu wyneb yn wyneb yn ddiogel wedi cael eu diweddaru a'u defnyddio ar draws lleoliadau israddedig ac ôl-raddedig.

Nod Strategol 3: Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar newid diwylliannol yn GIG Cymru drwy feithrin gallu arwain tosturiol ac ar y cyd ar bob lefel

- Yn ystod 2021/22, gwnaethom lansio'r Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol yn llwyddiannus a'r llyfr arweinyddiaeth Dosturiol gyda'r Athro Michael West. Gwnaethom hefyd gwblhau'r rhaglen 'Arwain gyda thosturi', sef y rhaglen arweinyddiaeth weithredol uchelgeisiol a ddyluniwyd ar y cyd â gwasanaeth y GIG a 'melin drafod' arweinyddiaeth The Kings Fund.
- Rydym yn falch bod ein Tîm Arweinyddiaeth ac Olyniaeth wedi ennill Gwobr 'Tîm y Flwyddyn' UK Learning Technologies.
- Cafodd y Bwrdd Talent Cenedlaethol ei sefydlu i chwarae rhan allweddol yn nodi a chefnogi'r cyfleoedd arwain drwy brofiad ochr yn ochr â rhaglenni gweithredol.
- Cynhaliwyd y gynhadledd Genedlaethol Arweinyddiaeth Dosturiol ym mis Mawrth gan ddefnyddio Porth Arweinyddiaeth Gwella ac roedd nifer dda yn bresennol.
- Mae amrywiaeth o rwydweithiau arweinyddiaeth glinigol ar 'Gwella' wedi cael eu sefydlu. Cafodd y rhyngweithio canlynol ei gynnal yn 2021/22:
  – Rhwydwaith arweinyddiaeth AHP: (181 o aelodau a 925 o ymweliadau)
  – Rhwydwaith Gwyddor Gofal Iechyd Cymru (51 o aelodau a 709 o ymweliadau)
  – Rhwydwaith Dementia AHP Cymru (204 o aelodau a 764 o ymweliadau)
  – Rhwydwaith yr Uwch Nyrsys a Bydwragedd (49 o aelodau a 700 o ymweliadau)
  – Florence Nightingale Digital Scholars Network (14 o aelodau a 281 o ymweliadau)
  – Rhwydwaith Arweinwyr Fferylliaeth Gymunedol Clwstwr Gofal Sylfaenol (77 o aelodau a 3,007 o ymweliadau))
  – Rhwydwaith arweinwyr Optometreg Cymunedol Clwstwr Gofal Sylfaenol (35 o aelodau ac 865 o ymweliadau)
- Yn ystod 2021/22 fe wnaethom barhau i wella ein Porth Arweinyddiaeth 'Gwella'. Roedd hyn yn cynnwys datblygu nifer o lwybrau dysgu. Cafodd gwelliannau pellach eu cwblhau a oedd yn defnyddio'r casgliad o ddata demograffig a chydraddoldeb i alluogi mynediad at amrywiaeth o alluoedd adrodd y Dangosfwrdd Rheoli Talent. Mae ystod sylweddol o adnoddau dwyieithog wedi'u darparu ar 'Gwella' ac mae'r platfform wedi'i alinio â safonau hygyrchedd AA gyda gweithgareddau pellach wedi'u cynllunio i barhau i wella hygyrchedd ar draws gwahanol elfennau o'r safle.
- Rydym yn arwain y gwaith o ddatblygu adnoddau a rhaglenni arweinyddiaeth ar gyfer arweinwyr clinigol, gan gynnwys dylunio ac ymgynghori'r Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Uwch. Cafodd y broses o recriwtio Cymrawd Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru ar gyfer cam 1 ei chwblhau a bydd proses recriwtio cam 2, gan ymestyn y rhaglen i grwpiau proffesiynol eraill, yn cael ei chwblhau ym mis Mai 2022.
- Cafodd proses y cynllun hyfforddi cyntaf i Raddedigion ei chwblhau o gynnig i gynefino a lleoli yn sefydliadau GIG Cymru. Dechreuodd y grŵp ar eu Rhaglen Meistr ac mae amrywiaeth o ddosbarthiadau meistr a chyfleoedd dysgu wedi cael eu cynnal.

Nod Strategol 4: Datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i ddarparu lefelau gofal diogel o ansawdd uchel.

- Yn 2021/22, sefydlwyd y rhaglen Fframwaith Addysg a Hyfforddiant Aml-broffesiynol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol a symud ymlaen â'i rhaglen waith i weithredu seilwaith, safonau a modelau darparu addysg Gofal Sylfaenol. Cafodd y dull cynllunio'r gweithlu, ynghyd â'r offer a'r adnoddau, ei lansio'n ffurfiol. Mae'r hyfforddiant a'r adnoddau'n cyd-fynd â Phroses y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac yn gysylltiedig â mecanweithiau Datblygu Rheolwyr Ymarfer.
- Cwblhaodd Cynllun y Gweithlu Iechyd Meddwl ei gyfnod ymgynghori o chwe wythnos ar 28 Mawrth 22, gyda 300 a mwy o ymatebion gan fudiadau ac unigolion.
- Yn ystod 2021/22 gwnaethom gefnogi rhaglenni gwaith strategol Cydweithredol GIG Cymru. Mae'r gwaith cynllunio gweithlu a wnaed ar gyfer y rhaglen Ddelweddu wedi siapio ein methodoleg cynllunio gweithlu ac mae'n cael ei addasu fel adnodd pellach i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ar draws GIG Cymru.
- Rydym wedi llywio elfennau addysg a hyfforddiant y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol sydd wedi cynnwys datblygu rôl yr Ymarferydd Endosgopi Cynorthwyol a'r Rhaglen Hyfforddiant Endosgopi Clinigol newydd.
- Mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Gofal Critigol, rydym wedi datblygu casgliad o rolau gweithlu mewn Gofal Critigol, wedi cynnal digwyddiad cynllunio'r gweithlu ac wedi cydweithio ag Health Education England ar addysg gofal critigol gyda 74 o leoedd allan o'r garfan gychwynnol o 100 wedi'u llenwi.
- Yn ystod 2021/22 fe wnaethom arwain Grŵp Galluogi Cenedlaethol y Gweithlu o dan y Rhaglen Gofal Brys ac mewn Argyfwng a ddatblygodd nifer o adnoddau gan gynnwys Fframwaith Cymhwysedd Ymarferwyr Gofal Brys a model y gweithlu ar gyfer Ymarferwyr Parafeddygol Uwch.
- Rydym wedi cyflawni ein hymrwymiadau y cytunwyd arnynt yn y rhaglen gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a oedd yn cynnwys cynnal digwyddiadau ymgysylltu ar Adsefydlu ac Iechyd y Cyhoedd ac Atal a gynhaliwyd fel rhan o'r Gynhadledd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd genedlaethol.
- Rydym wedi darparu amrywiaeth o ymyriadau cefnogol i baratoi Byrddau Iechyd ar gyfer yr 2il Ddyletswydd a gadarnhawyd yn y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio sy'n ymestyn i wardiau cleifion mewnol Pediatrig.
- Gwnaethom sicrhau bod safonau rheoleiddio'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r gwaith o oruchwylio ac asesu myfyrwyr ledled Cymru drwy garfan gyntaf ein Hwyluswyr Addysg Ymarfer a oedd yn cefnogi'r gwaith o roi rhaglenni Nyrsys y Dyfodol ar waith ledled Cymru.
- Fe wnaethom adeiladu ar ein cymeradwyaethau llwyddiannus gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer nyrsio cyn cofrestru a sicrhau bod yr holl ddarparwyr rhaglenni Bydwreigiaeth yn cael eu hargymell yn llwyddiannus i'w cymeradwyo gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn 2021/22.

Nod Strategol 5: Bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio ynddo

- Gwnaethom lwyddo i roi ein interniaeth haf gyntaf ar waith gyda naw myfyriwr o Brifysgol Caerdydd a gafodd werthusiadau cadarnhaol gan gyfranogwyr a mentoriaid. Mae dros 50 o ymgeiswyr wedi gwneud cais am Interniaeth Haf AaGIC gan ddechrau yn 2022/23 a bydd y rhaglen yn cael ei hehangu ymhellach i adlewyrchu llwyddiant rhaglen y llynedd.
- Cafodd Strategaeth Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio 2021-24 AaGIC ei chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf.
- Roedd ein gwasanaethau Cymraeg yn adeiladu ar lwyddiant eu blynyddoedd blaenorol yn 2021/22 ac fe wnaethom gyfieithu 5.0m o eiriau o'i gymharu â 3.5m ar gyfer y flwyddyn flaenorol.
- Yn ystod 2021/22 mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud ar seiberddiogelwch, a ni oedd y cyntaf yn GIG Cymru i symud i dechnoleg Cwmwl ar raddfa fawr, gan roi'r sylfeini hanfodol ar waith i alluogi ein Strategaeth Ddigidol.
- Cawsom asesiad ffug arian cadarnhaol ar gyfer arian y Safon Iechyd Corfforaethol ac fe gwblhawyd pob argymhelliad. Roedd y strategaeth Iechyd a Lles yn ganolbwynt i'r sefydliad, gyda thrafodaethau Tîm Gweithredol yn ystod mis Mawrth. Cytunwyd ar ein statws cyflogwr Amser i Newid a bydd y cynllun gweithredu'n cael ei ymgorffori yng nghynllun gweithredu'r strategaeth Iechyd a Lles.
- Cymeradwyodd y Bwrdd ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a oedd yn nodi ein cyflawniadau ar gyfer 2020-21.
- Yn ogystal, gwnaethom gwblhau ein hadroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gyfer 2021 a oedd yn amlinellu cynlluniau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chefnogi cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle. Cyhoeddwyd y ddwy ddogfen ym mis Mawrth 2022 ar ein gwefan ac maent ar gael yma: Dogfennau allweddol - AaGIC (gig.cymru)
- Cymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Llywodraethu Ymchwil AaGIC sy'n amlinellu'r mecanweithiau ar gyfer goruchwylio gweithgareddau gwerthuso, ymchwil, gwella ac arloesi'r sefydliad a dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer allbwn academaidd.
- Rydym wedi cael statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd Lefel 2 a chafodd ein haelodaeth o Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ei hadnewyddu ochr yn ochr â chadw at addewidion achredu eraill.

Nod Strategol 6: Cael ein cydnabod fel partner, dylanwadwr ac arweinydd rhagorol

- Fel rhan o'n hymateb i COVID-19, gwnaethom ddangos gwaith partneriaeth rhagorol gyda Phrifysgolion a Byrddau Iechyd i sicrhau bod lleoliadau clinigol, cylchdroi a phrofiadau myfyrwyr yn cael eu cynnal.
- Mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru ac Y Lab (Prifysgol Caerdydd a Nesta), gwnaethom lwyddo i gwblhau'r prosiect Harp Seed Black Voices
- Roedd yn bleser gennym noddi'r Wobr WomenSpire am y tro cyntaf a gafodd ei hennill gan Dr Bnar Talabani am waith yn hyrwyddo brechiadau COVID-19 i gymunedau amrywiol.
- Gwnaethom gyfraniadau sylweddol at ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cyfarwyddwr Meddygol AaGIC yn eistedd ar Grŵp Cymru Gyfan
- Wrth i'r ymateb i Covid gynyddu, defnyddiwyd gwefan AaGIC i gyfeirio gwirfoddolwyr a dychwelwyr proffesiynol ledled Cymru i gefnogi brechu torfol, gyda dros 13,500 o ymweliadau ym mis Rhagfyr.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar raddfa fawr ar Gynllun y Gweithlu Iechyd Meddwl yn uniongyrchol i dros 2,000 o unigolion a sefydliadau. Fe wnaethom ei hyrwyddo drwy ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, gyda dros 75,000 o bobl yn gweld ein negeseuon a'n negeseuon ar Twitter.
- Yn ystod 2021/22, gwnaed gwaith sylweddol i hyrwyddo amrywiol gyfleoedd addysg a hyfforddiant, gan gynnwys rhaglen fferylliaeth sefydledig ôl-cofrestr a chwricwlwm cyffredinol meddygon iau.
- Mae nifer o sianeli cyfathrebu wedi cael eu defnyddio i farchnata AaGIC a Chymru fel llefydd gwych i weithio, gan dynnu sylw at gyfleoedd gwaith, codi ymwybyddiaeth o rolau proffesiynol amrywiol yn GIG Cymru a llwybrau gyrfa fel interniaethau.


Meysydd Her

Mae meysydd her allweddol AaGIC dros y flwyddyn yn cael eu hystyried yn adran Risgiau AaGIC ar dudalen 15 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cyflawni Mewn Partneriaeth

A ninnau'n sefydliad Cymru gyfan, gyda nifer o swyddogaethau strategol, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

HEIW and our partners



Yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, cafodd llawer o'n hadnoddau a'n gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu eu hail-ffocysu wrth ymateb i'r pandemig, gyda gweithgareddau craidd fel ein Sioeau Teithiol a digwyddiadau Cenedlaethol i Randdeiliaid yn dal i gael eu gohirio. Yn lle'r rhain, gwnaethom gynyddu ein gweithgarwch ar-lein cymaint ag y gallem, gan wreiddio ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu sydd wedi cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd i feithrin a chryfhau perthnasoedd, cefnogi'r ymateb i COVID-19 a helpu i siapio ein gwaith a'n gwasanaethau parhaus.

Roedd dulliau sefydliadol ar-lein yn cynnwys:

- Cefnogi ymateb i COVID-19 drwy rannu a hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd; annog myfyrwyr a hyfforddeion i gael eu brechiadau COVID-19 a'r ffliw, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr, hyfforddeion, addysgwyr a phartneriaid dysgu am newidiadau a datblygiadau addysg a hyfforddiant drwy e-bost, cylchlythyrau a'n tudalennau pwrpasol ar-lein a oedd yn cynnwys gwybodaeth am COVID-19.
- Ar ben hynny, roedd ein gwefan yn cynnwys tudalennau allweddol ar gyfer cyfeirio gwirfoddolwyr a dychwelwyr proffesiynol ledled Cymru i gefnogi brechu torfol. Roedd hyn yn cynnwys y wefan yn trendio ar Google.
- Ymgysylltu ac ymgynghori'n rhithiol â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ar raglenni gwaith allweddol gan gynnwys ymgynghoriadau ar Wyddonwyr Clinigol Ymgynghorol ac Uned Gweinyddu Meddygol. Hefyd, adolygiadau o nifer o fframweithiau prentisiaeth fel mamolaeth a phediatreg, a'r fframwaith prentisiaeth iechyd yn ogystal â'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Cymru a'n Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- Lansio darnau allweddol o waith fel y Fframwaith Nyrsio Ymarfer Cyffredinol, Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol, a'n gwefan AaGIC newydd sy'n cynnwys gwefannau'r tri sefydliad blaenorol sy'n golygu bod mynediad at wybodaeth yn gyflymach ac yn haws i bawb.


- Digwyddiadau rhithiol sy'n galluogi hyrwyddo, ymgysylltu, cyfranogi ac adborth. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys Ffair Fferyllwyr Sylfaen, Therapïau Celf, Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Fferyllwyr Ymgynghorol.
- Cydnabod datblygiadau o ran cynllunio addysg a hyfforddiant yn y dyfodol gan gwblhau tendr addysg cyn cofrestru'r proffesiynau gofal iechyd, a chynnal gweminarau sy'n benodol i'r proffesiwn.
- Cyflwyno ein gweithlu ar gyfer y dyfodol drwy hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Rhaglen i Raddedigion a grŵp Cymrodoriaeth Glinigol eleni.
- Hyrwyddo'r 350 a mwy o yrfaoedd yn y GIG drwy'r blogiau sy'n benodol i'r proffesiwn a lansio Tregyrfa, sef ein pentref gyrfaoedd rhithiol.
- Cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ar-lein gan gynnwys cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau yn ogystal â'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a thynnu sylw at lwyddiannau a datblygiadau o ddiddordeb i'n cynulleidfa.
- Cyflwyno sesiynau briffio rhithiol gydag Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol er mwyn rhoi gwybodaeth a hwyluso trafodaeth â chynrychiolwyr gwleidyddol o bob cwr o Gymru.
- Cylchlythyrau dwyieithog rheolaidd gan gynnwys ein Cylchlythyr Gofal Sylfaenol, Bwletin i Randdeiliaid, Cylchlythyr Iechyd Meddwl.
- Negeseuon newyddion a chyfryngau cymdeithasol dwyieithog rheolaidd sy'n cefnogi cynnydd parhaus mewn dilynwyr ac ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol.
- Tynnu sylw at gyflawniadau a chydnabod y gwobrau a enillwyd drwy erthyglau newyddion a hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Cefnogi a chodi ymwybyddiaeth drwy nawdd gan gynnwys Gwobrau Arloesi mewn Gofal Iechyd, gwobrau HPMA y DU a gwobrau WomenSpire.

Yr Uchafbwyntiau Comisiynu Addysg a Hyfforddiant

Mae'r rhan fwyaf o'n cyllideb flynyddol (88%) yn cael ei buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant. Yn 2021-22 gwnaethom barhau i gomisiynu nifer cynyddol o leoedd hyfforddi a myfyrwyr ar draws amrywiaeth o broffesiynau iechyd, yn gyson â'r buddsoddiad a'r ymrwymiad parhaus gan Lywodraeth Cymru a'n Cynlluniau Addysg a Chomisiynu. Mae'r ffeithlun ar [dudalen 2] yr Adroddiad Perfformiad hwn yn rhoi trosolwg o'r addysg a'r hyfforddiant sy'n cael ei gomisiynu a'i gefnogi gan AaGIC.

Dangosir y tueddiadau o ran niferoedd comisiynu a hyfforddi yng Nghymru yn Atodiad 1.1 a 1.2 ar dudalennau [ ] ar ddiwedd yr Adroddiad Perfformiad hwn. Tynnir sylw at nifer o broffesiynau isod.





Yn ystod y flwyddyn academaidd 2021/22, roedd y gyfradd llenwi ar gyfer Cymru yn 93.7%. Roedd cyfradd llenwi carfan Gwanwyn 2022 a'r heriau a nodwyd yng nghyswllt cyfradd llenwi is ar gyfer rhaglen nyrsio wedi arwain at gyfradd llenwi o 76%. Cyfradd llenwi carfan yr Hydref oedd 99.4%.

Oherwydd problemau gyda'r lleoedd a gomisiynwyd yn y gwanwyn ym mhrifysgolion de Cymru, cafodd Bangor gyfle i gynyddu nifer y lleoedd yn eu carfannau gwanwyn. Cafodd y Brifysgol Agored gymeradwyaeth i ddefnyddio'r 70 o leoedd a gomisiynwyd ganddynt, gan ymestyn y nifer a recriwtiwyd ar draws y pedwar arbenigedd nyrsio, yn hytrach nag iechyd meddwl ac oedolion yn benodol. Roedd hyn yn cyd-fynd ag anghenion a buddiannau'r ymgeiswyr, a oedd yn eu tro'n cyfateb i gynlluniau'r gweithlu. Mae'r ffigurau dangosol yn awgrymu cyfraddau llenwi rhagorol ar gyfer nyrsys yn y gwanwyn ym Mhrifysgol Bangor a'r Brifysgol Agored (dros 100%) oherwydd yr hyblygrwydd hwn, sy'n gwrthbwyso'n rhannol lefelau is o recriwtio a gafwyd yn ne Cymru.

Bydd cyfarfod partneriaeth â Phrifysgolion yn ne Cymru, a fydd yn cael ei gynnal ym mis Mai, yn parhau â'r trafodaethau ar y nifer recriwtio niweidiol yng ngharfan gwanwyn 2022; ac yn edrych ar fentrau / arferion gorau ar gyfer y dyfodol. Mae pob prifysgol wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y niferoedd comisiynu'n cael eu cyflawni, drwy arloesi a syniadau i recriwtio cymaint â phosibl. Fodd bynnag, mae'n dod yn fwy amlwg ei bod yn anoddach llenwi lleoedd yn y gwanwyn ac mae hyn yn fwy o broblem yn ne Cymru ar hyn o bryd.

Mae'r galw gan y byrddau iechyd drwy eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn parhau i ddangos tuedd ar i fyny, felly mae angen comisiynu a llenwi mwy o gyrsiau nyrsio; lleihau colled a llif esmwyth. Mae'r pedair blynedd diwethaf wedi dangos cynnydd o tua 51%yn nifer y lleoedd sydd wedi'u comisiynu, gyda than-recriwtio yn fwy cyffredin yn y gwanwyn.

Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol

Cynyddodd nifer y myfyrwyr nyrsio cyn cofrestru a gomisiynwyd 140 yn 2021/22 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn erbyn cefndir o gynnydd parhaus yn nifer y lleoedd wedi'u comisiynu, o 1988 yn 2020/21 i 2202 yn 2021/22, sy'n cynrychioli 10% o gynnydd yn y niferoedd comisiynu. Gostyngodd y gyfradd recriwtio 2-3% i 90.6%.

Mae'r gyfradd hon yn dal yn un dros dro nes bydd cadarnhad o'r gyfradd wirioneddol drwy brosesau dilysu data. I lenwi'r lleoedd sy'n weddill bydd AaGIC yn buddsoddi ymhellach yn y dystysgrif addysg uwch

(CertHE) Cymhwyster Gweithiwr Cymorth Nyrsio Gofal Iechyd. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi cyfle i ragor o fyfyrwyr symud ymlaen i flwyddyn dau y rhaglen gradd Nyrsio Cyn Cofrestru, gan sicrhau felly bod rhagor o nyrsys newydd gymhwyso yn cwblhau rhaglenni yng ngwanwyn 2024-25 er mwyn bodloni anghenion gwasanaethau.

Hyfforddiant meddygol gofal eilaidd

Y gyfradd recriwtio derfynol ar gyfer Rowndiau 1 a 2 (swyddi yn dechrau ym mis Awst 2021) oedd 93% (400 o 429 o swyddi'n cael eu hysbysebu). Ar gyfer swyddi Rownd 3 a oedd yn dechrau ym mis Chwefror 2022, y sefyllfa derfynol oedd 73% (30 o 41 swydd wedi'u hysbysebu), sy'n welliant ar yr un adeg y llynedd pan hysbysebwyd y gyfradd recriwtio ar gyfer 62% (34 o 55 swydd). 91% oedd y gyfradd recriwtio derfynol ar draws y tair rownd (430 o 470 o swyddi a hysbysebwyd).

Mae rhai arbenigeddau (Meddygaeth Strôc, arbenigeddau Seiciatreg Uwch a Meddygaeth Cenhedlol-wrinol) yn parhau i fod yn heriol i'w llenwi ac adlewyrchir hyn ledled y DU. Yn unol â newidiadau yn y cwricwlwm, byddwn yn cyflwyno lleoliadau newydd ym maes meddygaeth Strôc fel rhan o'r rhaglen hyfforddi Niwroleg o fis Awst 2023 ymlaen, a bydd hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd hyfforddeion yn ymgymryd â swydd diddordeb arbennig mewn Meddygaeth Strôc yn y dyfodol. Mae swyddi gwag mewn Seiciatreg Uwch yn deillio o flynyddoedd olynol o recriwtio gwael ledled y DU ar lefel hyfforddiant Craidd; mae hyn wedi gwella'n ddiweddar ac rydym yn aros i weld canlyniadau hyn. Yn ogystal, rydym yn parhau i gynyddu nifer y swyddi yn y rhaglen hyfforddi Seiciatreg Craidd, y rhaglen fwydo ar gyfer Seiciatreg Uwch, a bydd y niferoedd uwch yn gynharach yn yr arfaeth yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyfraddau llenwi da mewn blynyddoedd i ddod. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau ar draws y rhaglen Meddygaeth Cenhedlol-wrinol, rydym wedi cynyddu'r cysylltiad â'r arbenigedd hwn yn ein Rhaglen Meddygaeth Fewnol. Wrth i ni ddisgwyl am allbwn yr ymyriad hwn, mae'r swyddi Meddygaeth Genhedlol-wrinol wedi cael eu trosi dros dro i Hyfforddiant Iechyd Atgenhedlu Rhywiol a Chymunedol sy'n boblogaidd iawn ac sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol â'r rhaglen Meddygaeth Cenhedlol-wrinol.

Hyfforddiant Sylfaenol

Y safle terfynol ar gyfer Rowndiau 1 a 2 (swyddi yn dechrau ym mis Awst 2021) oedd 100%.

Dyrannwyd cyfanswm o 411 o hyfforddeion i Ysgol Sefydledig Cymru ar 10 Mawrth 2022, drwy broses recriwtio genedlaethol. O'r rhain, mae 5 wedi cael eu dyrannu i raglenni Blaenoriaeth Sylfaen ac roedd llai na 5 wedi cael eu gohirio'n statudol o broses recriwtio 2021. Dyrannwyd yr holl hyfforddeion eraill i'r Rhaglen Sylfaen safonol.

Ym mis Mawrth 2022, cafodd Meddygon Blwyddyn Sylfaen 1 eu paru â'u swyddi F2 a fydd yn dechrau ym mis Awst 2022.

Gofal Sylfaenol

Yn Rownd 1 y broses recriwtio ar gyfer swyddi sy'n dechrau ym mis Awst 2022, mae cyfanswm o 154 o gynigion wedi cael eu derbyn o'r 155 o swyddi sy'n cael eu hysbysebu.

Datblygwyd rhaglen Hyfforddiant Cymorth Uwch Cymru i sicrhau bod Graddedigion Meddygol Rhyngwladol yn cael cefnogaeth ddigonol ac i helpu i fynd i'r afael â thargedau cyrhaeddiad gwahaniaethol. Pennwyd cyfanswm o 159 o hyfforddeion ar gyfer y cymorth hwn y llynedd.

Deintyddiaeth

Mae AaGIC wedi parhau i gomisiynu hyfforddiant deintyddol ac wedi llwyddo i gwblhau'r rhaglenni yn ôl y disgwyl. Y gyfradd recriwtio gyffredinol ar gyfer deintyddiaeth ar gyfer 2021/22 oedd 93%, sy'n ostyngiad bach ar y 94% a adroddwyd ar ddiwedd 2020/21. Yn ystod y flwyddyn roedd gan Hyfforddiant Sylfaenol Deintyddol gyfradd recriwtio o 100% (67 o swyddi). O fewn Hyfforddiant Craidd Deintyddol, penodwyd 69 o 74 o swyddi (93%) ac, ar hyn o bryd, mae 62 o'r swyddi hyn yn cael eu llenwi gan hyfforddeion craidd deintyddol a 7 gan hyfforddeion a benodwyd yn lleol sy'n parhau i gefnogi anghenion gwasanaeth O'r 24 o swyddi Hyfforddiant Deintyddol Arbenigol, mae 19 (79%) o swyddi'n cael eu llenwi gyda recriwtio'n digwydd ar gyfer 4 swydd wag ar hyn o bryd. Mae'r holl raglenni hyfforddi ar gyfer deintyddiaeth yn parhau i lenwi naill ai drwy recriwtio cenedlaethol neu leol a phan fydd swyddi gwag ar gael, rydym yn gweithio gyda darparwyr lleol i lenwi'r rhain cyn gynted ag y gallwn.

Hyfforddiant Sylfaenol Fferylliaeth

Mae 124 o hyfforddeion wedi cael eu recriwtio i'r 160 o leoedd wedi'u comisiynu a oedd wedi'u cynnig a'u cyllidebu yn 2021/22,

sy'n gyfradd llenwi o 78% o'i gymharu â'r gyfradd llenwi o 83% yn 2020/21. Credir bod y cyfraddau llenwi is na'r disgwyl yn deillio o effaith Covid ar gynnal digwyddiadau recriwtio. Bydd yr ystod lawn o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb yn cael eu hailddechrau yn ystod 2022/23 i gefnogi marchnata rhaglenni a chynyddu cyfraddau llenwi.

Ansawdd Addysg a Hyfforddiant

Un o swyddogaethau craidd a phrif flaenoriaethau AaGIC yw amlinellu, monitro a sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant gweithlu presennol GIG Cymru a gweithlu'r dyfodol, a hynny'n gyson â rheoliadau a safonau. Mae gennym systemau ar waith i gyflawni hyn ar draws ein holl grwpiau proffesiynol ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i ddefnyddio nifer o ffyrdd newydd ac arloesol o weithio i liniaru effaith pandemig COVID-19, er mwyn gwneud yn siŵr bod ansawdd addysg a hyfforddiant yn parhau i gyrraedd y safonau gofynnol. Fel y disgrifiwyd, mae cyfathrebu rhagorol gyda'n holl bartneriaid, rhanddeiliaid, myfyrwyr a hyfforddeion wedi bod yn hanfodol yn y gwaith hwn. Yn ogystal â hynny, rydym wedi dechrau llunio ein Fframwaith Rheoli Ansawdd trosfwaol a fydd yn disgrifio ein holl systemau rheoli ansawdd aml-broffesiwn. Bydd yn cael ei gwblhau yn 2022/23.

Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol

Mae prifysgolion yn bartneriaid allweddol i'r GIG oherwydd maen nhw'n darparu llawer iawn o addysg a hyfforddiant i bob gweithiwr iechyd proffesiynol ar lefel israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r agweddau ar y broses rheoli contractau sy'n ymwneud ag ansawdd yn rhoi sicrwydd i AaGIC, Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd bod addysg gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cael ei gomisiynu a'i ddarparu yng Nghymru yn glynu wrth y safonau academaidd a galwedigaethol uchaf, yn unol â chytundebau contractau.

Penllanw y cylch rheoli perfformiad blynyddol a gynhelir gan dîm Addysg, Comisiynu ac Ansawdd AaGIC yw cynhyrchu adroddiadau perfformiad diwedd blwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cofnodi cyflawniadau a phryderon, gan fanylu ar unrhyw gynlluniau gwella ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae'r adroddiad perfformiad Cymru gyfan hwn yn crynhoi'r adroddiadau unigol i sefydlu'r sefyllfa yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, gan dynnu sylw at feysydd o gyflawniad uchel a rhai sy'n peri pryder ar lefel prifysgolion lleol a lefel genedlaethol.

Mae'r adroddiad perfformiad yn tynnu sylw at berfformiad pob prifysgol ochr yn ochr â chyfartaledd Cymru, targedau'r comisiynydd, ac yn darparu system sgorio ar gyfer pob maes a oedd yn destun prawf. Os nad yw'r perfformiad yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, bydd yr adroddiad yn cynnwys cam gweithredu i'r brifysgol ei gymryd. Rhaid cyflwyno ymatebion i'r camau gweithredu hyn i AaGIC fel y comisiynydd erbyn dyddiad penodol, yn ogystal â gweithgareddau mesuradwy a gwelliannau wedi'u targedu. Caiff y rhain eu trafod mewn cyfarfodydd busnes contract yn y dyfodol fel rhan o'r agenda gwella parhaus.

Ymysg cydrannau fframwaith perfformiad ac ansawdd y tîm Addysg, Comisiynu ac Ansawdd mae:

- Adroddiadau perfformiad yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad allweddol a meincnodi AaGIC. Mae targedau perfformiad yn cael eu gosod bob blwyddyn ar sail tueddiadau hanesyddol ac arferion gorau'r diwydiant. Mae targedau dangosydd perfformiad allweddol wedi'u dylunio i wella perfformiad ac i fod yn heriol ond yn gyraeddadwy. Mae'r contract addysg newydd yn nodi targedau ar gyfer 2022/23 a gellir adolygu'r rhain yn flynyddol er mwyn sbarduno gwelliant yn barhaus.
- Hunanasesiad y brifysgol sy'n seiliedig ar holiadur a ddyfeisiwyd gan y Tîm Addysg, Comisiynu ac Ansawdd (yn ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o systemau Adolygu'r Cyfarwyddiaethau Meddygol).
- Adborth o gyfweliadau myfyrwyr.
- Adborth o gyfweliadau gyda Hwyluswyr Addysg Ymarfer ac Aseswyr Ymarfer.
- Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol.
- Amodau/adroddiadau yn ystod y flwyddyn gan y rheoleiddwyr (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal).

Mae'r tîm yn cyd-drefnu sesiynau adborth blynyddol â myfyrwyr, Hwylusydd Addysg Ymarfer a Mentoriaid Ymarfer, gan gynnig amgylchedd cefnogol i rannu agweddau cadarnhaol ar ansawdd yr addysg, yn ogystal ag unrhyw bryderon. Mae hyn yn cyfrannu at y gwaith o gynhyrchu'r Adroddiad Ansawdd

Blynyddol, sy'n adolygu darpariaeth addysg o ansawdd ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol.

Pryderon a heriau

- O ganlyniad i effaith barhaus COVID-19 a'r angen i ganolbwyntio ar helpu myfyrwyr i aros yn y byd academaidd ac mewn lleoliadau, mae wedi bod yn anoddach ymgysylltu'n llawn â phrifysgolion eleni.
- Mae cyfraddau ymgeisio ar gyfer Nyrsio Anableddau Dysgu a Gwyddorau Biofeddygol yn dal yn feysydd sy'n peri pryder. Mae angen gwella o hyd yn y meysydd hyn a bydd cynnydd yn erbyn cynlluniau yn parhau i gael ei fonitro.

Hyfforddiant Meddygol i Raddedigion

Mae AaGIC yn sicrhau addysg a hyfforddiant meddygol o ansawdd uchel i raddedigion yng Nghymru, gan gyrraedd y safonau rheoleiddiol drwy ddefnyddio ein fframwaith rheoli ansawdd. Mae'r fframwaith cynhwysfawr hwn yn cynnwys arferion rheolaidd ac ymatebol sy'n ein galluogi i weithio ar y cyd â Darparwyr Addysg Lleol ledled Cymru i sicrhau bod addysg a hyfforddiant o ansawdd yn cael eu darparu mewn modd sy'n rhoi blaenoriaeth briodol i ddiogelwch cleifion. Cymerir dull cymesur pan fydd pryderon yn codi. Mae hyn yn hybu tryloywder a pherthnasoedd gweithio effeithiol wrth fynd ar drywydd atebion. Wrth nodi rhwymedigaethau Darparwyr Addysg Lleol i AaGIC, mae'r Cytundeb Disgwyliadau yn adlewyrchu elfennau sylfaenol darpariaeth Deintyddol a Meddygol i Raddedigion. Mae'r Cytundeb yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cytundeb yn sail i'r broses gomisiynu feddygol flynyddol y mae AaGIC yn ei defnyddio i ofyn am sicrwydd bod rhwymedigaethau Darparwyr fel y nodir yn y Cytundeb yn cael eu cyflawni. Bydd y rhain yn cynnwys trafodaeth aml-broffesiynol a fydd yn canolbwyntio ar faterion o bwys strategol.

Mae gwaith wedi dechrau ar nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu gweithlu amlbroffesiwn i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol, ac rydym yn gweithio i edrych ar themâu allweddol a fydd yn helpu i wella hyfforddiant i feddygon iau yng Nghymru.

Mae'r gweithgareddau rheoli ansawdd wedi parhau drwy gydol y pandemig, ond mewn ffordd wahanol. Roedd gofyniad pwysig o hyd i sicrhau diogelwch cleifion ac amgylcheddau dysgu effeithiol. Gwnaethom felly addasu a newid ein systemau a chymryd camau gweithredu rhagweithiol, ac yn gyffredinol cafodd ansawdd hyfforddiant ac addysg ei gynnal.

Monitro Uwch

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn dynodi statws 'Monitro Uwch' i'r safleoedd hynny y mae'n credu bod angen lefel ychwanegol o gymorth arnynt.

Ym mis Mawrth 2022, mae 5 Cynllun Gwella Lleol yn parhau i gael eu monitro'n well, ac mae cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella yn dal ar y trywydd iawn. Cafodd Obstetreg a Gynaecoleg yn Ysbyty Tywysoges Cymru eu hatal rhag cael eu monitro'n well gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol oherwydd tystiolaeth o welliant parhaus.

Darparwr Addysg Lleol (Bwrdd Iechyd)	Safle	Arbenigedd
BIP Cwm Taf Morgannwg	Ysbyty'r Tywysog Siarl	Obstetreg a Gynaecoleg
	Ysbyty Brenhinol Morgannwg	Obstetreg a Gynaecoleg
BIP Betsi Cadwaladr	Ysbyty Maelor Wrecsam	Meddygaeth
BIP Bae Abertawe	Ysbyty Treforys	Meddygaeth Frys
		Trawma ac Orthopedeg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	–	–

Er bod y pandemig wedi effeithio ar ddulliau safonol o reoli ansawdd, roedd yr angen i sicrhau diogelwch cleifion ac amgylcheddau dysgu effeithiol yn dal yr un mor bwysig ag erioed. Roeddem wedi gweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i ddatblygu dulliau gweithredu amgen ar gyfer y gweithgareddau. Roedd y camau hyn yn cynnwys:

Rhith-ymweliadau

Newidiodd dull AaGIC o reoli ansawdd yn ystod y pandemig i gydnabod y pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth ac oherwydd nad oedd ffynonellau tystiolaeth arferol ar gael mwyach. Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ffynonellau tystiolaeth arferol wedi ailddechrau i raddau helaeth ac mae AaGIC yn cymryd camau i gadw rhai o fanteision dull diwygiedig o weithredu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer Ymweliadau wedi'u Targedu sydd fel arfer yn cael eu cynnal drwy gyfarfod wyneb yn wyneb, er bod manteision fformat rhithiol hefyd wedi cael eu cydnabod. O'r herwydd, mae dogfennau canllaw i roi eglurder ynghylch fformat ymweliadau yn y dyfodol wedi cael eu datblygu.

Rheoli Pryderon

Mae cyfathrebu da ac ymateb yn brydlon i bryderon wedi bod yn rhan hollbwysig o gadw hyfforddiant ar y trywydd iawn eleni, ac rydym wedi triongli tystiolaeth o adborth diwedd lleoliad ac ymatebion i adroddiadau risg yn rhagweithiol er mwyn cael darlun cywir o statws yr holl risgiau. Oherwydd y gallai amgylcheddau dysgu presennol newid o ganlyniad i ailneilltuo hyfforddeion yn ystod y pandemig, cymerwyd camau i sicrhau bod gan ddarparwyr addysg lleol ddulliau amgen o reoli ansawdd yn lleol. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu â Chyfarwyddwyr Meddygol Cysylltiol (Addysg) i drafod y cynnydd mewn cysylltiad â phryderon newydd a phresennol ynglŷn â hyfforddiant, ac i roi cyfle i ddarparu canllawiau a chymorth.

Arolwg Hyfforddiant Blynyddol

Roedd cyfraddau ymateb AaGIC i Arolygon Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn uchel ar 85.39% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 75% ar gyfer yr arolwg hyfforddeion a chyfradd ymateb o 51.7% ar gyfer yr arolwg hyfforddwyr o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 32%. Mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu cyhoeddi ar adnodd adrodd ar-lein y Cyngor Meddygol Cyffredinol, gydag adroddiad themâu allweddol ar gyfer Cymru yn cael ei lunio yn AaGIC. Mae manylion rhai o'r prif negeseuon yn yr adroddiad hwn i'w gweld isod.

Ar y cyfan, mae canlyniadau'r arolwg yn cyd-fynd yn fras â gweddill y DU. Mae hyfforddeion yng Nghymru yn parhau i adrodd lefelau uchel o foddhad gyda lefelau da o oruchwyliaeth glinigol.

Mae'r canlyniadau ar gyfer meddyginiaeth a llawdriniaeth yn nodi'r nifer fwyaf o ganlyniadau niweidiol a fydd angen eu harchwilio'n fanylach. Mae hyn yn debygol o fod yn rhannol oherwydd effaith pandemig COVID-19 yn yr ardaloedd hyn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Obstetreg a Gynaecoleg a Meddygaeth Frys wedi bod yn ganolbwynt gweithgarwch ar gyfer yr Uned Ansawdd. Fodd bynnag, mae canlyniadau 2021 yn dangos bod arwyddion o welliant yn y meysydd hyn.

Er bod y sgôr ar gyfer sefydlu yn y DU yn cyd-fynd â gweddill y DU, mae'r canlyniadau'n awgrymu bod lle i wella yn y maes hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar ansawdd cynefino a chynefino adrannol o ystyried y cysylltiad â diogelwch cleifion.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion yn dweud bod eu hyfforddiant yn rhoi digon o brofiad iddynt i gefnogi eu datblygiad parhaus.

Yn gyffredinol, dywedodd hyfforddwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl hyfforddi. Fodd bynnag, mae hwn yn faes lle bydd angen gwneud gwaith parhaus i gynnal neu wella'r adborth.

Mae lles wedi bod yn thema benodol yn yr arolwg hyfforddeion a hyfforddwyr, gyda chynnydd o hyd at 8% mewn lefelau gorweithio mewn rhai meysydd. Mae canlyniadau'r hyfforddeion yn awgrymu mai'r effaith fwyaf arwyddocaol fu ar hyfforddeion sylfaen.

Cynhaliwyd cyfarfod ymgysylltu blynyddol â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar 5 Hydref 2021 i graffu ar Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac ystyried dull AaGIC o reoli ac adrodd ar ansawdd. Roedd yr adborth o'r cyfarfod hwn yn gadarnhaol yn gyffredinol, ac ni nodwyd unrhyw bryderon.

Proses Arfarnu Feddygol

Mae AaGIC yn cefnogi ac yn gwella safonau proffesiynol drwy ailddilysu ac arfarnu yn unol â gofynion y rheoleiddwyr. Yn ystod y

flwyddyn, mae'r Uned Cymorth Ailddilysu wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Meddygol, Cyfarwyddwyr Meddygol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac arweinwyr arfarnu ar draws y pedair gwlad er mwyn cytuno ar newidiadau cenedlaethol i'r broses arfarnu meddygol, a'u rhoi ar waith, a hynny i ymateb yn briodol i anghenion newidiol y pandemig, y gwasanaeth a'r proffesiwn. Cafodd yr arfarniad meddygol ei ohirio yn ystod y pandemig ac ar 1 Ebrill 2021 dychwelodd meddygon i gynnal gwerthusiadau blynyddol yn unol â gofynion ailddilysu.

Yng ngoleuni'r adferiad ar ôl y pandemig, mae'r Uned Cymorth Ailddilysu wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Gymdeithas Feddygol Brydeinig a Byrddau Iechyd a Byrddau Iechyd i fynd i'r afael â'r angen am ddull sy'n canolbwyntio ar les ar gyfer arfarnu ac mae wedi cynhyrchu nifer o adnoddau gan gynnwys y Pecyn Cymorth Arfarnu wedi'i Ail-gydbwyso a'r modiwl Cyflwyniad i Hyfforddi.

Cymorth i Hyfforddeion

Roeddem wedi parhau i gefnogi nifer sylweddol o hyfforddeion ar draws arbenigeddau meddygol a deintyddol, gan ddelio ag amrywiaeth o ffactorau mewn cysylltiad â'u hyfforddiant drwy'r Uned Cymorth Proffesiynol.

Ar ddiwedd 2021/22, roedd yr Uned Cymorth Proffesiynol yn cefnogi 449 o hyfforddeion. Roedd 31% (138) yn cael cymorth seicolegol ychwanegol. Daeth yr Uned yn gyfrifol am 101 achos newydd yn Ch4. Roedd 61% o'r rhain yn hunanatgyfeiriad.

Rheoli Ansawdd Deintyddiaeth

Mae pob hyfforddai'n cael ei fonitro drwy bortffolio ar-lein. Ar gyfer Hyfforddeion Deintyddol Sylfaenol a Hyfforddeion Craidd Deintyddol, mae hwn yn bortffolio Axia sy'n cael ei reoli gan Health Education England, ac ar gyfer Hyfforddiant Arbenigol Deintyddol gwneir hyn drwy Raglen Cwricwlwm Llawfeddygol Rhyng-golegol, ac eithrio Iechyd Cyhoeddus Deintyddol sydd â phortffolio annibynnol.

Hyfforddiant Deintyddol Sylfaenol

Cynhaliwyd Adolygiad Cam Cynnar ar gyfer pob Hyfforddai Deintyddol Sylfaen ym mis Rhagfyr i gael cipolwg ar gynnydd ac i nodi unrhyw broblemau mawr cyn yr Adolygiadau Interim o Gynnydd Cymhwysedd ym mis Chwefror. Mae'r mwyafrif (46) o hyfforddeion wedi symud ymlaen yn ôl y disgwyl, gyda rhai hyfforddeion (8) yn gofyn am feysydd datblygu wedi'u targedu. Fodd bynnag, roedd cynnydd rhai hyfforddeion (13) yn parhau i gael ei effeithio gan y cyfyngiadau sy'n weddill ar wasanaethau deintyddol gofal sylfaenol drwy Covid. Cynhelir adolygiadau terfynol ym mis Gorffennaf i benderfynu a oes angen estyniadau i hyfforddiant ar gyfer unrhyw hyfforddeion y tu hwnt i ddiwedd y rhaglen ym mis Awst.

Hyfforddiant Deintyddol Craidd

Mae ein Rhaglen Hyfforddiant Craidd Deintyddol wedi parhau i ddatblygu prosesau Sicrhau Ansawdd i sicrhau cyflawniad, boddhad a dilyniant diogel hyfforddeion, a hefyd i sicrhau bod Darparwyr Addysg Lleol yn darparu lleoliadau hyfforddi diogel ac effeithiol.

Mae hyfforddeion Hyfforddiant Deintyddol Craidd wedi parhau i gael y cyfle i roi adborth ar eu hyfforddiant drwy holiaduron diwedd y lleoliad ar ôl 6 mis neu 12 mis. Cafodd hyfforddeion eu monitro drwy Adolygiad o Ddilyniant Cymhwysedd a chafodd yr holl hyfforddeion eu symud ymlaen yn foddhaol ym mis Chwefror 2022. Bydd Adolygiad o Ddilyniant Cymhwysedd terfynol yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf ar ddiwedd eu hyfforddiant.

Hyfforddiant Deintyddol Arbenigol

Cynhaliodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol adolygiad Sicrhau Ansawdd o'r hyfforddiant deintyddol arbenigol a ddarparwyd drwy AaGIC ac roedd yr adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ar ei wefan yn adrodd yn gadarnhaol iawn ar yr hyfforddiant, gyda 18 o'r 20 safon wedi'u bodloni'n llawn a 2 wedi'u cyflawni'n rhannol gyda mân gamau gweithredu.

Cynhaliwyd Adolygiad Interim o Ddatblygiadau Cymhwysedd ac Adolygiad Blynyddol o Ddatblygiadau Cymhwysedd ar gyfer pob hyfforddai. Rhoddodd cynrychiolwyr y Pwyllgor Cynghori Arbenigol lleyg ac allanol adborth canmoliaethus am y prosesau wedi'u strwythuro a'u rheoli'n glir a'r dull o sicrhau ansawdd.

Cafodd Hyfforddeion Deintyddol Arbenigol gyfle i roi adborth ar eu hyfforddiant drwy holiaduron yn eu Hadolygiad Blynyddol o Ddilyniant Cymhwysedd neu gyfarfodydd interim, drwy arolwg ar-lein ar gwblhau hyfforddiant yn ogystal â thrwy eu cynrychiolwyr ar y Pwyllgorau Hyfforddi

Arbenigol. Mae'r holl adborth gan hyfforddeion am eu profiadau yn AaGIC wedi bod yn ffafriol ac yn gadarnhaol.

Cymorth i Hyfforddeion Deintyddol

Mae Fforwm Hyfforddeion Deintyddol newydd wedi cael ei sefydlu eleni, dan arweiniad Fforwm Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhaglen hyfforddi ac mae hefyd yn bwydo i mewn i fforymau cenedlaethol ar gyfer hyfforddeion. Mae sicrhau bod hyfforddeion yn cael y cyfle i roi adborth am eu profiadau a'u pryderon yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y profiad hyfforddi gorau posibl.

Mae hyfforddeion yn parhau i gael eu cefnogi drwy'r Uned Cymorth Proffesiynol ac fe'u hanogir i gyfeirio eu hunain os bydd angen. Darperir cefnogaeth fugeiliol i'r holl hyfforddeion drwy'r arweinwyr addysg ar gyfer eu lleoliadau hyfforddi.

Rheoli Ansawdd Fferylliaeth

Bydd y newidiadau i'r gofynion rheoleiddio ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn gofyn am adolygiad o'r dull o ymdrin â phrosesau ansawdd, a bydd y tîm fferyllol yn mynd ati i ddatblygu cylchoedd adrodd cadarn dros y deuddeg mis nesaf. Mae Fferylliaeth wedi cyd-fynd â Fframwaith Ansawdd AaGIC, ac mae hyn yn cael ei roi ar waith ar draws y gwahanol raglenni.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol. Cafodd ein Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2021. Rydym yn defnyddio system a phroses y Fframwaith i fonitro, ceisio sicrwydd a sicrhau bod diffygion yn cael sylw drwy graffu ar y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Mae ein system Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei goruchwylio drwy waith craffu a monitro gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

Mae effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei asesu gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol.

Mae diagram o Fframwaith Rheolaeth y Bwrdd ar y dudalen nesaf.

Lefelau Sicrwydd

Llinell Gyntaf – Gweithredol

- Strwythurau sefydliadol – tystiolaeth o ddirprwyo cyfrifoldeb drwy drefniadau Rheolaeth Llinell.
- Cydymffurfio â'r broses arfarnu
- Cydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau
- Adrodd am ddigwyddiadau ac adolygiadau thematig
- Cydymffurfio â phrosesau a systemau Rheoli Risg
- Adroddiadau Perfformiad, Adroddiadau Cwynion a Phrofiad Hyfforddeion, Adroddiadau Cyllid

Ail Linell Risg a Chydymffurfio

Adroddiadau i Bwyllgorau Sicrwydd a Goruchwylio

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd
- Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd
- Pwyllgor Taliadau
- Grwpiau Iechyd a Diogelwch ayb

Canfyddiadau a/neu adroddiadau o arolygiadau, Adroddiadau Blynyddol, adroddiadau perfformiad i bwyllgorau

Trydydd Llinell – Annibynnol

- Archwilio Mewnol
- Archwilio Cymru
- Atal Twyll
- Rheoleiddwyr
- Adolygiadau ac Adroddiadau gan Golegau Brenhinol
- Ymweliadau ac achrediadau allanol
- Adolygiadau Annibynnol

3. Y Gallu i Drafod Risg

Rydym wedi parhau i ddatblygu a gwreiddio ein dulliau rheoli risg a pharatoi ar gyfer argyfwng drwy gydol 2021/22. Mae ein Polisi Rheoli Risg yn cael ei adolygu'n flynyddol a chafodd ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2021.

Mae datganiad parodrwydd i dderbyn risg AaGIC, sydd wedi'i nodi isod, yn disgrifio'r risgiau y mae'n barod i'w derbyn neu eu goddef wrth fynd ar drywydd ei nodau strategol:

Mae AaGIC yn cydnabod, fel sefydliad seiliedig ar wella, ei bod yn amhosib darparu ei wasanaethau a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'w randdeiliaid heb lefel uchel o barodrwydd i dderbyn risg. Yn wir, dim ond drwy gymryd risgiau y gall AaGIC gyflawni ei nodau.

Er hynny mae AaGIC yn cydnabod y bydd ei barodrwydd i dderbyn risg yn amrywio yn dibynnu ar y gweithgaredd. Bydd ei barodrwydd i dderbyn risg yn seiliedig ar sicrhau bod manteision a risgiau posib wedi'u deall yn llawn cyn gwneud penderfyniadau ar gyllid, a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd.

Mae parodrwydd AaGIC i dderbyn risg yn ystyried ei allu i drafod risg, sef y lefel o risg y mae'n gallu ei goddef (neu'r golled gallwn ei dioddef) o ystyried ei adnoddau ariannol ac adnoddau eraill cyn bod achos o dorri rhwymedigaethau a dyletswyddau statudol yn codi.

Mae goddefiant risg AaGIC mewn cysylltiad â'i holl swyddogaethau statudol wedi'i ymgorffori yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Bydd hyn yn sicrhau dull cyson ac integredig lle mae gan bob risg gysylltiad clir â'r amcanion sefydliadol, gyda llwybr clir i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Mae ystyried Risgiau Strategol a Risg Gorfforaethol yn rhan o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Er eu bod yn ategu ei gilydd, nid ydynt yn cwmpasu'r un meysydd. Mae Risgiau Strategol yn risgiau sylfaenol i Nodau Strategol sefydliad. Mae'r risgiau hyn wedi'u gwreiddio ac nid ydynt yn newid llawer mewn blwyddyn. Mae Risgiau Corfforaethol yn nodi gweithgareddau mwy manwl o ddydd i ddydd ac maent yn fwy tebygol o newid yn ystod y flwyddyn.

Mae risgiau strategol AaGIC yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau i gyd-fynd â'n Cynllun Tymor Canolig Integredig. Adolygodd y Bwrdd risgiau strategol AaGIC yn ei Sesiynau ar Ddatblygu'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022. Yna, cafodd y risgiau strategol diweddaraf eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022. Mae Tabl 3 yn amlinellu prif risgiau strategol AaGIC.

Tabl 3 Risgiau Strategol Cyfredol AaGIC

1	**Sgiliau ac arbenigedd y gweithlu, o ystyried natur arbenigol y sefydliad.** Mae risg y gallai AaGIC fod mewn sefyllfa lle nad oes ganddo weithlu sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol er mwyn cyflawni ei Amcanion Strategol. Gallai hyn gael ei achosi gan brinder staff â'r sgiliau perthnasol yn y farchnad allanol neu'r system addysg, neu'n fewnol o ganlyniad i ddiffyg sgiliau staff, symudedd gyrfa, cynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli sgiliau, neu o ganlyniad i lefelau annymunol o golli cyflogeion neu absenoldeb unigolion allweddol oherwydd salwch. Mae'r effaith barhaus ar lesiant staff yn sgil pandemig COVID yn golygu bod y risg hon yn arbennig o ddifrifol.
2	**Y gallu i gyflawni ystod gynyddol o swyddogaethau a chyfrifoldebau.** Gallai'r risg o ddiffyg gallu gael ei hachosi gan brinder gallu digonol ymysg y gweithlu i gyflawni swyddogaethau cynyddol y sefydliad, a allai ddigwydd drwy gynllunio annigonol a gorddibyniaeth ar y ffyrdd presennol o weithio, peidio â chofleidio arloesedd a ffyrdd newydd o weithio, a pheidio â buddsoddi mewn technoleg briodol.
3	**Newid diwylliannol sydd ei angen i fabwysiadu dull gweithredu integredig ac aml-broffesiwn.** Mae risg y gallai AaGIC fethu cynnal a pharhau i ddatblygu diwylliant sefydliadol cadarnhaol sy'n galluogi, yn hybu ac yn datblygu ymgysylltiad staff wrth gofleidio'r dull aml-broffesiwn. Gallai hyn gael ei achosi gan orddibyniaeth ar y ffyrdd presennol o weithio neu beidio â neilltuo digon o amser a sylw i Ddatblygu Sefydliadol, a methu gwreiddio egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol.
4	**Ymgysylltu effeithiol i sicrhau ein bod yn dylanwadu ar yr agenda fel arweinydd y system ac yn gallu cyflawni ein cynlluniau.** Bydd gweithredu fel arweinydd y system yn golygu bod angen sganio'r gorwel yn effeithiol a deall system y GIG a thueddiadau'r gweithlu, a chyfathrebu ac ymgysylltu clir er mwyn adeiladu clymblaid i hybu newidiadau yn y system. Gallai'r risg o fethu dylanwadu ar yr agenda fel arweinydd y system gael ei hachosi gan fethu cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid sydd newydd gael ei sefydlu.
5	**Ymgysylltu'n effeithiol â'n partneriaid i sicrhau bod amcanion a nodau ar y cyd yn cael eu cyflawni.** Bydd rhoi nodau ac amcanion AaGIC ar waith yn llwyddiannus mewn nifer o feysydd yn dibynnu ar ymgysylltu a chydweithredu â'n partneriaid ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Gallai'r risg o fethu cyflawni yn y meysydd hyn gael ei hachosi gan allu annigonol, peidio â chynnal ymgysylltiad yn effeithiol â phartneriaid neu fethu sicrhau cyfranogiad ein partneriaid.
6	**Anwadalrwydd sefyllfa ariannol AaGIC gan gynnwys y ddibyniaeth ar gynlluniau comisiynu, dewisiadau myfyrwyr a chyllidebau cysylltiedig.** Gallai hyn gael ei ddwysáu gan yr heriau ariannol cynyddol a wynebir gan ein Llywodraeth a'n darparwyr addysg, yn enwedig ar ôl COVID-19, gan arwain at lai o hyblygrwydd o ran ein gallu i ymateb i ddatblygiadau.
7	**Data a Gwybodaeth am y Gweithlu.** Y risg nad yw ansawdd yr wybodaeth am y gweithlu sy'n cael ei chasglu a'i chofnodi yn y GIG yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cywir ac o gynllunio ar gyfer gofynion gweithlu'r GIG yn y dyfodol. Gallai hyn arwain at ormod o allu a gallu annigonol yn y gweithlu.

Rheoli Risg
Mae'r Bwrdd yn credu bod rheoli risg yn weithredol ac yn integredig yn elfennau allweddol o bob agwedd ar ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau, yn enwedig i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein busnes yn llwyddiannus.

Y Prif Weithredwr / Swyddog Atebol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg AaGIC. Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau'n nodi ac yn monitro risgiau yn y sefydliad. Yn benodol, mae cyfarfodydd y Tîm Gweithredol yn gyfle i'r swyddogaeth weithredol ystyried a mynd i'r afael â risgiau, ac ymgysylltu â'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, ac adrodd iddynt, ar broffil risg y sefydliad. Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol bob mis, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ei hadolygu bob chwarter. Ers mis Tachwedd 2021, mae'r Bwrdd yn cael copi o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol i'w nodi ym mhob cyfarfod ac mae'n adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ddwywaith y flwyddyn. Caiff risgiau eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd fel y bo'n briodol.

Ar lefel weithredol, mae cyfarwyddwyr gweithredol yn gyfrifol am adolygu Cofrestr Risgiau eu Cyfarwyddiaeth ac am sicrhau bod rheolaethau a chynlluniau gweithredu effeithiol ar waith i fonitro cynnydd.

Ym mis Mawrth 2022, cawsom adroddiad sicrwydd sylweddol gan yr adran Archwilio Mewnol yn dilyn archwiliad o'r system rheoli risg a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y prosesau ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Feddygol.

Risgiau AaGIC
Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei diweddaru'n barhaus i gofnodi risgiau AaGIC wrth iddynt gael eu nodi. Dyma'r prif risgiau sydd wedi cael eu rheoli yn ystod 2021/22:

- Roedd seiberddiogelwch yn dal yn risg blaenoriaeth uchel ac roedd y gwaith yn canolbwyntio ar leihau proffil risg seiberddiogelwch AaGIC, gan wella cadernid seiberddiogelwch ar yr un pryd. Teimlwyd bod y bygythiad i seiberddiogelwch wedi dwysáu o ganlyniad i'r pandemig, gan fod twyllwyr yn targedu sefydliadau iechyd mwy a mwy. I liniaru'r risg hon, mae AaGIC wedi parhau i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Seiberddiogelwch fesul cam.
- Comisiynu addysg ôl-raddedig ac ôl-gofrestru o Sefydliadau Addysg Uwch heb ddiogelwch trefniadau contract ffurfiol. Mae Cam 2 yr Adolygiad Strategol o Addysg wedi cael ei ddatblygu i gynnwys comisiynu'r ddarpariaeth addysg hon.
- Anawsterau o ran gweithredu'r broses o ehangu'r Model Un Prif Gyflogwr a'r effaith gysylltiedig ar brofiad hyfforddeion. I liniaru'r risgiau, gohiriwyd y gwaith o'u cyflwyno fesul cam a chynhaliwyd adolygiad teiran i nodi meysydd i'w cefnogi a'u gwella.

Ychwanegwyd tair risg allweddol ychwanegol at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod mis Mawrth 2022. Byddant yn cael eu rheoli yn ystod 2022/23:

- Anawsterau o ran cael nawdd Visa ar gyfer meddygon teulu sydd newydd gymhwyso o dramor ac nad ydynt yn gallu gwneud cais am Ganiatâd Amhenodol i Aros yn y DU. Er mwyn lliniaru'r risg rydym yn gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddarparu gwybodaeth i'r meddygon teulu hyn am eu hachos i ymestyn nawdd gyda'r Swyddfa Gartref ac yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y mater.
- Anawsterau o ran cael geirdaon ar gyfer graddedigion meddygol i gefnogi eu cais ar gyfer y Rhestr o Berfformwyr Meddygol. Rydym yn codi ymwybyddiaeth o'r mater gyda Chyfarwyddwyr Meddygol Cysylltiol Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan ac yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Meddygol i ddatblygu dull gweithredu ac ateb cyffredin.
- Cost hyfforddi'r cynnydd yn nifer y meddygon teulu, sy'n parhau i fod yn fwy na'r gyllideb a ragwelwyd. Mae'r Tîm Cyllid a Deoniaeth Feddygol wedi cynnal archwiliad dwfn i ganfod beth sy'n achosi'r tanwariant a bydd y gor-recriwtio'n cael ei reoli'n ofalus yn y dyfodol er mwyn lleihau'r risg ariannol gyffredinol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhapurau'r Bwrdd ar ein gwefan: Error! Hyperlink reference not valid. Cyfarfodydd y Bwrdd, agendâu a rheolau sefydlog - AaGIC (gig.cymru) Error! Hyperlink reference not valid.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod staff yn y sefydliad drwyddo draw yn cael eu hyfforddi a'u galluogi i asesu, rheoli, uwchgyfeirio ac adrodd ar risgiau yn briodol. Mae rheolwyr AaGIC wedi parhau i gael hyfforddiant mewnol ar risgiau yn ystod 2021-22.

Rheoli Argyfwng a Pharhad Busnes

Mae gan AaGIC Bolisi a chynllun ar gyfer Rheoli Argyfwng a Pharhad Busnes.

Mae Polisi a chynllun Rheoli Argyfwng a Pharhad Busnes AaGIC wedi bod ar waith drwy gydol 2021/22. Fe'u defnyddiwyd yn ôl yr angen mewn ymateb i sefyllfa COVID-19 yn ystod 2021/22.

Yn unol â'r Polisi a'r cynllun Rheoli Argyfwng a Pharhad Busnes yn ystod argyfwng COVID-19, mae'r Tîm Rheoli Argyfwng yn AaGIC wedi bod yn gyfrifol am fonitro'r effaith a chydlynu'r gwaith o reoli'r risgiau sy'n codi. Mae'r Tîm Rheoli Argyfwng hefyd wedi sicrhau bod y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn cael eu briffio'n rheolaidd ac mae wedi asesu a ddylid uwchgyfeirio unrhyw risgiau a'u cynnwys yn y gofrestr risgiau corfforaethol.

Mae'r Tîm Rheoli Argyfwng wedi cwrdd yn ôl yr angen drwy gydol 2021-22 i reoli effaith y pandemig. Roedd yn cyfarfod yn rheolaidd rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mehefin 2021 pan ddaeth i ben. Cynhaliwyd ymarfer gwersi a ddysgwyd ym mis Medi a fydd yn sail i adolygiad o'n Cynllun Parhad Busnes ddechrau 2022/23. Cafodd y Tîm Rheoli Argyfwng ei roi ar waith eto ddiwedd mis Rhagfyr 2021 a chyflwynwyd diweddariadau cryno bob wythnos i Lywodraeth Cymru ar yr ymateb i'r don Omicron. Daeth hyn i ben ddechrau mis Mawrth 2022 wrth i effaith y pandemig leihau a dychwelodd y sefydliad i sefyllfa a oedd yn fwy fel busnes fel arfer.

Roedd yr angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 wedi cyflwyno nifer o heriau i'r sefydliad a nodwyd nifer o risgiau newydd a rhai a oedd yn dod i'r amlwg. Mae AaGIC wedi cymryd camau gweithredu sylweddol i gefnogi ymateb GIG Cymru i'r pandemig. Mae hyn wedi cynnwys gweithio fel aelod o Grŵp Cynllunio COVID y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r GIG, llywodraethau lleol a Llywodraeth Cymru.

Wrth i COVID-19 symud tuag at ddod yn endemig, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynglŷn ag effaith gyffredinol y pandemig ar ddarpariaeth gwasanaethau gan y sefydliad yn y tymor hwy, ond mae camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i liniaru risgiau.

Mae AaGIC yn parhau i weithio'n agos gydag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth barhau i ymateb a chynllunio ar gyfer y cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod hyn yn cael ei ategu gan drefniadau rheoli risg cadarn a'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol.

Mae AaGIC wedi parhau i gyfrannu at yr ymateb cenedlaethol drwy rôl y Dirprwy Brif Weithredwr fel cyd-gadeirydd y Grŵp Cynllunio ac Ymateb ar gyfer Defnyddio'r Gweithlu a'i Les (Cell y Gweithlu).

Mae ein model gweithredu wedi cael ei addasu mewn ymateb i'r pandemig yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ac er mwyn diogelu iechyd y staff. Mae hyn wedi cynnwys cyfnodau lle roedd Tŷ Dysgu, ein pencadlys, ar gau a'r sefydliad wedi newid yn llwyddiannus i weithio gartref 100% fwy neu lai. Lle caniateir hynny gan ganllawiau iechyd y cyhoedd, mae Tŷ Dysgu wedi bod ar agor i staff sydd angen dod i'r swyddfa at ddibenion busnes neu les. Ailagorodd Tŷ Dysgu i staff ar 17 Mawrth 2022 pan symudodd AaGIC i'n model gweithio ystwyth 3:2. Mae'r model 3:2 yn seiliedig ar staff swyddfa amser llawn yn gweithio yn Nhŷ Dysgu dri diwrnod yr wythnos a gartref dau ddiwrnod yr wythnos. Ar ôl dwy flynedd o gyfyngiadau symud, cydnabuwyd y byddai dychwelyd i'r swyddfa yn anodd i rai aelodau o staff. O ystyried hynny, sefydlwyd grŵp llywio bach i hwyluso'r newid graddol i ddychwelyd i'r swyddfa ac rydym wedi rhoi mesurau ar waith i gefnogi lles y staff.

4. Y Fframwaith Rheolaeth

Nid oes rhaid i sefydliadau GIG Cymru gydymffurfio â phob elfen o'r cod llywodraethu corfforaethol ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog. Fodd bynnag, cynhaliwyd asesiad yn erbyn y prif egwyddorion gan eu bod yn ymwneud â sefydliadau sector cyhoeddus y GIG yng Nghymru, a'r Safon Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd. Mewn ymateb i asesiad y llynedd, mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- proses hunanasesu'r Bwrdd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu rôl AaGIC yn well mewn addysg a hyfforddiant, a
- datblygu'r prosesau cynefino ar gyfer Aelodau Annibynnol ymhellach.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad llywodraethu hwn hefyd yn darparu asesiad o sut rydym yn cydymffurfio â phrif egwyddorion

y Cod, gan eu bod yn berthnasol i AaGIC fel sefydliad sector cyhoeddus y GIG. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw holl elfennau adrodd y Cod wedi'u hamlinellu yn y datganiad llywodraethu hwn ond yn cael eu hadrodd mewn rhagor o fanylder yn Adroddiad Blynyddol ehangach y sefydliad. Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y cod a'i fod yn cynnal ei fusnes mewn modd agored a thryloyw yn unol â'r cod. Nid oes unrhyw achos o dynnu'n groes i'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i adrodd.

Mae'r cod llywodraethiant corfforaethol ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220645/corporate_governance_good_practice_july2011.pdf

Mae fframwaith rheoli risgiau AaGIC yn cydymffurfio'n sylweddol â'r Llyfr Oren, canllaw i'r sector cyhoeddus sy'n amlinellu prif egwyddorion Rheoli Risg, gan ystyried maint, strwythur ac anghenion y sefydliad.

Nid oes unrhyw achos o dynnu'n groes i'r Llyfr Oren wedi'i adrodd.

Mae'r Llyfr Oren ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/815635/Orange_Book_Management_of_Risk.pdf

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn nodi'r gofyniad ar gyfer darparu gofal iechyd yng Nghymru. Fel corff addysg a hyfforddiant heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â chleifion, mae ein ffocws mewn perthynas â'r Safonau Iechyd a Gofal yn ymwneud â staff ac adnoddau. Mae gwelliannau i'r meysydd hyn wedi'u cofnodi yn ein Hadroddiad Perfformiad.

4.1 Elfennau Eraill o'r Fframwaith Rheolaeth

Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau cydymffurfedd â holl rwymedigaethau'r sefydliad o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Uchelgais AaGIC yw bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio ynddo. Felly, rydym wedi ymrwymo'n llawn i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol a nodir yn Neddf Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (2011). Mae hefyd yn hanfodol bod y dyletswyddau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn swyddogaethau'r sefydliad, sy'n effeithio ar fyfyrwyr, hyfforddeion a staff ar draws y GIG yn ehangach.

Yma yn AaGIC, rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar wahaniaethu a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant drwy gyfleoedd cyfartal ac ym mhopeth a wnawn. Rydym wedi parhau i wreiddio ein hagenda amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant sy'n cael ei llywio gan arweinyddiaeth gref, cyd-gynhyrchu, cydweithredu ac ymgysylltiad uniongyrchol â'r rhai y mae ein penderfyniadau'n effeithio arnynt.

Mae AaGIC yn sicrhau cyfle cyfartal a mynediad i bawb drwy adeiladu ar sylfaen Deddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac yn ymdrechu nid yn unig i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, ond hefyd i ddefnyddio'r rhain i sicrhau bod y sefydliad yn dangos arfer gorau. Mae AaGIC yn cydnabod bod ein gallu i recriwtio a chadw'r bobl orau yn dibynnu ar greu diwylliant cadarnhaol, tosturiol a chynhwysol.

Ym mis Hydref 2020, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf, sy'n nodi ein cyfeiriad ar gyfer y pedair blynedd nesaf, gan egluro sut byddwn yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt.

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi cryfhau ein trefniadau llywodraethu ar gyfer y maes hwn ac wedi sefydlu grŵp llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gefnogi'r arweinwyr gweithredol ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chydraddoldeb Hiliol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau, yn ogystal â rhwydwaith i rannu a thynnu sylw at arferion gorau, dysgu a chyflawni. Mae gan ddau o aelodau ein bwrdd annibynnol statws sylwedydd yn y cyfarfodydd rhwydwaith.

Mae ein Rhwydwaith Cynhwysiant yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch yn y sefydliad ac mae'n cynnal nifer o ddigwyddiadau rhithiol ac wyneb yn wyneb sy'n codi proffil amrywiaeth ac yn ei ddathlu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi ein hail Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb ar gyfer 2020/21, a'n Hadroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gyfer 2020/21.

Cynllun Pensiwn – A ninnau'n gyflogwr â

staff sy'n gymwys i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr yn Rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i'r Cynllun yn dilyn rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion Cynllun Pensiwn yr aelodau'n cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau.

Cronfa Risg Cymru – Mae Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru yn fecanwaith rhannu risg, yn debyg i drefniant yswiriant, sy'n darparu indemniad i sefydliadau GIG Cymru yn erbyn hawliadau a cholledion yn sgil esgeuluster. Rhaid i sefydliadau GIG unigol dalu £25,000 cyntaf hawliad neu golled, yn debyg i ffi tâl-dros-ben polisi yswiriant.

Ansawdd a Gwella Ansawdd - Mae gan AaGIC strwythur llywodraethu ansawdd ar waith. Llywodraethu Ansawdd yw'r gwerthoedd, yr ymddygiadau, y strwythurau a'r prosesau sydd ar waith i alluogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau dros ansawdd. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog mae'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor ar gyfer ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir gan AaGIC – y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd. Mae'r pwyllgor yn dal cyfarwyddwyr gweithredol i gyfrif ac yn ceisio sicrwydd ar ran y Bwrdd ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn cysylltiad ag ansawdd gwasanaethau addysg a hyfforddiant. Ystyrir Ansawdd a Gwella Ansawdd ymhellach isod. Yn ystod 2021/22 mae AaGIC wedi gweithredu neu barhau i weithredu'r mesurau a amlinellir isod i sicrhau ansawdd, ac i wella ansawdd, mewn cysylltiad â'i swyddogaethau:

- Mae cylch gwaith y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd yn cynnwys; sicrhau'r Bwrdd o ran a oes trefniadau effeithiol ar waith i reoli ansawdd systemau addysg; a gwneud argymhellion ynghylch ansawdd addysg a monitro ansawdd addysg.
- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran datblygu Fframwaith Ansawdd Amlbroffesiwn AaGIC, gan adrodd i'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd ar draws y Cyfarwyddiaethau Meddygol a Nyrsio yn cyd-fynd ag egwyddorion y fframwaith. Mae'r Fframwaith Ansawdd yn sicrhau bod addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel yn cael eu comisiynu a'u cyflwyno drwy system o gynllunio ansawdd, rheoli ansawdd, sicrhau ansawdd a gwella ansawdd.
- Yr adolygiadau gwasanaeth canol blwyddyn a diwedd blwyddyn gyda thîm pob is-gyfarwyddiaeth yn canolbwyntio ar ansawdd a gwella ansawdd. Yn ogystal, mae'r Fframwaith Ansawdd wedi annog pob cyfarwyddiaeth i weithio ar weithgareddau ansawdd.
- Mae Gweithgarwch Ansawdd yn parhau i gael ei wneud ar y cyd â strwythurau rhaglenni hyfforddi yn ogystal â darparwyr addysg lleol sy'n gyfrifol am yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir mewn amgylchedd dysgu cefnogol. Mae AaGIC yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr i sicrhau amgylcheddau hyfforddi o ansawdd uchel.
- Mae AaGIC yn casglu gwybodaeth am brofiadau myfyrwyr a hyfforddeion. Defnyddir y wybodaeth hon i ddylanwadu ar welliannau yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant.
- Mae Gwella Ansawdd wedi'i sefydlu yn swyddogaethau AaGIC, o ran rhannu arferion da yn fewnol a dysgu yn ogystal â thrwy ddysgu gan y GIG a phartneriaid gofal iechyd eraill. Rydym yn cyflwyno hyfforddiant Gwella Ansawdd i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i wella. Rydym hefyd yn darparu'r sgiliau hyn i hyfforddeion a'u hyfforddwyr i'w defnyddio yn y maes clinigol.

Y Gymraeg – Gan fod AaGIC wedi'i sefydlu yn 2018, nid yw wedi'i enwi fel sefydliad sy'n ddarostyngedig i Fesur y Gymraeg 2011. Oherwydd hyn, mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi gofyn i AaGIC baratoi Cynllun Iaith Statudol fel y rhagnodwyd yn wreiddiol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg (1993).

Roedd ein Cynllun Iaith Gymraeg drafft, sy'n seiliedig ar Safonau'r Gymraeg, yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Cymeradwyodd Comisiynydd y Gymraeg ein Cynllun ym mis Hydref 2021, a chymeradwyodd y Bwrdd gyhoeddi ein Cynllun yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2021.

Rhanddeiliaid a Phartneriaid

A ninnau'n sefydliad Cymru gyfan, gyda nifer o swyddogaethau strategol, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys hyfforddeion a myfyrwyr, GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, darparwyr addysg,

rheoleiddwyr, y sector preifat (busnesau, cyflenwyr), cyrff proffesiynol a Llywodraeth Cymru.

Ar gyfer llawer o 2021 – 2022, roedd ein hadnoddau a'n gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn parhau i gefnogi'r ymateb i'r pandemig, gyda rhai gweithgareddau craidd fel ein sioeau teithiol a digwyddiadau cenedlaethol i randdeiliaid yn cael eu gohirio. Fodd bynnag, wrth gydnabod pwysigrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu i'n gwaith, fe wnaethom barhau â chymaint o'n gweithgareddau craidd â phosib ar-lein; gan feithrin a chryfhau perthnasoedd a helpu i siapio ein gwaith a'n gwasanaethau parhaus.

Roedd y dull hwn yn cynnwys:

- Cefnogi ymateb i Covid 19 drwy rannu a hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd; annog myfyrwyr a hyfforddeion i gael eu brechiadau Covid 19 a'r ffliw, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr, hyfforddeion, addysgwyr a phartneriaid dysgu am ddatblygiadau addysg a hyfforddiant drwy e-bost, cylchlythyrau a'n tudalennau pwrpasol ar-lein a oedd yn cynnwys gwybodaeth am Covid.
- Creu tudalennau gwe recriwtio Cymru gyfan yn cyfeirio gwirfoddolwyr a dychwelwyr proffesiynol at wybodaeth am sut gallent gefnogi brechu torfol yn eu hardal leol. Pan oedd yr ymateb i'r brechu torfol ar ei anterth roedd y wefan yn trendio ar Google.
- Ymgysylltu ac ymgynghori'n rhithiol ar raglenni gwaith allweddol gan gynnwys y Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl, Gwyddonwyr Clinigol Ymgynghorol ac Uned Gweinyddu Meddygol, Cynllun Addysg a Hyfforddiant Cymru a'n Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- Lansio darnau allweddol o waith fel y Fframwaith Nyrsys Practis Cyffredinol, Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol, a gwefan newydd AaGIC.
- Digwyddiadau rhithiol sy'n galluogi hyrwyddo, ymgysylltu, cymryd rhan ac adborth gan gynnwys Ffair Fferyllwyr Sylfaen, Therapïau Celf, Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Fferyllwyr Ymgynghorol
- Ailddechrau cynadleddau fforwm myfyrwyr gofal iechyd.
- Sefydlu Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid i hwyluso ymgysylltu, deialog a chyngor gan randdeiliaid er mwyn cyfrannu at ein gwaith cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau.
- Cydnabod datblygiadau o ran cynllunio addysg a hyfforddiant yn y dyfodol gan gwblhau tendr addysg cyn cofrestru'r proffesiynau gofal iechyd, a chynnal gweminarau sy'n benodol i'r proffesiwn.
- Cyflwyno ein gweithlu ar gyfer y dyfodol a hyrwyddo gyrfaoedd yn GIG Cymru drwy flogiau sy'n benodol i'r proffesiwn, hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Rhaglen i Raddedigion a'r grŵp Cymrodoriaeth Glinigol, yn ogystal â lansio Tregyrfa – ein pentref gyrfaoedd rhithiol sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Cynnal cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau cyhoeddus dwyieithog yn ogystal â'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a thynnu sylw at lwyddiannau a datblygiadau o ddiddordeb i'n cynulleidfa.
- Cyflwyno sesiynau briffio dwyieithog rhithiol gydag Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol er mwyn hwyluso trafodaeth â chynrychiolwyr gwleidyddol o bob cwr o Gymru
- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a newyddion dwyieithog rheolaidd, ynghyd â chylchlythyrau gan gynnwys ein Cylchlythyr Gofal Sylfaenol, Bwletin i Randdeiliaid, Cylchlythyr Iechyd Meddwl
- Tynnu sylw at gyflawniadau a chydnabod y gwobrau a enillwyd drwy erthyglau newyddion a hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cefnogi a chodi ymwybyddiaeth drwy nawdd gan gynnwys Gwobrau Arloesi mewn Gofal Iechyd, gwobrau HPMA y DU a gwobrau Womenspire.

Gan edrych i'r dyfodol, mae angen i ni gydbwyso gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu mewn amgylcheddau ffisegol a rhithwir gan gydnabod ein hymrwymiadau i fioamrywiaeth, hygyrchedd a deall y cyfyngiadau amser ar adrannau, gwasanaethau a'r gweithlu sydd i gyd yn brysur.

Yng ngoleuni hyn, rydym wedi adolygu ein cynigion a'n cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer 2022 – 2023. Mae'r rhain yn dwyn ynghyd y pwyntiau uchod a

phwysigrwydd ymgysylltu'n effeithiol, gwrando a dysgu, yn ogystal â darparu gwybodaeth gywir, agored a thryloyw drwy nifer o sianeli.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2022-2023 yn cynnwys:

- Adolygu ein rhestr o randdeiliaid i sicrhau ei bod yn cynrychioli ein partneriaid a'n rhanddeiliaid
- Ail-sefydlu sioeau teithiol wyneb yn wyneb dwyieithog AaGIC ar gyfer hyfforddeion, myfyrwyr, hyfforddwyr, goruchwylwyr ac addysgwyr mewn ysbytai
- Cynnal dau ddigwyddiad cenedlaethol dwyieithog i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn bersonol, gan dynnu sylw at waith AaGIC, cynlluniau presennol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol a chyfleoedd i ymgysylltu â'n rhaglenni gwaith a dylanwadu arnynt. (Yn 2022 – 2023 rydym yn gobeithio cynyddu nifer y digwyddiadau cenedlaethol i randdeiliaid).
- Sefydlu digwyddiadau ar-lein i gynrychioli hyfforddeion

Ar ben hynny, mae gennym amcanion penodol yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n cynnwys:

- Comisiynu ymchwil i ddeall ein cyrhaeddiad a'n heffaith
- Diweddaru ac ail-lansio ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Datblygu cysylltiadau effeithiol a buddiol gyda grwpiau nas clywir ganddynt yn aml
- Cyflwyno sianeli ymgysylltu digidol newydd i wella ein cynnig ymgysylltu
- Sefydlu dull rheoli perthynas i sicrhau ymgysylltu a chyfathrebu parhaus
- Datblygu cysylltiadau strategol effeithiol gyda phartneriaid addysg

Lleihau Carbon – Mae gan AaGIC Strategaeth Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio 2021-24 sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd, a'i bwriad yw helpu i leihau effaith newid yn yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth. Mae'r strategaeth yn nodi dyheadau a bwriadau lefel uchel y sefydliad i fodloni'r gofynion, gan alw ar ei staff, ei randdeiliaid, ei bartneriaid a'i gyflenwyr i weithredu, a gwneud newidiadau cadarnhaol nawr i gyflawni nodau tymor hwy ar gyfer Cymru. Mae'n canolbwyntio ar bedwar maes gweithredu allweddol. Sef:

1. Cefnogi ac ymgysylltu â'n staff
2. Caffael cynaliadwy
3. Datblygu ein swyddfa, Tŷ Dysgu, a chefnogi ein cymunedau lleol
4. Cynaliadwyedd amgylcheddol

Hyd yma rydym wedi cymryd y camau canlynol i leihau ein heffaith ar newid:

- Gosod goleuadau LED a synwyryddion symud dan do a'r tu allan
- Rhoi cynllun ailgylchu ar waith i ddelio â'n deunyddiau mwyaf cyffredin y gellir eu hailgylchu, gan gynnwys bwyd, plastigau, batris a chetris powdwr inc
- Monitro gwastraff a faint sy'n cael ei ailgylchu drwy adroddiadau gan ein partneriaid gwaredu
- Dechrau defnyddio 100% o ynni gwyrdd
- Cynyddu'r lwfans drwy'r cynllun Beicio i'r Gwaith i £2500 i gefnogi staff i wneud dewisiadau trafnidiaeth mwy cynaliadwy
- Ymgymryd â gwaith tir yn Nhŷ Dysgu i hyrwyddo bioamrywiaeth.

Mae AaGIC wedi cael ei enwi fel sefydliad sy'n gyfrifol am gam allweddol yn un o'r mentrau Addysg yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (Mawrth 2021) sy'n ymwneud ag addysg y gweithlu. Yn ogystal â'n hymdrechion i leihau ein heffaith ar newid yn yr hinsawdd, mae gennym rôl allanol i'w chwarae o ran hybu gofal iechyd cynaliadwy drwy addysg, hyfforddiant ac arweinyddiaeth.

Trafodir hyn ymhellach yn adran cynaliadwyedd yr Adroddiad Perfformiad, sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol (tudalennau 12 i 13).).

Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Er bod sefydliadau GIG Cymru yn cael Cyfarwyddiadau Gweinidogol, nid ydynt yn berthnasol i AaGIC bob amser. Mae'r Cyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddir drwy gydol y flwyddyn yn cael eu rhestru ar wefan Llywodraeth Cymru yn Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Pwnc | LLYW.CYMRU.

Roedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol canlynol a gafwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 yn berthnasol i AaGIC..

Cyfarwyddyd Gweinidogol/Dyddiad Cydymffurfio	Dyddiad/ Blwyddyn Mabwysiadu	Cam i ddangos gweithredu/ ymateb
Diwygio Cyfarwyddiadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Rhif 2) 2018	27 Gorffennaf 2021	Diweddaru swyddogaethau AaGIC i gynnwys Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal.
Cylchlythyr Iechyd Cymru 2021 (010) – Diwygio Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol	29 Gorffennaf 2021	Rheolau Sefydlog wedi'u diwygio a'u cymeradwyo gan y Bwrdd
Cylchlythyr Iechyd Cymru (2021) 31 – Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022-25	Mawrth 2022	Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd
Cylchlythyr Iechyd Cymru 2021/024 - Cyfraniad GIG Cymru tuag at Sector Cyhoeddus sero net erbyn 2030: Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru	Mawrth 2022	Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu ac ymrwymwyd iddo yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 a gymeradwywyd gan y Bwrdd

Mynediad Diawdurdod at Ddata
Mae digwyddiadau sy'n arwain at fynediad diawdurdod at ddata yn cael eu hadrodd yn unol â gofynion statudol AaGIC ac yn cael eu cofnodi o dan y protocol torri cyfrinachedd. O dan Ddeddf Diogelu Data 2018, ystyrir bod achosion o dor diogelwch data personol (fel y'i diffinnir gan y ddeddf) yn achosion o danseilio diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu heb awdurdod neu roi mynediad heb awdurdod at ddata personol, a hynny ar ddamwain neu'n anghyfreithlon.

Rhaid asesu risg achosion o fynediad diawdurdod at ddata personol (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf) er mwyn pennu'r risgiau i unigolion byw a'r risgiau i hawliau a rhyddid unigolion byw. Rhaid rhoi gwybod am achosion o fynediad diawdurdod at ddata personol sy'n achosi risg debygol i unigolion byw a risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion byw i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac i wrthrychau data os yw'r mynediad diawdurdod yn debygol o achosi risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion.

Cynhelir ymchwiliad priodol i bob achos o fynediad diawdurdod at ddata a chânt eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Os yw'n briodol neu'n orfodol, rhoddir gwybod am achosion o fynediad diawdurdod at ddata i Lywodraeth Cymru.

Yn ystod 2021/22, dywedodd AaGIC nad oedd unrhyw achosion o fynediad diawdurdod at ddata a oedd yn hysbysadwy i Lywodraeth Cymru na'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cafodd achosion o fynediad diawdurdod at ddata ar lefel is eu cofnodi'n briodol, a rhoddwyd gwybod i'r Swyddog Diogelu Data. Rhoddwyd mesurau lliniaru cychwynnol ar waith, a thrafodwyd y digwyddiadau yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth er mwyn gallu rhannu'r gwersi a ddysgwyd.

4.2 Cynllunio

Oherwydd pandemig Covid, ac fel holl sefydliadau eraill GIG Cymru, datblygodd AaGIC Gynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22 a chytuno arno. Ar 31 Mawrth 2022 fe wnaethom gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd (2022-25) i Lywodraeth Cymru yn unol â Fframwaith Cynllunio'r GIG a'n dyletswydd statudol i lunio cynllun integredig tair blynedd wedi'i gydbwyso'n ariannol. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu strategaeth y sefydliad ac felly mae wedi chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (2022-25). Mae'r chwe Nod Strategol (gweler tudalen 14 yr Adroddiad Perfformiad), yn amcanion strategol sy'n ganolog i'r arferion cynllunio a pherfformiad sydd ar waith i roi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ein gallu i gyflawni fel sefydliad.

Yn ein rôl fel y corff gweithlu strategol ar gyfer GIG Cymru, mae Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal https://heiw.nhs.wales/files/workforce-strategy/, yn dylanwadu'n drwm ar ein cynllun, ynghyd â ffocws ar gefnogi a mynd i'r afael â'r heriau sylweddol o ran y gweithlu sy'n gysylltiedig â Blaenoriaethau'r Gwasanaeth a'r Gweinidog. Datblygwyd y cynllun drwy ymgysylltu â'n Bwrdd, GIG Cymru a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, ein rhanddeiliaid ehangach a'n staff. Eleni, rydym yn falch ein bod wedi gallu cael sgyrsiau â holl sefydliadau'r GIG am ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 sy'n cael ei ddatblygu. Drwy sefydlu ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, rydym hefyd wedi ymgysylltu â dros 40 o sefydliadau gwahanol ynghylch y Cynllun drafft, yn ogystal â chael sesiwn benodol i drafod ein cynlluniau ag Arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru.

Ym mis Ionawr 2020, cymeradwyodd y Bwrdd ein Fframwaith Perfformiad sy'n disgrifio system y sefydliad ar gyfer gwneud gwelliannau parhaus er mwyn cyflawni ein Nodau a'n Hamcanion Strategol, ac er mwyn cyflawni ein gweithgareddau 'Busnes Fel Arfer' yn effeithiol. Yn ystod 2021/22 mae'r Bwrdd wedi sicrhau a chraffu ar ein cynnydd yn rheolaidd o ran cyflawni Cynllun Blynyddol 2021/22. Yn y dyfodol, bydd y Bwrdd yn parhau i dderbyn Adroddiadau Perfformiad Integredig chwarterol sy'n amlinellu'r cynnydd yn erbyn cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan dynnu sylw at yr hyn rydym wedi'i gyflawni, y meysydd lle rydym wedi wynebu heriau a'r camau lliniaru sydd ar waith.

Drwy gydol y flwyddyn hon rydym wedi parhau i wreiddio ein proses adolygu gwasanaeth lle mae'r Tîm Gweithredol yn cynnal cyfarfodydd adolygu gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn gydag uwch arweinwyr a'u timau i adolygu cynnydd prosiectau neu raglenni gwaith allweddol. Yn dilyn pob rownd o adolygiadau gwasanaeth, mae'r tîm cynllunio a pherfformiad yn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu'n cael ei rannu yn AaGIC a bod

y themâu a'r hyn sy'n cael ei ddysgu'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd er mwyn rhoi rhagor o sicrwydd ynghylch perfformiad y sefydliad.

5. Adolygu Effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Atebol, y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r broses o adolygu'r system rheolaeth fewnol yn cael ei llywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y swyddogion gweithredol yn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau'n dibynnu ar nifer o ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol sy'n dangos effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol yr Awdurdod Iechyd Arbennig, ac yn rhoi cyngor pan fydd meysydd i'w gwella. Mae manylion yr elfennau hyn i'w gweld yn y diagram o Fframwaith Rheolaeth Bwrdd AaGIC ar dudalennau 12-13 y Datganiad Llywodraethu hwn.

Mae'r prosesau sydd ar waith i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

- Y Bwrdd a Phwyllgorau'n goruchwylio ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol, ac yn dal cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch reolwyr i gyfrif;
- Cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol ac am wella effeithiolrwydd y sefydliad yn barhaus;
- Y Bwrdd a Phwyllgorau'n adolygu ac yn goruchwylio'r prif risgiau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- Goruchwylio'r risg weithredol drwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau;
- Goruchwylio'r risg o dwyll drwy'r tîm Atal Twyll;
- Monitro'r broses o roi argymhellion ar waith drwy adnodd olrhain archwiliadau sy'n cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;
- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn goruchwylio'r trefniadau archwilio, rheoli risg a sicrwydd.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yng nghyfarfod mis Mai 2022 Bwrdd AaGIC. Dyma fyfyrdodau Cadeirydd y Pwyllgor yn yr Adroddiad Blynyddol:

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn arall o reoli drwy bandemig. Mae'r ymateb, o reidrwydd, wedi bod yn un o amgylchedd sy'n newid yn gyson gyda rheolau a rheoliadau gwahanol yn cael eu cyflwyno drwy'r amser.

Yn dilyn y flwyddyn gyntaf o weithio gartref a chyfarfodydd rhithwir/o bell, ychydig iawn o seibiant a gawsom o ddigwyddedd yr achosion a oedd yn golygu blwyddyn lawn arall o gyfarfodydd o bell. Fodd bynnag, fe wnaethom wella'r atebion technolegol a'r cyfleusterau cyfieithu er mwyn cynnig y gallu i ymuno â chyfarfodydd a gwrando arnynt o bell.

Roedd pawb a oedd yn cyfrannu at y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd wedi parhau i addasu i amgylchiadau a oedd yn newid a chanfod ffyrdd arloesol o gwblhau rhaglenni gwaith. Rwy'n falch o ddweud, er gwaethaf llawer iawn o heriau i'r holl Swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor, yr Aelodau Annibynnol sy'n eistedd ar y Pwyllgor, Archwilio Allanol, Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Gwrth-dwyll Lleol ac eraill – ein bod wedi parhau i gyflawni'r holl fusnes a ddisgwylir gan y Pwyllgor ac wedi gweithio'n dda o dan y newidiadau hyn.

Mae'r busnes wedi parhau heb fawr o darfu. Mae'r gwaith wedi parhau ar bob agwedd ar y rhaglenni archwilio gyda rhywfaint o oedi cymedrol i rai agweddau ar y gwaith. Rydym yn disgwyl y bydd hynny'n lleihau wrth i ni ddechrau ar gyfnod newydd o'r pandemig. Mae'r Pwyllgor wedi parhau â'i adolygiad rheolaidd o'r risgiau sy'n newid a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i amddiffyn unigolion a'r sefydliad, sy'n bwysicach nag erioed.

Nid yw ymgysylltiad na phresenoldeb unrhyw barti wedi lleihau, a rhaid diolch i bawb am chwarae eu rhan. Mae'r agenda, y cofnodion a'r log gweithredu bellach yn cael eu rheoli'n arbennig o dda, ac mae'r busnes arferol wedi gwella'n sylweddol. Mae'r gefnogaeth i gyfarfodydd wedi bod yn ardderchog ac mae hyn yn sicrhau bod y busnes yn rhedeg yn ddi-dor.

Rydym yn parhau i gael adroddiadau o

ansawdd uchel gan bob cyfranogwr, ac mae'r her a'r diddordeb mewn cysylltiad â'r pwnc yn dda. Fel sefydliad sy'n aeddfedu ac sy'n newid o hyd, mae ein busnes nawr yn canolbwyntio ar herio prosesau rheolaidd ac, yn wir, heriau newydd sy'n dod i'r amlwg. Mae llawer o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r sefydliad bellach yn rhai newydd ac mae'n anochel y byddant yn ymwneud â rheoli materion sy'n ymwneud â'r gweithlu mewn amgylchiadau heriol.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio o hyn allan ar linellau cyfrifoldeb clir rhwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd, a'r Bwrdd. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro sut rydym yn llywodraethu'r sefydliad drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn parhau i gael adroddiadau perfformiad rheolaidd gan Archwilio Cymru a'r tîm Archwilio Mewnol, a fydd yn nodi meysydd lle gallai fod angen edrych arnynt yn fanylach, ac yn parhau i ganolbwyntio ar yr argymhellion hynny lle mae angen rhoi sylw iddynt. Rydym wedi bod yn falch o gael adroddiadau ar welliannau i Lywodraethu Gwybodaeth a Rheoli a Chaffael a byddwn yn parhau i fonitro'r rhain yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch hefyd i'm cyd-Aelodau Annibynnol am eu cefnogaeth a'u cyfraniad anhygoel yn ystod y flwyddyn. Ymddeolodd John Hill-Tout, fy Nirprwy Gadeirydd o'r Bwrdd ym mis Chwefror ac mae Ruth Hall wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor i ymgymryd â rôl Is-gadeirydd y Bwrdd. Mae Heidi Phillips wedi bod yn aelod gwerthfawr o'r Pwyllgor. Ein Haelod Annibynnol newydd Jonathan Morgan, a fydd yn dod a gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr i'r Pwyllgor.

Mae wedi bod yn galonogol gweld nifer o'r Tîm Gweithredol yn y Pwyllgor Archwilio, a hynny fel cyflwynwyr a sylwedyddion, ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn parhau flwyddyn nesaf.

5.1 Archwilio Mewnol

Mae'r tîm Archwilio Mewnol yn darparu llif o sicrwydd ynghylch y system rheolaeth fewnol i'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Atebol ac i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Comisiynodd y Prif Weithredwr raglen o waith archwilio sydd wedi cael ei chyflawni yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar hyd a lled y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

Mae'r farn gyffredinol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn un o swyddogaethau'r rhaglen archwilio seiliedig ar risg hon, ac mae'n cyfrannu at y darlun sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein dymuniad i wella'n barhaus.

5.2 Casgliad y Pennaeth Archwilio Mewnol:

Mae hyd a lled barn y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi'i gyfyngu i'r meysydd hynny sy'n cael eu harchwilio yn y cynllun archwilio seiliedig ar risg. Cytunir ar hyn gyda'r uwch dîm rheoli a chaiff ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Dylid dehongli asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a dylid ei ystyried yn sbardun mewnol ar gyfer gwelliant parhaus. Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad wedi'i nodi isod.

Sgôr Sicrwydd



Gall y Bwrdd dderbyn sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, yn cael eu cynllunio'n briodol a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Mae angen i reolwyr roi sylw i rai materion o ran cynllunio dulliau rheoli neu gydymffurfio â'r effaith isel i gymedrol ar ddod i gysylltiad â risgiau anodd cael gwared arnyn nhw, nes y bydd y rhain wedi'u datrys.

Mae'r gwaith archwilio a gynhaliwyd yn ystod 2021/22 wedi cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

Dyma'r sylfaen dystiolaeth y mae'r farn

gyffredinol yn seiliedig arni:

- Asesiad o'r ystod o safbwyntiau unigol sy'n deillio o'r gwaith a wneir mewn cysylltiad â'r adroddiadau archwilio seiliedig ar risg unigol yn y cynllun Archwilio Mewnol, sydd wedi cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd drwy gydol 2021/22. Mae'r asesiad wedi ystyried perthnasedd cymharol y meysydd hynny.
- Adolygiadau sicrwydd eraill, sy'n effeithio ar Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys gwaith archwilio a wneir mewn sefydliadau eraill. Er bod y gwaith yn cael ei wneud yn ffurfiol fel rhan o raglen archwilio sefydliad iechyd penodol, mae'r gwaith yn cynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â chyrff iechyd eraill. Er enghraifft, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Gwybodaeth a hysbysrwydd arall y mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi'u cael yn ystod y flwyddyn gan gynnwys: gwybodaeth a hysbysrwydd cronnus dros amser; arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgor allweddol eraill; cyfarfodydd gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol, uwch reolwyr ac Aelodau Annibynnol; canlyniadau gwaith ad hoc a chymorth a ddarparwyd; cyswllt â rheoleiddwyr a darparwyr sicrwydd eraill; ac ymchwil. Gwybodaeth archwilio gyfunol y sefydliad y mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ei hystyried yn berthnasol i'r Farn ar gyfer eleni.

Sgoriau sicrwydd yr adroddiad archwilio mewnol

Mae crynodeb o'r adolygiadau a'r sgoriau sicrwydd cysylltiedig ym mhob parth wedi'i nodi isod. Cadarnhawyd na chafodd AaGIC unrhyw sicrwydd cyfyngedig nac unrhyw adroddiadau sicrwydd yn ystod y cyfnod adrodd.

Llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a chydymffurfio â'r rheoliadau

- Rheoli Risg – Yn gyffredinol, cyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd sylweddol ar gyfer ein hadolygiad o reoli risg.

Cynllunio strategol, rheoli perfformiad ac adrodd arno

- Rheoli Prosiectau/Rhaglenni – Yn gyffredinol, cyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd sylweddol ar gyfer ein hadolygiad o Reoli Prosiectau/Rhaglenni.
- Trefniadau Perfformiad a Llywodraethu – Yn gyffredinol, cyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd sylweddol ar gyfer ein hadolygiad o Reoli Prosiectau/ Rhaglenni.

Llywodraethu a rheolaeth ariannol

- Proses Cynllunio Ariannol – Yn gyffredinol, cyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd sylweddol ar gyfer yr adolygiad hwn.

Llywodraethu a diogelwch gwybodaeth

- Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth – Yn gyffredinol, cyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd sylweddol ar gyfer yr adolygiad hwn.
- Parodrwydd Strategol i fod yn Ddigidol – Cynhaliodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad ymgynghorol.

Rheoli gwasanaethau gweithredol a swyddogaethau

- System Ailddilysu Arfarnu Meddygol (MARS) – Yn gyffredinol, cyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd rhesymol ar gyfer yr adolygiad hwn.
- System Bwrsari – Yn gyffredinol, cyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd rhesymol ar gyfer yr adolygiad hwn.

Rheoli'r gweithlu

- Recriwtio – Yn gyffredinol, cyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd rhesymol ar gyfer yr adolygiad hwn.
- Cyfarwyddwyr y Rhaglen Hyfforddi – Yn gyffredinol, cyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd rhesymol ar gyfer yr adolygiad hwn.

5.3 Archwilio Allanol – Archwilio Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y GIG yng Nghymru. Mae Archwilio Cymru'n cyflawni'r rôl archwilydd allanol ar gyfer AaGIC ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Cafodd asesiad strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2021 ei ddylunio yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig a chafodd ei gyflwyno mewn dau gam, sef Cam 1 a Cham 2. Roedd adroddiad asesiad strwythuredig Cam 1 yn ystyried trefniadau cynllunio gweithredol AaGIC a sut roedd y rhain yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol. Roedd Cam 2 yr asesiad strwythuredig yn ystyried sut

roedd trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi addasu dros y cyfnod ac yn canolbwyntio ar sut roedd y trefniadau hyn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol.

Canfu'r asesiad fod AaGIC yn cael ei lywodraethu'n dda a bod ganddo drefniadau clir ac effeithiol i reoli ei gyllid, bod ganddo systemau sicrwydd da a'i fod yn parhau i gydbwyso'r gwaith o gefnogi adfer ledled y GIG â darparu addysg a hyfforddiant.

Nid oedd Archwilio Cymru wedi gwneud unrhyw argymhellion yn seiliedig ar waith Asesiad Strwythuredig 2021.

5.4 Ansawdd Data

Mae ansawdd ac effeithiolrwydd yr wybodaeth a'r data a ddarperir i'r Bwrdd yn cael eu hadolygu'n barhaus ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Adroddiad Perfformiad a'r Dangosfwrdd wedi cael eu datblygu a'u diwygio drwy gydol y flwyddyn er mwyn rhoi rhagor o eglurder i'r Bwrdd.

5.5 Rheoleiddwyr

Mae AaGIC yn gweithio gyda phob rheoleiddiwr proffesiynol wrth ddatblygu ein rhaglenni addysg a hyfforddiant. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr wrth addasu ein cyrsiau i ymateb i'r galw ar y gweithlu yn sgil y pandemig. Mae gennym rôl benodol yn cefnogi'r Cyngor Meddygol Cyffredinol mewn cysylltiad ag ansawdd addysg feddygol i raddedigion.

6. Casgliad – Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Fel y nodir yn y datganiad hwn drwyddo draw, mae'r angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 wedi parhau i gael effaith sylweddol ar y sefydliad, ar y GIG yn ehangach ac ar gymdeithas yn ei chyfanrwydd. Mae wedi mynnu ymateb deinamig sydd wedi creu nifer o gyfleoedd yn ogystal â'r risgiau. Bydd yr angen i ymateb i'r pandemig ac adfer ohono yn berthnasol i'r sefydliad ac i'r GIG yn ehangach drwy gydol 2022/23 a thu hwnt. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu'n ystyried yr angen hwn ac yn ymateb iddo.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 nid oes unrhyw faterion sylweddol o ran rheolaeth fewnol neu lywodraethu wedi'u nodi. Mae hyn oherwydd ein bod wedi sefydlu systemau rheolaeth fewnol cadarn i sicrhau bod AaGIC yn cyflawni ei amcanion. Cydnabyddir y bydd yn rhaid gwneud rhagor o waith yn 2022/23 i ddatblygu'r trefniadau hyn ymhellach. Bydd hi'n bwysig cyfathrebu'n eang â staff i wreiddio'r trefniadau hyn ymhellach.

Llofnod



Alex Howells
Prif Weithredwr
13 Mehefin 2022

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol yr Awdurdod Iechyd Arbennig.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y maen nhw'n atebol amdano ac am gadw cofnodion priodol, yn cael eu disgrifio ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n rhaid i'r Swyddog Atebol gadarnhau, hyd y gŵyr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, ac bod y Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylai eu cymryd i sicrhau ei fod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'n rhaid i'r Swyddog Atebol gadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drwyddynt draw yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ac am y dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Y Swyddog Atebol sy'n gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a nodir yn fy

llythyr penodi fel Swyddog Atebol yn briodol.



Alex Howells
Prif Weithredwr
13 Mehefin 2022

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr adroddiad hwn ar gael yn nhablau a thudalennau'r Adroddiad Blynyddol, fel y nodir isod.

Cyfansoddiad y Bwrdd: Tabl 1, tudalennau 7 i 10 y Datganiad Llywodraethu – gwybodaeth fanwl am gyfansoddiad y Bwrdd, gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau annibynnol, sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau AaGIC yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-2022. Mae hyn yn cynnwys enwau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae Tabl 1 yn cynnwys enwau'r cyfarwyddwyr sy'n ffurfio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd.

Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau lefel y Bwrdd ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022: Tabl 2, tudalennau 10 ac 11 y Datganiad Llywodraethu.

Datgan buddiannau: manylion am gyfarwyddiaethau cwmnïau a buddiannau arwyddocaol eraill aelodau o'r Bwrdd, a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Bwrdd, tudalen 9 yr Adroddiad Perfformiad.

Mae AaGIC yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio yn ystod y flwyddyn â'r gofynion priodoli a dyrannu costau a amlinellwyd yng nghanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi.

Llywodraethu Gwybodaeth. Yn ystod 2021/22, nid oedd dim achosion o fynediad diawdurdod at ddata yn bodloni'r meini prawf asesu ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (tudalen 22 y Datganiad Llywodraethu). Materion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol: Mae AaGIC yn ymwybodol o'i effaith ar yr amgylchedd ac yn cymryd camau i'w lleihau lle bo'n bosib. Mae manylion Strategaeth Datgarboneiddio AaGIC a gymeradwywyd gan y Bwrdd, a'i agwedd at gynaliadwyedd wedi'u hamlinellu ar dudalen 21 y Datganiad Llywodraethu.

Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon

Mae'n rhaid i'r cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Awdurdod Iechyd Arbennig ac o incwm a gwariant yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n rhaid i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- gweithredu'n gyson yr egwyddorion cyfrifyddu a osodir gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud penderfyniadau a rhagamcanion sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi bodloni'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon. Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu, yn rhesymol gywir ar unrhyw un adeg, sefyllfa ariannol yr awdurdod a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn bodloni'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Trwy orchymyn y Bwrdd, llofnodwyd:



Dr Chris Jones
Cadeirydd
13 Mehefin 2022



Alex Howells
Prif Weithredwr
13 Mehefin 2022



xxxxxxxxxxx
Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro
13 Mehefin 2022

Adroddiad Taliadau a Staff 2021/22

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â thaliadau'r uwch reolwyr a gyflogir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Mae'r Datganiad ar Bolisïau Tâl yn Atodiad 3 yn ymwneud â safbwynt strategol AaGIC o ran taliadau uwch reolwyr, ac yn darparu datganiad clir o'r egwyddorion sy'n sail i benderfyniadau ynghylch defnyddio cyllid cyhoeddus.

Diffiniad "Uwch Reolwr" yw: 'yr unigolion hynny mewn uwch swyddi sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfanrwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol.' O ran AaGIC, ystyrir mai'r uwch reolwyr yw'r rhai sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd, hy Aelodau o'r Tîm Gweithredol a'r aelodau annibynnol.

Mae dau unigolyn sydd mewn swyddi cyfarwyddwr ond nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd. Ystyrir bod y diffiniad o Uwch Reolwr yn berthnasol iddynt. Sef Nicola Johnson, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Cynllunio a Pherfformiad (tan 31 Mawrth 2022) a Sian Richards, Cyfarwyddwr Digidol. Mae'r ddau Gyfarwyddwr, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, yn aelodau o'r Tîm Gweithredol. Mae eu sefyllfa o ran y Bwrdd wedi'i hamlinellu ar dudalen 3 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth

Mae cylch gorchwyl a threfniadau gweithredu'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth wedi'i nodi yn Rheolau Sefydlog AaGIC. Cafodd y Rheolau hyn eu hadolygu a'u diweddaru ym [mis Tachwedd 2021]. Pwrpas y Pwyllgor yw darparu cyngor i'r Bwrdd ar daliadau a thelerau gwasanaeth a pherfformiad y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch staff eraill. Mae hefyd yn darparu sicrwydd i'r Bwrdd o ran trefniadau taliadau a thelerau gwasanaeth AaGIC, gan gynnwys trefniadau contractau, ar gyfer yr holl staff. Mae rhagor o fanylion am aelodaeth a rôl y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth ar gael yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Datgeliadau Cyflog a Phensiwn

Mae manylion cyflogau a buddion pensiwn uwch reolwyr wedi'u darparu yn Atodiadau 1 a 2. Bwriedir i'r un ffigur tâl (Atodiad 1) fod yn ffigur cynhwysfawr sy'n cynnwys pob math o daliadau a roddir i uwch reolwyr yn y cyfnod adrodd, gan gynnwys elfennau sefydlog ac amrywiol, yn ogystal â darpariaeth pensiwn.

Mae'r un ffigur yn cynnwys y canlynol:

- Cyflog a ffioedd – elfennau pensiynadwy ac amhensiynadwy;
- buddion ymarferol (trethadwy, cyfanswm i'r £100 agosaf);
- buddion cysylltiedig â phensiwn – y buddion hynny sy'n cronni i uwch reolwyr drwy aelodaeth o gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio cyfranogol;

Nid yw AaGIC wedi talu unrhyw daliadau bonws blynyddol neu hirdymor sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Dangosir y ffigurau cyflog blynyddol cyn unrhyw ostyngiad o ganlyniad i unrhyw gynllun aberthu cyflog.

Yn ystod 2020/21, dyfarnwyd bonws untro o £735 o dan 'gynllun cydnabyddiaeth ariannol y GIG a gofal cymdeithasol' i staff y GIG. Talwyd y bonws hwn yn ystod 2021/22. Nid yw'r taliad bonws hwn yn daliad dan gontract, ond yn hytrach yn daliad untro i wobrwyo staff cymwys am eu hymrwymiad a'u hymdrechion diflino yn yr amgylchiadau mwyaf heriol. Nid yw'r bonws wedi'i gynnwys yn y datgeliadau yn yr adroddiad ar daliadau a staff.

Mae gwerth y buddion cysylltiedig â phensiwn sy'n cronni yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel y cynnydd real mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20 llai y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Mae'r cynnydd real yn eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Mae'r ffigur buddion pensiwn yn cael ei gyfrifo ar sail cynnydd yn y gwerth dros y flwyddyn ariannol. Pan fydd unigolyn wedi dod yn 'Uwch Reolwr' yn ystod y flwyddyn, bydd unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn buddion yn cael eu rhoi ar sail pro rata dros y cyfnod yr oedd yn y swydd honno.

Mae Atodiad 2 yn darparu cyfanswm y buddion pensiwn ar gyfer yr holl uwch reolwyr. Y gyfradd chwyddiant a ddefnyddir ar gyfer ffigur 2020/21 yw 0.5% fel y nodir yn y ddogfen ganllawiau, 'Disclosure of Senior Managers' Remuneration (Greenbury) 2022'.

Perthynas rhwng Taliadau

Mae'n rhaid i Gyrff y GIG yng Nghymru ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a thaliadau 25 canradd, canolrifol a 75 canradd gweithlu'r sefydliad. Darperir y wybodaeth hon yn nodyn 9.6 (Datgeliadau Cyflog Teg) yn y cyfrifon blynyddol.

Adroddiad Staff 2021/22

Nifer yr uwch staff

Ar 31 Mawrth 2022 roedd 8 aelod uwch o staff yn ffurfio'r Tîm Gweithredol; roeddent hefyd yn aelodau o'r Bwrdd neu'n bresennol yn rheolaidd. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Cynllunio a Pherfformiad a'r Cyfarwyddwr Datblygu Digidol ar secondiad i AaGIC o'u cyflogwyr gwirioneddol. Ymunodd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol/Dirprwy Brif Weithredwr ar secondiad o Lywodraeth Cymru nes cael ei gyflogi gan AaGIC ar 1 Mawrth 2022.

Dyma eu bandiau cyflog:

Nifer yr Uwch Staff ar 31 Mawrth 2022

Ymgynghorol (Meddygol a Deintyddol)	1
Graddfa Gyflog Staff Gweithredol ac Uwch	7

Niferoedd staff

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer cyfartalog y staff a gyflogir (FTE) gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, yn ôl grŵp rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022:

Grŵp Staff	Cyflogaeth Barhaol (yn cynnwys Cyfnod Penodol) (FTE Cyfartalog)	Staff Asiantaeth (FTE Cyfartalog)	Staff ar Secondiad o'r tu Allan (FTE Cyfartalog)	Cyfanswm 2021/22 (FTE Cyfartalog)
Aelodau Gweinyddol a Chlercol ac Aelodau'r Bwrdd	233.68	8.03	11.91	253.62
Meddygol a Deintyddol	46.31	0.00	0.10	46.41
Staff Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	23.47	0.00	0.37	23.84
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	2.40	0.00	0.00	2.40
Nyrsio a Bydwreigiaeth	5.53	0.00	2.67	8.20
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	2.25	0.00	1.32	3.57
Cyfanswm	**313.64**	**8.03**	**16.37**	**338.04**

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys y Cadeirydd na'r Aelodau Annibynnol.

Cyfansoddiad Staff

Dyma ddadansoddiad o rywedd y Tîm Gweithredol a chyflogeion eraill ar 31 Mawrth 2022:

Cyfansoddiad Staff ar 31 Mawrth 2022 (nifer y staff)	Dynion	Menywod
Uwch Staff (Tîm Gweithredol)	2	6
Cyflogeion Eraill	165	381
Holl Staff	167	387
% o'r holl staff	29.6%	68.6%

Mae'r tabl uchod yn cynnwys yr holl staff sydd ar secondiad ac nid yw'n cynnwys staff a gyflogir drwy asiantaeth.

Data Absenoldeb Oherwydd Salwch

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am nifer y diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i salwch:

	O 01/04/21 tan 31/03/22	O 01/04/20 tan 31/03/21
	Nifer	**Nifer**
Diwrnodau a gollwyd (tymor hir)	1,940.95	1229.70
Diwrnodau a gollwyd (tymor byr)	673.54	412.69
Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd	**2,614.49**	**1642.39**
Cyfanswm blynyddoedd staff	**315**	**260**
Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd	8.29	6.32
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer)	495	463
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod heb unrhyw absenoldeb (nifer)	388	408
Canran y staff heb absenoldeb oherwydd salwch	**78.4%**	**88.12%**

Mae'r niferoedd staff yn y tablau uchod yn cael eu cyfrifo ar wahanol seiliau yn dibynnu ar ofynion y datgeliadau unigol (ee cyfwerth ag amser llawn, nifer, cyfartaledd dros y flwyddyn, cyfanswm ar bwynt penodol).

Cyfradd salwch treigl 12 mis AaGIC oedd 1.8%. Mae hyn yn is na Ch3 (2.2%), ond ar yr un lefel ag ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r rhain yn lefelau absenoldeb oherwydd salwch isel iawn ac maent yn parhau i fod yn sylweddol is na tharged GIG Cymru o 4.1%. Mae'r gymhareb rhwng salwch tymor byr a thymor hir yn parhau'n gymharol gyson ar tua 25%:75% yn y drefn honno. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddiwrnodau a gollir oherwydd salwch yn gysylltiedig â chyfnodau tymor hir ar gyfer nifer fach o staff. Mae'r nifer fwyaf o ddiwrnodau a gollir yn parhau i fod oherwydd pryder a straen, ond eto mae'r rhain yn ymwneud â nifer fach iawn o achosion a gallant fod yn rhesymau sy'n ymwneud â'r cartref neu'r gwaith.

Polisïau staff a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol

Mae AaGIC bellach wedi cael ei sefydlu ers dros dair blynedd. Cafodd ei sefydlu ym mis Hydref 2018, gan uno Gwasanaeth Addysg a Datblygu'r Gweithlu (WEDS), Deoniaeth Cymru a Chanolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru ar y cyd â swyddogaethau corfforaethol a busnes newydd. Roedd sefydlu AaGIC yn golygu trosglwyddo trefniadau Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth (TUPE) staff gan gynnwys staff o Brifysgol Caerdydd, i'r sefydliad newydd ac i'r GIG. Mae nifer o drosglwyddiadau TUPE llai wedi cael eu cwblhau ers 2018 gan gynnwys Archwiliadau Llygaid Cymru, staff y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio, staff y Fframwaith Proffesiynol ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Canolfan Adnoddau Meddygol Cymru a WOPEC (Canolfan Addysg Optometrig Ôl-raddedig Cymru). O ganlyniad, ymunodd 44% o'r staff presennol ag AaGIC o dan TUPE.

Rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r staff drwy'r Fforwm Partneriaeth Lleol i resymoli nifer polisïau'r gweithlu drwy ymestyn polisïau'r GIG i gynnwys cyn staff Prifysgol Caerdydd sy'n dod o dan TUE lle nad oes anfantais a thrwy gytundeb. Yn ystod 2021/22, ar ôl mabwysiadu'r Polisi Parch a Datrys Cymru Gyfan a ddisodlodd y Polisi Cwynion a'r Weithdrefn Urddas yn y Gweithle, cytunwyd y byddai hyn yn disodli Gweithdrefn Gwyno Prifysgol Caerdydd ar gyfer staff ar raddfeydd 1 – 4, Polisi Urddas yn y Gwaith ac wrth Astudio Prifysgol Caerdydd a Chanllawiau Prifysgol Caerdydd ar Ddim Goddefgarwch o Aflonyddu Rhywiol.

Yn ystod 2021/22 roeddem wedi mabwysiadu Polisi Secondiadau Cymru Gyfan a oedd yn disodli'r polisi presennol, wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog ac wedi cael Gwobr Efydd Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn. Cafodd cylch gorchwyl y Grŵp Adolygu Polisi, sy'n elfen allweddol o'r broses o gymeradwyo polisi, ei ddiwygio a'i ail-gymeradwyo gan y Fforwm Partneriaeth Leol er mwyn gallu

ailsefydlu aelodaeth y grŵp wrth i nifer o aelodau ymddiswyddo yn ystod 2021.

Cyflogir yr holl staff sydd newydd eu penodi ar delerau ac amodau gwasanaeth y GIG, naill ai'r Agenda ar gyfer Newid neu Feddygol a Deintyddol. Gall cyn staff Prifysgol Caerdydd ddewis trosglwyddo i delerau ac amodau gwasanaeth y GIG ar unrhyw adeg. Pan fydd cyn staff Prifysgol Caerdydd sy'n dod o dan TUPE yn derbyn swydd newydd yn AaGIC, naill ai'n barhaol neu dros dro, sy'n arwain at newid yn y contract, byddant yn trosglwyddo i delerau ac amodau gwasanaeth y GIG. Hefyd, cytunwyd ar broses ar gyfer rheoli anghysondebau cyflog o ganlyniad i'r gwahaniaethau cyflog rhwng yr Agenda ar gyfer Tâl, y graddfeydd cyflog a Graddfa Gyflog Prifysgol Caerdydd yn y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth ym mis Mawrth 2022.

Rydym wedi parhau i recriwtio i swyddi newydd a gwag yn ystod 2021/22 ac mae nifer y staff wedi cynyddu o 466 ar 1 Ebrill 2021 i 554 ar 31 Mawrth 2022. Mae'r Cofnod Staff Electronig wedi cofnodi 118 o weithwyr newydd a 51 o bobl wedi gadael yn ystod 2021/22 ac mae TRAC wedi dangos bod 165 o swyddi wedi cael eu hysbysebu. Roedd hyn yn cynnwys recriwtio dau Gyfarwyddwr Gweithredol, y Cyfarwyddwr Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yn lle'r trefniadau dros dro a bod Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol/Dirprwy Brif Weithredwr yn disodli'r trefniadau secondio.

Cafodd Cynllun Dysgu a Datblygu ei gwblhau a'i gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol, yn nodi'r blaenoriaethau dysgu a datblygu ar gyfer 2021/22. Roedd hyn yn cynnwys cymeradwyo ceisiadau unigol ar gyfer absenoldeb astudio a rhoi'r flaenoriaeth sefydliadol allweddol ar waith er mwyn darparu hyfforddiant rheoli prosiect.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cryfhau ein ffocws ar sicrhau bod staff yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'n bod yn gwrando ar eu safbwyntiau, gan adeiladu ar blatfform ymgysylltu cryf ers 2018. Yn 2020 roeddem wedi defnyddio adnoddau a dulliau arloesol o fesur boddhad a lles staff. Roedd hyn yn cynnwys pedwar arolwg gweithio gartref a lles, dau asesiad o anghenion iechyd, a'n hail arolwg staff cenedlaethol a gafodd sgôr ymgysylltu o 81%, cynnydd o 3.4% ers 2018. Mae sgyrsiau wedi'u hwyluso wedi cael eu cynnal ar draws y sefydliad yn unol â'r broses o weithredu rhaglen 'Perthnasoedd Gwaith Iach' newydd GIG Cymru ac i sicrhau y gweithredir ar adborth arolygon staff ar lefel leol.

Parhaodd y gwaith ymgysylltu â staff drwy gynadleddau staff rheolaidd yn ystod 2021/22 gyda chynadleddau'n cael eu cynnal ar-lein, sydd wedi arwain at fwy o bresenoldeb. Roeddem hefyd wedi parhau i adolygu prosesau ymgysylltu â staff ac yn ystod 2021/22 rydym wedi ail-gynnal yr Arolwg Diwylliant a gynhaliwyd wrth i AaGIC gael ei sefydlu i adolygu sut roedd y sefydliad wedi symud ymlaen ac i ddarparu gwybodaeth ynghylch lle gallai fod angen rhagor o waith datblygu. Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, gyda chyfradd dychwelyd o 44.5%. Cyflwynwyd y canlyniadau i gyfarwyddiaethau unigol ar gyfer gweithredu a chyflwynwyd y canlyniadau cyffredinol mewn Cynhadledd ar gyfer Staff.

Yn ystod 2021/22 fe wnaethom barhau gyda'r trefniadau gweithio gartref gyda phencadlys AaGIC yn Nhŷ Dysgu ar agor yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru a mesurau priodol i sicrhau ei fod yn aros yn ddiogel o ran COVID er mwyn galluogi staff i weithio o Dŷ Dysgu am resymau busnes a lles. Er bod gweithio gartref wedi bod yn llwyddiannus yn ystod 2021/22, gwnaed gwaith cynllunio i ailagor Tŷ Dysgu ac, yn y pen draw, dychwelyd i weithio yn y swyddfa ar batrwm gweithio hybrid o 3 diwrnod yn y swyddfa a 2 ddiwrnod gartref (pro rata ar gyfer staff rhan amser) gyda rhywfaint o hyblygrwydd lleol drwy gytundeb a staff yn gallu gwneud ceisiadau Gweithio Hyblyg i amrywio eu patrwm gweithio. Cafodd llety ei ail-ddyrannu i gyfarwyddiaethau ac adrannau ar sail model cymdogaeth.

Trafodwyd y model gweithio hybrid mewn Fforwm Partneriaeth Lleol a chafodd staff wybodaeth am hyn yn rheolaidd drwy'r fewnrwyd a'r fforwm staff bob pythefnos. Yn y cyfnod yn arwain at ailagor Tŷ Dysgu ar 17 Mawrth 2022, gwahoddwyd staff i fynychu sesiynau gyda Chyfarwyddwr Gweithredol i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch dychwelyd i'r swyddfa; gwahoddwyd staff hefyd i fynychu teithiau wedi'u hwyluso o amgylch Tŷ Dysgu i ymgyfarwyddo â'r swyddfa eto. Bydd dychwelyd i weithio mewn swyddfa yn galluogi staff i ailgysylltu â'u cydweithwyr yn bersonol a bydd yn hyrwyddo'r cysylltiadau achlysurol sydd wedi cael eu colli wrth weithio gartref.

Mae iechyd a lles staff yn dal yn flaenoriaeth

arwyddocaol i'r sefydliad ac yn ystod 2021-22 rydym wedi cynnal yr Hyb Lles i staff, sy'n cynnwys gwybodaeth a chyfeiriadau at nifer o adnoddau mewnol ac allanol drwy'r fewnrwyd. Rydym hefyd wedi arwain ar sail Cymru gyfan o ran adnoddau iechyd a lles a chydlynu rhwydwaith o fewn GIG Cymru. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn perthyn i ddau gategori:

Adnoddau AaGIC:

- Cefnogaeth Ariannol
- Cyngor ar weithio gartref/sut i osod eich desg
- Rhwydwaith hyrwyddwyr
- Adnoddau llesiant a chyfeirio at Iechyd Galwedigaethol
- Hyrwyddwyr i Gyflogeion – Amser i Newid

Adnoddau Cenedlaethol:

- Iechyd a Lles Cyffredinol
- Iechyd Meddwl
- Llinellau cymorth
- Lles Ariannol
- Adnoddau iechyd a lles y DU
- Gwefannau gwybodaeth
- Ddim yn teimlo'n ddiogel gartref?

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yma yn AaGIC, rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar wahaniaethu a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant drwy gyfleoedd cyfartal ac ym mhopeth a wnawn. Rydym wedi parhau i wreiddio ein hagenda amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant sy'n cael ei llywio gan arweinyddiaeth gref, cyd-gynhyrchu, cydweithredu ac ymgysylltiad uniongyrchol â'r rhai y mae ein penderfyniadau'n effeithio arnynt.

Mae AaGIC yn sicrhau cyfle cyfartal a mynediad i bawb drwy adeiladu ar sylfaen Deddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac yn ymdrechu nid yn unig i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, ond hefyd i ddefnyddio'r rhain i sicrhau bod y sefydliad yn dangos arfer gorau. Mae AaGIC yn cydnabod bod ein gallu i recriwtio a chadw'r bobl orau yn dibynnu ar greu diwylliant cadarnhaol, tosturiol a chynhwysol.

Ym mis Hydref 2020, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf, sy'n nodi ein cyfeiriad ar gyfer y pedair blynedd nesaf, gan egluro sut byddwn yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt.

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein Cynllun Blynyddol, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Partneriaeth y Sector Cyhoeddus a'n cyfraniad at y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae AaGIC wedi bod yn ymwneud yn llawn â datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drafft Llywodraeth Cymru. Mae ein Cyfarwyddwr Meddygol yn aelod o Bwyllgor Llywio Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol y Prif Weinidog sydd wedi arwain y gwaith hwn.

Mae ein Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant blaenorol wedi cael ei drosi'n rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar rannu a datblygu arferion gorau ar draws y sefydliad. Mae ein Rhwydwaith Cynhwysiant yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch yn y sefydliad ac mae'n cynnal nifer o ddigwyddiadau rhithiol ac wyneb yn wyneb sy'n codi proffil amrywiaeth ac yn ei ddathlu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi ein hail Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb (ar gyfer 2020-2021), a'n Hadroddiadau ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gyfer 2020 a 2021.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r partneriaid allanol canlynol i ddarparu adolygiad diduedd o'n polisïau a'n harferion i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â safonau cenedlaethol mewn cysylltiad â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall – sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r anghydraddoldeb y mae staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol yn eu hwynebu

Hyderus o ran Anabledd – sy'n helpu AaGIC i fanteisio i'r eithaf ar y talentau y gall pobl anabl eu cyfrannu at y gweithle

Siarter Afiechyd Marwol y TUC – diogelwch cyflogaeth ychwanegol i weithwyr â salwch terfynol

Cydweithredu ar Atal Trais – sy'n nodi cyfrifoldebau'r partneriaid wrth ddelio ag achosion treisgar neu ymosodol tuag at staff y GIG

Symbol Mynediad Cyfathrebu – ni oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i ymrwymo i fabwysiadu'r Symbol Mynediad Cyfathrebu – gan roi llais i bobl sy'n byw ag anabledd cyfathrebu..

Gwariant ar Ymgynghoriaeth

At ddibenion y cyfrifon statudol, caiff ymgynghoriaeth ei ddiffinio fel aseiniadau ad-hoc/cyfnod cyfyngedig nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau dydd i ddydd AaGIC.

Yn ystod 2021/22, £268k oedd gwariant AaGIC ar ymgynghoriaeth.

Sicrwydd Treth ar gyfer Gwaith Oddi ar y Gyflogres

Mae'n rhaid i AaGIC ddatgelu unrhyw drefniadau sydd ganddo lle mae unigolion yn cael eu talu drwy eu cwmnïau eu hunain neu oddi ar y gyflogres.


Nid oedd unrhyw achos o hyn yn ystod y cyfnod hwn.

Pecynnau Gadael

Mae manylion yr holl becynnau gadael wedi'u cynnwys yn nodyn 9.5 y Cyfrifon Blynyddol. Yn ystod 2021/22, ni thalwyd unrhyw becynnau gadael gan AaGIC.

Datganiad Sicrwydd

Rwyf yn cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol nad yw Archwilio Cymru'n ymwybodol ohoni. Fel y Prif Weithredwr, rwyf wedi cymryd pob cam i gael gwybod am unrhyw wybodaeth berthnasol a sicrhau bod Archwilio Cymru'n ymwybodol ohoni..



Alex Howells

Prif Weithredwr a Swyddog Atebol,
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

13 Mehefin 2022

Atodiad 1a: Un Ffigur Tâl 2021/22

Un Ffigur Tâl					
Enw	**Teitl**	**Cyflog (Bandiau o £5k)**	**Buddion ymarferol (trethadwy) i'r £100 agosaf**	**Buddion Pensiwn i'r £1,000 agosaf**	**Cyfanswm i'r agosaf (Bandiau o £5k)**
Alex Howells	Prif Weithredwr	155 – 160	-	69	225 – 230
Julie Rogers[1]	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol / Dirprwy Brif Weithredwr	115 – 120	-	****]	****]
Dafydd Bebb	Ysgrifennydd y Bwrdd	90 – 95	-	24	110 – 115
Push Mangat[2]	Cyfarwyddwr Meddygol	165 – 170	-	49	215 – 220
Eifion Williams[3]	Cyfarwyddwr Cyllid	45 – 50	-	-	45 – 50
Angela Parry[4]	Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro	15 – 20	-	1	15 – 20
Nicola Johnson[5]	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Cynllunio a Pherfformiad	90 – 95	-	73	165 – 170
Sian Richards[6]	Cyfarwyddwr Datblygu Digidol	90 – 95	-	72	160 – 165
Lisa Llewelyn[7]	Cyfarwyddwr Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol	90 – 95	-	40	130 – 135
Rhiannon Beckett[8]	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro	25 – 30	-	11	35 – 40
Cyfarwyddwyr Anweithredol					
Chris Jones	Cadeirydd	40 – 45	-	-	40 – 45
Tina Donnelly	Cyfarwyddwr Anweithredol	5 – 10	-	-	5 – 10
Ruth Hall	Cyfarwyddwr Anweithredol	5 – 10	-	-	5 – 10
John Hill-Tout[9]	Is-gadeirydd	5 – 10	-	-	5 – 10
Gill Lewis	Cyfarwyddwr Anweithredol	5 – 10	-	-	5 – 10
Heidi Phillips	Cyfarwyddwr Anweithredol	5 – 10	-	-	5 – 10
Jonathan Morgan[10]	Cyfarwyddwr Anweithredol	0 – 5	-	-	0 – 5

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn yn y tabl uchod fel a ganlyn: (cynnydd real yn y pensiwn* X 20) + (cynnydd real mewn unrhyw gyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y gweithiwr)

*heb gynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Nid yw hwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn yn ystod y flwyddyn. Mae llawer o bethau'n gallu dylanwadu ar y ffigurau hyn, ee newidiadau i gyflog unigolyn, unrhyw gyfraniadau ychwanegol gan y cyflogai, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

[1] Ymunodd Julie Rogers ag AaGIC ar secondiad o Lywodraeth Cymru nes cael ei chyflogi gan AaGIC ar 1 Mawrth 2022. Nid yw cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil wedi darparu'r wybodaeth ofynnol eto i gyfrifo'r budd pensiwn ar gyfer y flwyddyn.

[2] Mae Push Mangat ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

[3] Ymddeolodd Eifion Williams ar 31 Rhagfyr 2021 a dewisodd beidio â chael ei warchod

gan Gynllun Pensiwn y GIG tra roedd wedi cael ei gyflogi yn AaGIC. Mae'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn rhwng £60,000 a £65,000.

[4] Daeth penodiad Angela Parry fel y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro i ben ar 30 Mehefin 2021. Mae'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn rhwng £70,000 a £75,000.

[5] Roedd Nicola Johnson ar secondiad Ti Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Dychwelodd i'w swydd barhaol ar 31 Mawrth 2022.

[6] Mae Sian Richards ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

[7] Dechreuodd Lisa Llewelyn yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Addysg Nyrsio Gweithwyr Iechyd Proffesiynol ar 1 Mehefin 2021. Mae'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn rhwng £105,000 a £110,000.

[8] Dechreuodd Rhiannon Beckett fel Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro ar 1 Ionawr 2022.

[9] Daeth cyfnod John Hill Tout fel Aelod Annibynnol i ben ar 31 Ionawr 2022. Mae'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn rhwng £10,000 a £15,000.

[10] Penodwyd Jonathan Morgan yn Aelod Annibynnol ar 4 Ionawr 2022. Mae'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn rhwng £5,000 a £10,000.

Atodiad 1a: Un Ffigur Tâl 2020/21

Un Ffigur Tâl					
Enw	**Teitl**	**Cyflog (Bandiau o £5k)**	**Buddion ymarferol (trethadwy) i'r £100 agosaf**	**Buddion Pensiwn i'r £1,000 agosaf**	**Cyfanswm i'r agosaf (Bandiau o £5k)**
Alex Howells	Prif Weithredwr	150 – 155	-	43	195 – 200
Julie Rogers[1]	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol / Dirprwy Brif Weithredwr	110 – 115	-	54	165 – 170
Dafydd Bebb	Ysgrifennydd y Bwrdd	90 – 95	-	23	110 – 115
Stephen Griffiths[2]	Cyfarwyddwr Nyrsio	15 – 20	-	-	15 – 20
Push Mangat[3]	Cyfarwyddwr Meddygol	165 – 170	-	60	225 – 230
Eifion Williams	Cyfarwyddwr Cyllid	55 – 60	-	-	55 – 60
Angela Parry[4]	Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro	50 – 55	-	12	60 – 65
Nicola Johnson[5]	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Cynllunio a Pherfformiad	45 – 50	-	37	85 – 90
Sian Richards[6]	Cyfarwyddwr Datblygu Digidol	10 – 15	-	5	15 – 20
Cyfarwyddwyr Anweithredol					
Chris Jones	Cadeirydd	40 – 45	-	-	40 – 45
Tina Donnelly	Cyfarwyddwr Anweithredol	5 – 10	-	-	5 – 10
Ruth Hall	Cyfarwyddwr Anweithredol	5 – 10	-	-	5 – 10
John Hill-Tout	Is-gadeirydd	10 – 15	-	-	10 – 15
Gill Lewis	Cyfarwyddwr Anweithredol	5 – 10	-	-	5 – 10
Ceri Phillips	Cyfarwyddwr Anweithredol	5 – 10	-	-	5 – 10
Heidi Phillips	Cyfarwyddwr Anweithredol	5 – 10	-	-	5 – 10

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn yn y tabl uchod fel a ganlyn: (cynnydd real yn y pensiwn* X 20) + (cynnydd real mewn unrhyw gyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y gweithiwr)

*heb gynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Nid yw hwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn yn ystod y flwyddyn. Mae llawer o bethau'n gallu dylanwadu ar y ffigurau hyn, ee newidiadau i gyflog unigolyn, unrhyw gyfraniadau ychwanegol gan y cyflogai, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

[1] Mae Julie Rogers ar secondiad o Lywodraeth Cymru ac mae'n aelod o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n defnyddio ffactor chwyddiant gwahanol ar gyfer cyfrifo cynnydd pensiwn i'r un a ddefnyddir yng nghynllun y GIG.

[2] Ymddeolodd Stephen Griffiths ar 31 Mai 2020.

[3] Mae Push Mangat ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

[4] Dechreuodd Angela Parry fel y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro ar 1 Mehefin 2020.

[5] Mae Nicola Johnson ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a dechreuodd fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Cynllunio a Pherfformiad ar 18 Medi 2020.

[6] Mae Sian Richards ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a dechreuodd fel y Cyfarwyddwr Datblygu Digidol ar 1 Chwefror 2021.

Atodiad 2: Buddion Pensiwn – 2021/22

Enw	Teitl	Cynnydd real mewn pensiwn ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500)	Cynnydd real mewn cyfandaliad pensiwn ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500)	Cyfanswm pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,000)	Cyfandaliad ar oedran pensiwn yn gysylltiedig â phensiwn cronedig ar 31/03/22 (bandiau o £5,000)	Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2022	Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2021	Cynnydd real yn y Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod	Cyfraniad y cyflogwr at bensiwn cyfranddeiliaid
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Alex Howells	Prif Weithredwr	2.5 – 5	2.5 – 5	70 – 75	145 – 150	1,340	1237	73	-
Julie Rogers[1]	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol / Dirprwy Brif Weithredwr	*****1	*****1	*****1	*****1	*****1	*****1	*****1	*****1
Dafydd Bebb	Ysgrifennydd y Bwrdd	0 – 2.5	-	5 – 10	-	87	64	10	-
Push Mangat[2]	Cyfarwyddwr Meddygol	2.5 – 5	7.5 – 10	80 – 85	240 – 245	***2	***2	***2	-
Eifion Williams[3]	Cyfarwyddwr Cyllid	-	-	-	-	-	-	-	-
Angela Parry[4]	Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro	0 – 2.5	-	0 – 5	-	28	16	1	-
Nicola Johnson[5]	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Cynllunio a Pherfformiad	2.5 – 5	5 – 7.5	30 – 35	70 – 75	625	542	67	-
Sian Richards	Cyfarwyddwr Datblygu Digidol	2.5 – 5	5 – 7.5	20 – 25	40 – 45	345	284	47	-
Lisa Llewelyn[6]	Cyfarwyddwr Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol	0 – 2.5	5 – 7.5	50 – 55	160 – 165	***6	***6	***6	-
Rhiannon Beckett[7]	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro	0 – 2.5	0 – 2.5	15 – 20	25 – 30	320	270	9	-

[1] Ymunodd Julie Rogers ag AaGIC ar secondiad o Lywodraeth Cymru nes cael ei chyflogi gan AaGIC ar 1 Mawrth 2022. Nid yw cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil wedi darparu'r wybodaeth ofynnol eto i gyfrifo'r buddion pensiwn ar gyfer y flwyddyn.

[2] Nid oes gan Push Mangat unrhyw werthoedd CETV gan ei fod dros yr oedran pensiwn arferol ar gyfer y cynllun pensiwn perthnasol.

[3] Ymddeolodd Eifion Williams ar 31 Rhagfyr 2021 a dewisodd beidio â chael ei warchod gan Gynllun Pensiwn y GIG tra roedd wedi cael ei gyflogi yn AaGIC.

[4] Daeth penodiad Angela Parry fel y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro i ben ar 30 Mehefin 2021.

[5] Roedd Nicola Johnson ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Dychwelodd i'w swydd barhaol ar 31 Mawrth 2022.

[6] Cymeradwywyd Lisa Llewelyn yn Gyfarwyddwr Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol ar 1 Mehefin 2021. Nid oes gan Lisa unrhyw CETV gan ei bod dros yr oedran pensiwn arferol ar gyfer y cynllun pensiwn perthnasol.

[7] Dechreuodd Rhiannon Beckett fel Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro ar 1 Ionawr 2022.

Atodiad 3: Datganiad ar Bolisïau Tâl

Hawliau cyflog a phensiwn uwch reolwyr 2021-22

Bwrdd AaGIC sydd wedi pennu cyflog a Thelerau ac Amodau Cyflogaeth y Tîm Gweithredol ac uwch reolwyr, a bydd yn parhau i wneud hynny, ar sail argymhellion y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth yn ystyried ceisiadau sy'n ymwneud â'r Cynllun Gadael Swydd o Wirfodd hefyd. Mae aelodau'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth i gyd yn Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd. Cadeirydd AaGIC yw Cadeirydd y Pwyllgor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Yr Archwilwyr

Mae'r archwilwyr wedi adolygu'r adroddiad hwn i sicrhau cysondeb â gwybodaeth arall yn y datganiadau ariannol a byddant yn darparu barn ar y datgeliadau canlynol:

- Un cyfanswm tâl pob cyfarwyddwr;
- Datgeliadau CETV pob cyfarwyddwr;
- Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr, os yw'n berthnasol;
- Taliadau am golli swydd, os yw'n berthnasol;
- Datgeliadau cyflog teg (wedi'u cynnwys yn y cyfrifon blynyddol);
- Pecynnau gadael (wedi'u cynnwys yn y cyfrifon blynyddol), os yw'n berthnasol;
- Dadansoddiad o niferoedd staff.

Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Rheoleidd-dra Gwariant

Rheoleidd-dra yw'r gofyniad bod yr holl wariant a derbyniadau yn cael eu trin yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdod dirprwyedig perthnasol a rheolau Cyfrifyddu Llywodraethiant.

Mae Bwrdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn sicrhau bod y cyllid a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru wedi cael ei wario at y dibenion a fwriadwyd gan Weinidogion Cymru, a bod yr adnoddau a gafodd eu hawdurdodi gan Weinidogion Cymru wedi cael eu defnyddio at y dibenion y cafodd y defnydd ei awdurdodi.

Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Atebol, ac mae'n sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi'n unol â'r gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr wneud y canlynol:

- cadw at y cyfarwyddiadau ar gyfrifon a roddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu priodol mewn ffordd gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn a'u datgelu, ac egluro unrhyw wyriadau o bwys oddi wrthynt; ac
- eu paratoi ar sail busnes byw gan ragdybio y bydd gwasanaethau'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn parhau.

Ffioedd a Chostau

Pan fydd AaGIC yn cyflawni gweithgaredd nad yw'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, bydd AaGIC yn derbyn incwm i dalu ei gostau. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r incwm sy'n cael ei dderbyn yn cael ei chyhoeddi yn y cyfrifon blynyddol.

Mae AaGIC yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio yn ystod y flwyddyn â'r gofynion priodoli a dyrannu costau a amlinellwyd yng nghanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi.

Rhwymedigaethau Digwyddiadol Annhebygol

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol yn golygu'r rhwymedigaethau hynny nad ydynt yn cael eu cydnabod fel cost na rhwymedigaeth ddigwyddiadol oherwydd ei bod yn annhebygol y bydd cost ganlyniadol i AaGIC. Mae'r rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol ar 31 Mawrth 2022 wedi cael eu nodi isod.

	2021–22
Gwarantau	dim
Indemniadau	dim

Tystysgrif ac adroddiad archwilio annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn am y datganiadau ariannol

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r ddeddf berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu yn y DU, fel y maen nhw wedi cael eu dehongli a'u haddasu yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar 31 Mawrth 2022, ac o'i gostau gweithredol net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu yn y DU fel y maen nhw wedi cael eu dehongli a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y ddeddf honno.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob elfen o bwys, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Sail y farn

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (y DU)), a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi cael eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar y Bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf fi o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigon ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

Casgliadau ynglŷn â busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y sail cyfrifyddu busnes byw wedi cael ei defnyddio'n briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes byw am gyfnod o 12 mis o leiaf, o'r dyddiad pan roddir awdurdod i'r datganiadau ariannol gael eu cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes byw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw'r wybodaeth arall yn berthnasol i fy marn i am y datganiadau ariannol, ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad pendant ar yr wybodaeth honno, ac eithrio i'r graddau y gwnaed hynny'n benodol fel arall yn fy adroddiad. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod camddatganiad o bwys yn yr wybodaeth arall. Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n rhaid i mi benderfynu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o

bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys yn yr wybodaeth arall yma, mae'n rhaid imi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan i'w harchwilio o'r adroddiad taliadau wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y ddeddf honno.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi cael ei baratoi'n unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Adroddiad Perfformiad wedi cael ei baratoi'n unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Wrth ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Bwrdd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol, y byddaf yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan i'w harchwilio o'r Adroddiad Taliadau yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nad oedd gwybodaeth gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru ynglŷn â thaliadau a thrafodiadau eraill wedi cael ei datgelu; neu
- nad ydw i wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arna i ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr dros y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, sydd wedi'u nodi ar dudalennau [28] a [30] y Datganiad Llywodraethu, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r bwrdd i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes byw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes byw oni bai fod hynny'n cael ei ystyried yn amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwiliwr dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, er mwyn dod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid sy'n cael ei archwilio a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennau ategol ynghylch polisïau a gweithdrefnau Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n ymwneud â'r canlynol:
  – nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  – canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a'r
  – rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut ac ymhle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw arwyddion posib o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll wrth bostio cyfnodolion anarferol.
- Deall fframwaith awdurdod Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gweithredu'n unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r hyn a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch achosion a hawliadau gwirioneddol a phosib;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi pa mor briodol yw eitemau cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosib; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r ffordd arferol o wneud busnes.

Roeddwn hefyd wedi cyfleu'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posib o ran twyll i holl aelodau'r tîm archwilio, ac yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae anhawster anochel dod o hyd i afreoleidd-dra, effeithiolrwydd mesurau rheoli Addysg a Gwella Iechyd Cymru a natur, amseriad a graddfa'r gweithdrefnau archwilio a gynhaliwyd yn effeithio ar i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ddod o hyd i afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau dros reoleidd-dra

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol.

Rhaid i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
17 Mehefin 2022

24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ